

Strategaeth Lliniaru NAH Morol ac Aberol Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr



Mawrth 2026

Gwybodaeth am ansawdd

Paratowyd gan	Gwiriwyd gan	Dilyswyd gan	Cymeradwywyd gan
Bethan Davies Uwch-wyddonydd Dŵr	Tim Jones Gwyddonydd Dŵr Cyswllt	Owen Tucker Gwyddonydd Amgylcheddol Cyswllt	Robin Clarke Gwyddonydd Dŵr Cyswllt
Charlotte Harding Gwyddonydd Dŵr			

Hanes Adolygu

Adolygiad	Dyddiad adolygu	Manylion	Awdurdodwyd	Enw	Swydd
1.0	09-02-26	Diweddariad yn dilyn sylwadau partneriaid y prosiect			
2.0	09-03-26	Diweddariad yn dilyn sylwadau CNC, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Cartrefi Cymunedol Cymru			

Rhestr Ddosbarthu

# Copïau Caled	PDF yn Ofynnol	Enw'r Cwmni/Gymdeithas

Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Sir Caerfyrddin.
Cyngor Abertawe
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Penfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Paratowyd gan:

AECOM Infrastructure & Environment UK Limited
100 Embankment
Cathedral Approach
Manceinion M3 7FB
Y Deyrnas Unedig

© 2026 AECOM Infrastructure & Environment UK Limited. Cedwir pob hawl.

Ni fydd gan AECOM unrhyw ddyletswydd, cyfrifoldeb na/neu atebolrwydd i unrhyw barti o dan unrhyw amgylchiadau mewn cysylltiad â'r Adroddiad hwn ac eithrio'r hyn sy'n ymwneud â'r Cleient yn rhan o'r Penodiad. Ac eithrio fel y nodir yn y Penodiad, ni roddir unrhyw warant, datganedig neu ymhlyg, mewn perthynas â'r cyngor proffesiynol sydd yn yr Adroddiad hwn nac unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir gan AECOM.

Ni ddylid atgynhyrchu'r Adroddiad hwn yn rhannol nac yn llawn, na'i ddatgelu i unrhyw drydydd partïon at unrhyw ddefnydd o gwbl, heb awdurdod ysgrifenedig penodol AECOM. I'r graddau yr atgynhyrchir yr Adroddiad hwn yn rhannol neu'n llawn, neu y'i datgelir i unrhyw drydydd partïon (boed hynny trwy AECOM neu barti arall) at unrhyw ddefnydd, a ph'un a fydd AECOM yn rhoi ei awdurdod penodol ai peidio ar gyfer datgeliad o'r fath, nid yw AECOM yn derbyn bod gan y trydydd parti hawl i ddibynnu ar yr Adroddiad hwn, ac nid yw'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd i'r trydydd parti. I'r graddau y bydd unrhyw atebolrwydd yn codi i drydydd parti, bydd atebolrwydd o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Penodiad, y mae copi ohono ar gael ar gais i AECOM.

Lle mae unrhyw gasgliadau ac argymhellion a nodir yn yr Adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Cleient a/neu drydydd partïon, tybir bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi cael ei darparu gan y Cleient a/neu drydydd partïon a bod yr wybodaeth honno'n gywir. Nid yw unrhyw wybodaeth o'r fath a gafwyd gan AECOM wedi cael ei dilysu gan AECOM oni nodir fel arall yn yr Adroddiad. Nid yw AECOM yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gasgliadau anghywir, tybiaethau na chamau a gymerir sy'n deillio o unrhyw wybodaeth anghywir a ddarparwyd i AECOM gan y Cleient a/neu drydydd partïon.

Rhagair

Datblygwyd y Llawlyfr hwn fel allbwn cydweithredol Tasglu Datblygu Nitradau Morol Llywodraeth Cymru. Fe'i sefydlwyd yn dilyn asesiadau cyflwr morol 2025 gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r angen dilynol i fynd i'r afael â nitrogen anorganig hydoddedig (NAH) yn nalgylchoedd ACA morol yr effeithir arnynt. Mae'n dod â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Dŵr Cymru ynghyd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau wrth ddarparu cartrefi a swyddi newydd, tra'n ceisio mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r amgylchedd morol. Mae'r Tasglu wedi ceisio symud yn gyflym o adnabod y mater i'w weithredu; mae'r Llawlyfr hwn yn rhan bwysig o'r ymateb ar y cyd hwnnw, gan ddarparu fframwaith cyson i gefnogi datblygwyr a phenderfynwyr i lywio cyfyngiadau NAH morol gyda mwy o eglurder a chysondeb.

Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	7
Cyflwyniad	7
Cyd-destun rheoliadol	7
Proses cam wrth gam i ddatblygwyr	8
Dulliau lliniaru o dan Reoliadau Cynefinoedd 2017	8
Opsiyau lliniaru i ddatblygwyr	8
Crynodeb o gyfrifoldebau'r datblygwr	8
Enghreifftiau wedi'u gweithio	9
1. Cyflwyniad	10
1.1 Problem nitrogen anorganig hydodedig	10
1.2 Diben y Llawlyfr hwn	10
1.3 Amcanion'r Llawlyfr hwn	11
1.4 Cymhwyso'r Llawlyfr hwn	11
1.5 Strwythur y Llawlyfr	11
1.6 Diweddariadau yn y dyfodol	12
2. Cefndir	13
2.1 DIN fel problem mewn ACAau morol	13
2.2 Safleoedd dynodedig Gorllewin Cymru	13
2.2.1 ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd	11
2.2.2 ACA Sir Benfro Forol	12
2.3 Niwtraliaeth Maethynnau yng Nghymru	13
2.3.1 Y mathau o ddatblygiadau yr effeithir arnynt	14
2.4 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng Nghymru	15
2.4.1 Erthygl 6 o'r HRA	15
2.4.2 Proses yr HRA	17
2.4.3 Lliniaru o gymharu ag adfer	17
2.5 Y dull gweithredu a'r canllawiau cyfredol yng Nghymru	18
2.5.1 Y Canllawiau Cenedlaethol Cyfredol	18
2.5.2 Cyfrifo cyllideb maethynnau a mesurau lliniaru	18
2.6 Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Llywodraeth Cymru	19
2.6.1 Mesurau Lliniaru: Gollyngiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol i ACA	20
2.6.2 Datrysiadau lliniaru ar raddfa strategol	21
2.6.3 Datrysiadau Lliniaru dan Arweiniad y Datblygwr	21
3. Rolau a Chyfrifoldebau	22
3.1 Llywodraeth Cymru	22
3.2 Cyfoeth Naturiol Cymru	22
3.3 Awdurdod Cynllunio Lleol	22
3.4 Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru	23
3.5 Byrddau Rheoli Maethynnau	23
3.6 Y Datblygwr	23
4. Cyflawni niwtraliaeth DIN	24
4.1 Cyngor cyn cyflwyno cais	24
4.2 Proses cam wrth gam i ddatblygwyr	24
5. Datrysiadau lliniaru posibl	24
5.1 Trosolwg o'r mesurau lliniaru	24
6. Enghreifftiau wedi'u gweithio	24
6.1 Enghraifft A - Lliniaru trwy SuDS	25
6.2 Enghraifft B - Newid defnydd tir	31
6.3 Enghraifft C - Uwchraddio PTPau neu danciau carthion i PTPau mwy effeithlon	34
6.4 Enghraifft D - Mesurau effeithlonrwydd dŵr	38
6.5 Enghraifft E - Gwell rheolaeth ar ffosydd draenio	41

Atodiad A Mesurau lliniaru posibl	43
A.1 Newid defnydd tir	44
A.2 Mesurau rheoli amaethyddol	50
A.3 Gwlyptiroedd trin.....	54
A.4 Gwlyptiroedd eraill	62
A.5 SuDS trefol	65
A.6 SuDS gwledig	70
A.7 Uwchraddio tanciau carthion a PTP	74
A.8 Rheoli ffiniau caeau	78
A.9 Mesurau effeithlonrwydd dŵr	82
A.10 Gwell rheolaeth ar ffosydd draenio	85
A.11 Gwaredu dŵr wyneb/dŵr gwastraff o'r dalgylch yr effeithir arno	89
A.12 Systemau helyg	92
A.13 Credydau maethynnau	94
Atodiad B Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Cynigion Dewisiadau Lliniaru.....	96
Atodiad C Ffigurau	98

Byrfoddau

Tabl 0-1. Rhestr o'r byrfoddau

Byrfodd	Disgrifiad
ANCB	Corff Cadwraeth Natur Priodol
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
DCWW	Dŵr Cymru
DIN	Nitrogen Anorganig Hydodedig
LICE	Llys Cyfiawnder Ewrop
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
NMB	Y Bwrdd Rheoli Maethynnau
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
PTP	Cyfleuster Trin Parod
SAB	Bwrdd Cymeradwyo SuDS
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
SuDS	Systemau Draenio Cynaliadwy
UKWRA	Cymdeithas Ailddefnyddio Dŵr y Deyrnas Unedig
WFD	Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr
GTDG	Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

Geirfa

Tabl 0-2. Rhestr termau

Term	Disgrifiad
Asesiad Priodol	Asesiad i werthuso arwyddocâd effeithiau cynllun neu brosiect arfaethedig (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynigion eraill) ar Safleoedd Cynefinoedd (y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol), er mwyn llywio'r broses gwneud penderfyniadau.
Datblygu	Diffinnir gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel <i>"The carrying out of building, engineering, mining or other operations in, on, over or under land, or the making of any material change in the use of any buildings or other land."</i>
Tryledu	Symudiad ïonau neu foleciwlau o ardal o grynodiad uwch i ardal o grynodiad is
Llygredd Gwasgaredig	Llygredd sy'n deillio o amryw o ffynonellau helaeth (e.e. amaethyddiaeth, dŵr wyneb ffo), yn hytrach nag un pwynt gollwng.
Nitrogen Anorganig Hydodedig	Mae DIN yn cyfeirio at ffurfiau nitrogen mewn dŵr sydd ar gael i bethau byw, sef nitrad (NO_3^-), nitraid (NO_2^-), ac amoniwm (NH_4^+), ac a all gyfrannu at ddirywiad ansawdd dŵr.
Ewtroffigedd	Gorfaethu dŵr, sy'n arwain at dwf algâu gormodol, lefelau ocsigen is, a niwed i ecosystemau dyfrol yn y pen draw.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Rhaid i Awdurdod Cymwys gynnal asesiad o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, sef Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, i brofi a allai cynllun neu brosiect wneud niwed sylweddol i nodweddion dynodedig Safle Cynefin.
Cyllideb Maethynnau	Cydbwysedd net blynyddol mewnbynnau ac allbynnau maethynnau sy'n gysylltiedig â datblygiad.
Cyfrifo Cyllideb Maethynnau	Asesiad sy'n meintio cydbwysedd net blynyddol mewnbynnau ac allbynnau maethynnau sy'n gysylltiedig â datblygiad.
Llwyth Maethynnau	Faint o faethynnau sy'n mynd i mewn i gorff dŵr dros gyfnod penodol; caiff hyn ei fesur yn aml mewn cilogramau y flwyddyn.
Niwtraliaeth Maethynnau	Egwyddor lle na ddylai datblygiad gynyddu'r llwyth maethynnau (e.e. nitrogen neu ffosfforws) mewn cyrff dŵr sensitif.
Cytundeb Adran 106 (Rhwymedigaeth Cynllunio)	Cytundeb cyfreithiol-rwym a ddefnyddir i sicrhau'r mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â datblygiad.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Nodir bod gorfaethu o ran nitrogen anorganig hydodedig (DIN) yn broblem sylweddol yng nghyffwrdd môr morol Gorllewin Cymru, ac yn benodol yng nghorff môr Cyfarwydddeb Fframwaith Môr (WFD) Aberdaugleddau Mewnol sy'n rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Sir Benfro Forol, a chorff môr WFD Cilfach Tywyn Fewnol sy'n rhan o ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Mae asesiadau diweddar a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o gyflwr y môr yn 2025 yn nodi statws anffafriol ar gyfer dangosyddion cemegol crynodiadau o DIN a dangosyddion biolegol cysylltiedig.

Mae cydnabod bod DIN yn broblem o ran maethynnau mewn dyfroedd morol yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer datblygwyr ac awdurdodau lleol yn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt. Gall datblygiadau newydd sy'n arwain at gynydd yn y nitrogen sy'n gollwng yn uniongyrchol i'r safleoedd hyn, neu i ddalgylchoedd sy'n draenio i'r safleoedd hyn, gyfrannu at gyflwr anffafriol y cyrff môr hyn, neu danseilio mesurau i'w hadfer. **Oherwydd hyn, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau newydd perthnasol sy'n draenio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gorff môr Aberdaugleddau Mewnol neu i gorff môr Cilfach Tywyn Fewnol ac yn cyflwyno llwythi maethynnau newydd neu gynyddol, ddangos niwtraliaeth maethynnau yn achos nitrogen neu sicrhau mesurau lliniaru priodol a chyraeddadwy er mwyn cael cydsyniad.**

Mae'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn yn darparu gwybodaeth a chynghor i gefnogi datblygwyr i roi ystyriaeth ddigonol i DIN wrth gyflwyno cais cynllunio. Mae'n esbonio:

1. Sut i feintio llwythi nitrogen.
2. Nodi mesurau lliniaru cymesur.
3. Pa wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi ceisiadau cynllunio cadarn.

Hefyd bwriedir i'r wybodaeth a'r cynghor yn y Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn gefnogi proses gwneud penderfyniadau gadarn a chyson yr awdurdod cynllunio ar gyfer pob cais cynllunio perthnasol, gan sicrhau ei fod yn cyflawni ei oblygiadau o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol mewn modd priodol.

Cyd-destun rheoliadol

Mae'r angen am niwtraliaeth maethynnau yn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt yn deillio o gyfraith achosion Ewropeaidd, yn enwedig y dyfarniad yn achos Nitrogen yn yr Iseldiroedd, a nododd os yw safle gwarchodedig mewn cyflwr sy'n dirywio, ni all Awdurdodau Cymwys roi cydsyniad cyfreithiol ar gyfer gweithgareddau newydd a fyddai'n cynyddu llwyth llygryddion heb dystiolaeth gadarn na fydd hynny'n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle. Mae'r egwyddor cyfreithiol hon yn berthnasol i'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol yr effeithir arnynt gan DIN, sy'n gofyn am ymagwedd ragofalus at bob datblygiad gyda llwybr hydrolegol posibl i'r safleoedd hyn.

Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017^{1,2} (y cyfeirir atynt fel 'Rheoliadau Cynefinoedd 2017') yn deillio o Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE³ (yn ffurfiol, "Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt"), sy'n gorfodi gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau naturiol. Mae Cyfarwydddeb yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, atal dirywiad ac aflonyddwch i gynefinoedd, a chynnal asesiadau priodol ar gyfer prosiectau sy'n effeithio ar y safleoedd hyn. Trosodd y Deyrnas Unedig y rhwymedigaethau hyn yn gyfraith ddomestig trwy Reoliadau Cynefinoedd 2017.

O dan Reoliadau Cynefinoedd 2017, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lle gall effeithiau arwyddocaol tebygol godi. Mae datblygwyr yn gyfrifol am asesu eu cynigion a dangos eu bod yn niwtral o ran maethynnau (yn achos y datblygiadau newydd hynny mewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt) neu fel arall yn dderbyniol trwy ystyried mesurau lliniaru ar y cyd eraill.

¹ Llywodraeth y DU. (2017). *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017* (Offeryn Statudol 2017/1012). Yn: [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017](#)

² At ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir y term "Safleoedd Cynefinoedd" i gyfeirio at "Safleoedd Ewropeaidd" fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cynefinoedd 2017. Yn benodol, yn Rhan 6 o'r Rheoliadau, mae "Safleoedd Cynefinoedd" yn cyfeirio at safleoedd Ewropeaidd yn y DU, ond mewn darpariaethau eraill, oni nodir fel arall, mae'n berthnasol i safleoedd Ewropeaidd yng Nghymru neu Loegr.

³ Cyngor y Cymunedau Ewropeaidd. (1992). Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt (OJ L 206, 22.7.1992, tt. 7–50) Ar gael yma: [Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt](#)

Mae CNC yn gweithredu fel y Corff Cadwraeth Natur Priodol (ANCB), gan ddarparu canllawiau technegol ar bwysau DIN, amcanion cadwraeth, a'r trothwyon tystiolaethol sy'n ofynnol ar gyfer Asesiad Priodol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r fframwaith polisi cyffredinol, ac wedi datblygu Cyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan, sydd bellach yn brif offeryn ar gyfer amcangyfrif allyriadau DIN o ddatblygiadau arfaethedig a nodi unrhyw warged y mae'n rhaid ei liniaru.

Proses cam wrth gam i ddatblygwyr

Mae'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn yn darparu proses cam wrth gam i ddatblygwyr ei dilyn i bennu eu cyllideb maethynnau ac anghenion lliniaru. Mae'r broses niwtraliaeth maethynnau fel arfer yn golygu cadarnhau gyntaf a yw safle datblygu, neu unrhyw Waith Trin Dŵr Gwastraff a fyddai'n gwasanaethu'r datblygiad wedi'i leoli mewn dalgylch yr effeithir arno gan ofynion DIN (h.y. dalgylch corff dŵr Cilfach Tywyn neu ddalgylchoedd corff dŵr Aberdaugleddau Mewnol). Pan fo dŵr gwastraff sy'n cael ei ollwng o safle datblygu neu'r GTDG sy'n gwasanaethu safle datblygu arfaethedig o fewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt gan DIN, rhaid cyfrifo llwyth maethynnau blyneddol net y datblygiad arfaethedig i ganfod a fyddai'n arwain at gynnydd yn y llwyth maethynnau. Os na nodir cynnydd, gall y cais cynllunio fynd rhagddo heb fesurau lliniaru. Fodd bynnag, lle rhagwelir cynnydd, bydd mesurau lliniaru priodol yn ofynnol i wrthbwysu'r cynnydd yn y DIN a gynhyrchir. Bydd angen rhoi'r mesurau lliniaru ar waith cyn meddiannu'r datblygiad arfaethedig a'u cynnal yn unol â hynny.

Dulliau lliniaru o dan Reoliadau Cynefinoedd 2017

O dan Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE (wedi'i throsi'n gyfraith y DU gan y Rheoliadau Cynefinoedd), mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng camau gweithredu y nodir eu bod yn ddyletswydd gyffredinol dan Erthygl 6(2) o'r Gyfarwydddeb a'r rhai sydd angen asesiad prosiect-benodol dan Erthygl 6(3) pan fydd angen mesurau lliniaru DIN.

Mae Erthygl 6(2) yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrrff cyhoeddus i osgoi dirywiad safleoedd gwarchodedig ac atal aflonyddwch sylweddol iddynt. Cyfrifoldeb y Llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus yw mesurau adfer a gymerir o dan Erthygl 6(2) ac ni ellir eu defnyddio fel arfer fel mesurau lliniaru ar gyfer datblygiadau newydd, gan eu bod yn ofynnol waeth beth fo'r cynigion datblygu. Mae'r Llawlyfr yn tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid i fesurau lliniaru DIN i ddatblygwyr fod yn ychwanegol at fesurau adfer yn gyffredinol, nid dim ond aildisgrifio'r dyletswyddau presennol. Fodd bynnag, efallai y bydd "dull integredig2 cyfyngedig yn cael ei ganiatáu lle mae cyfraniadau datblygwyr yn cyflymu gwaith adfer sydd eisoes wedi'i gynllunio.

Mae Erthygl 6(3) yn gosod y fframwaith ar gyfer yr HRA a'r Asesiad Priodol. O dan y ddarpariaeth hon, rhaid i unrhyw gynllun neu brosiect a allai gael effaith arwyddocaol ar ACA ddangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol. Ar gyfer asesiadau niwtraliaeth DIN, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw warged nitrogen a nodir yn y gyfrifiannell gael ei wrthbwysu'n llawn gan fesurau lliniaru wedi'u sicrhau, sy'n briodol i'r lleoliad. Rhaid i fesurau fod wedi'u hariannu, yn gyraeddadwy ac yn cael eu monitro a'u cynnal am byth. Hefyd, gan nad oes gan Gymru farchnad credyd maethynnau ar hyn o bryd, rhaid i'r holl fesurau lliniaru gael eu harwain gan y datblygwr a'u cysylltu'n uniongyrchol â'r datblygiad ar hyn o bryd.

Opsiynau lliniaru i ddatblygwyr

Mae'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn yn darparu manylion yn yr atodiad o 13 o opsiynau lliniaru DIN posibl i ddatblygwyr, ynghyd â rhoi cyngor ynghylch yr hyder yn y dulliau a'u haddasrwydd tebygol. Mae hyn yn cynnwys ystyried gofynion rheoliadol, amser nes bydd yn effeithiol, cyfradd gwaredu maethynnau, cynnal a chadw, cost ddangosol a sut y gellid eu diogelu'n gyfreithiol. Mae rhai o'r prif opsiynau lliniaru yn cynnwys newid defnydd tir, systemau draenio cynaliadwy (SuDS), uwchraddio tanc carthion/cyfleuster trin parod (PTP), a gweithredu mesurau effeithlonrwydd dŵr. Rhaid i fesurau lliniaru fod yn bendant ac wedi'u sicrhau am oes y datblygiad.

Crynodeb o gyfrifoldebau'r datblygwr

Mae'r datblygwr yn gyfrifol am y canlynol:

- Pennu lleoliad dalgylch ac a oes unrhyw ofynion sgrinio yn berthnasol.
- Pennu cyllideb maethynnau ei ddatblygiad.
- Nodi mesurau lliniaru gyda digon o sicrwydd gwyddonol.
- Arddangos y gallu i gyflawni, monitro a chynnal a chadw yn yr hirdymor ar gyfer y mesurau lliniaru.
- Sicrhau mesurau lliniaru yn gyfreithiol am oes y datblygiad (e.e., amodau cynllunio, Adran 106); a

- Sicrhau bod mesurau lliniaru yn weithredol cyn i lwyth maethynnau ddigwydd.

Argymhellir bod datblygwyr sy'n gweithio mewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt gan DN ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio cyn gynted â phosibl i gael cyngor cyn cyflwyno cais.

Enghreifftiau wedi'u gweithio

Mae'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn yn cyflwyno cyfres o enghreifftiau wedi'u gweithio sy'n dangos sut y gellir defnyddio cyfrifiannell cyllideb maethynnau Cymru Gyfan i feintoli'r mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â SuDS, newid defnydd tir, uwchraddio PTP/tanc carthion, mesurau effeithlonrwydd dŵr a gwell rheolaeth ar ffosydd draenio.

1. Cyflwyniad

1.1 Problem nitrogen anorganig hydoddedig

Nodir bod nitrogen anorganig hydoddedig (DIN) yn broblem sylweddol yng nghyrrff dŵr morol Gorllewin Cymru, ac yn benodol yng nghorff dŵr Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) Aberdaugleddau Mewnol sy'n rhan o ACA Sir Benfro Forol, a chorff dŵr WFD Cilfach Tywyn Fewnol sy'n rhan o ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Mae asesiadau diweddar a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o gyflwr y môr yn 2025 yn nodi statws anffafriol ar gyfer dangosyddion cemegol crynodiadau o DIN a dangosyddion biolegol cysylltiedig⁴. Yn flaenorol, ffosfforws mewn afonydd oedd y maethyn a oedd yn peri'r pryder mwyaf i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) penodol yng Ngorllewin Cymru⁵, ac mae cydnabod bod DIN yn broblem o ran maethynnau mewn dyfroedd morol yn golygu gofynion newydd ar gyfer datblygwyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Gall datblygiadau newydd sy'n arwain at gynydd yn y nitrogen sy'n gollwng yn uniongyrchol i'r safleoedd hyn, neu i ddalgylchoedd sy'n draenio i'r safleoedd hyn, gyfrannu at gyflwr anffafriol y nodweddion hyn, neu danseilio mesurau i'w hadfer. Oherwydd hyn, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau newydd perthnasol sy'n draenio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gorff dŵr Aberdaugleddau Mewnol neu i gorff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol ac yn cyflwyno llwythi maethynnau newydd neu gynyddol, ddangos niwtraliaeth maethynnau yn achos nitrogen neu sicrhau mesurau lliniaru priodol a chyraeddadwy er mwyn cael cydsyniad⁵.

1.2 Diben y Llawlyfr hwn

Cyhoeddir y Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn fel canllawiau cynllunio, ac mae'n darparu gwybodaeth a chyngor i gefnogi datblygwyr i roi ystyriaeth ddigonol i niwtraliaeth DIN wrth gyflwyno cais cynllunio yn nalgylchoedd corff dŵr Aberdaugleddau Mewnol (ACA Sir Benfro Forol) a chorff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol (ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd)⁴.

Mae'n darparu gwybodaeth a chyngor i gefnogi datblygwyr i roi ystyriaeth ddigonol i DIN wrth gyflwyno cais cynllunio. Mae'n esbonio:

1. Sut i feintio llwythi nitrogen.
2. Nodi mesurau lliniaru cymesur y gellir eu rhoi ar waith a'u cynnal.
3. Pa wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi ceisiadau cynllunio cadarn.

Hefyd bwriedir i'r wybodaeth a'r cyngor yn y Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn gefnogi proses gwneud penderfyniadau gadarn a chyson yr awdurdod cynllunio ar gyfer pob cais cynllunio perthnasol, gan sicrhau ei fod yn cyflawni ei oblygiadau o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol mewn modd priodol.

Caiff y canllawiau hyn eu hegluro'n bennaf trwy ddefnyddio enghreifftiau o ddatblygiadau preswyl, ond maent yn berthnasol i bob math o ddatblygiad yn y dalgylch niwtral o ran maethynnau DIN sydd â'r potensial i gyfrannu llwythi nitrogen anorganig hydoddedig (DIN) newydd trwy ddŵr gwastraff domestig neu ddŵr wyneb ffo, gan gynnwys cynlluniau cyflogaeth, twristiaeth, cyfleusterau meddygol/sefydliadau gofal, addysg, defnydd cymysg a masnachol (gweler Adran 2.3.1). Rhaid i ddatblygiadau â thrwyddedau gollyngiadau elifion hefyd sicrhau nad oes cynnydd i DIN ar safleoedd cynefinoedd, ond mae'r broses drwyddedu y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

Mae'r canllawiau'n berthnasol lle bo gan ddŵr gwastraff domestig o ddatblygiadau newydd lwybr hydrolegol i'r cyrrff dŵr yr effeithir arnynt, ac maent yn darparu cymorth i sicrhau cydymffurfedd â Rheoliadau Cynefinoedd 2017.

Yn gyffredinol, mae'r canllawiau'n cyd-fynd â chyfrifiannell cyllideb maethynnau Llywodraeth Cymru⁶, cyngor cynllunio CNC ynghylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig⁵ a chanllawiau Llywodraeth Cymru⁷, ac yn eu cefnogi,

⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). Asesiadau cyflwr ar gyfer safleoedd morol Ewropeaidd Cymru (EMS). Ar gael yma: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/protected-areas-of-land-and-seas/condition-assessments-for-welsh-european-marine-sites-ems/?lang=cy> (Cyrchwyd: 3 Chwefror 2026).

⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faethynnau (V5.1 – 22/10/2025). Ar gael yma: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-planning-authorities/advice-to-planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-special-areas-of-conservation/?lang=cy> (Cyrchwyd: 3 Chwefror 2026).

⁶ Llywodraeth Cymru, Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau. Ar gael yma: [Cyfrifiannell cyllideb maethynnau | LLYW.CYMRU](#)
⁷ Llywodraeth Cymru (2024) Canllawiau cynllunio ymarferol i gefnogi datblygiad, yn enwedig darparu tai fforddiadwy, mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y mae ffosfforws yn effeithio arnynt [Ar-lein] Ar gael yma: [Canllawiau Cynllunio – Datblygiad mewn Afonydd ACA](#)

ac maent yn ceisio darparu canllawiau a chynghor ychwanegol i gefnogi datblygwyr i gyflwyno ceisiadau cynllunio'n llwyddiannus mewn dalgyloedd niwtral o ran maethynnau DIN.

1.3 Amcanion'r Llawlyfr hwn

Mae i'r canllawiau hyn bedwar amcan:

1. Darparu proses 'cam wrth gam' i swyddogion rheoli datblygiad a datblygwyr o ran sut i asesu a datblygu datrysiadau lliniaru priodol ar gyfer asesu niwtraliaeth maethynnau.
2. Darparu trosolwg o'r opsiynau lliniaru ar y safle ac oddi ar y safle, gan adeiladu ar Ddewislen Lliniaru bresennol CNC⁸.
3. Rhoi eglurder o ran a yw mesurau lliniaru yn gymwys i fod yn ymyriadau Erthygl 6(3) y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn hytrach nag yn fesurau Erthygl 6(2)⁹, yn gyson â chanllawiau CNC ar ychwanegedd ac effeithiolrwydd ar adeg yr asesiad.
4. Darparu enghreifftiau wedi'u gweithio i ddangos sut i amcangyfrif gostyngiadau o ran DIN yn sgil rhai o'r mesurau hyn ochr yn ochr ag allbynnau o gyfrifiannell cyllideb maethynnau Llywodraeth Cymru neu gyfrifiadau pwrpasol.

1.4 Cymhwyso'r Llawlyfr hwn

Lluniwyd y Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn mewn partneriaeth rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol canlynol y mae eu hardaloedd i gyd wedi'u lleoli'n rhannol yn nalgylchoedd corff dŵr Aberdaugleddau Mewnol (ACA Sir Benfro Forol) a chorff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol (Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd), ac mae'n berthnasol i'r Awdurdodau hynny:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae cymhwyso'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn ledled y chwe awdurdod cynllunio hyn yn cefnogi cysondeb o ran gwneud penderfyniadau yn ogystal â'r canllawiau a ddarperir i ddatblygwyr.

1.5 Strwythur y Llawlyfr

Caiff y Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr ei gyflwyno mewn saith adran, fel a ganlyn:

- **Adran 2 – Cefndir:** Yn darparu'r cyd-destun rheoliadol a thechnegol, gan gynnwys niwtraliaeth maethynnau yng Nghymru, manylion y math o ddatblygiad yr effeithir arno, proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, manylion yr effaith DIN i rai safleoedd dynodedig yng Ngorllewin Cymru, a Chyfrifiannell Maethynnau Llywodraeth Cymru.
- **Adran 3 – Rolau a Chyfrifoldebau:** Yn diffinio rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, Byrddau Rheoli Maethynnau a datblygwyr wrth iddynt sicrhau niwtraliaeth maethynnau.
- **Adran 4- Cyflawni Niwtraliaeth DIN:** Yn esbonio pryd a sut y dylid sgrinio ac asesu ar gyfer niwtraliaeth maethynnau yn y broses gynllunio, yn cynnwys cynghor cyn gyflwyno cais, cyfrifo effaith maethynnau, a sicrhau mesurau lliniaru trwy fecanweithiau cyfreithiol.
- **Adran 5 – Datrysiadau Lliniaru Posibl:** Yn darparu trosolwg o'r mesurau lliniaru posibl y gellir eu defnyddio i gyflawni niwtraliaeth DIN, ac yn amlinellu gofynion tystiolaethol, ystyriaethau ymarferol, a chyfyngiadau posibl.

⁸ Dewislen Mesurau Lliniaru CNC (2025) Ar gael yma: [mitigation-measures-menu.xlsx](#)

⁹ Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt (1992) OJ L. Ar gael yma: <http://data.europa.eu/eli/dir/1992/43/oj> (Cyrchwyd: 7 Ionawr 2026).

- **Adran 6– Enghreifftiau wedi'u Gweithio:** Yn darparu astudiaethau achos ymarferol sy'n amlygu'r defnydd o Gyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Llywodraeth Cymru a mesurau lliniaru, ac yn dangos llwybrau cydymffurfedd ar gyfer datblygwyr.
- **Atodiad A** - Darperir manylion 13 o opsiynau lliniaru yn yr atodiad hwn.

1.6 Diweddariadau yn y dyfodol

Paratowyd y Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn ym mis Mawrth 2026 ac mae'n seiliedig ar y ddealltwriaeth gyfredol o'r materion niwtraliaeth maethynnau sy'n effeithio ar ACAau morol a'r dulliau lliniaru perthnasol, ac ar y canllawiau cysylltiedig. Gall amgylchiadau a gwybodaeth newid dros amser gan fod hon yn broblem sy'n datblygu, a dylai datblygwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r safbwyntiau polisi a'r canllawiau diweddaraf adeg cyflwyno eu cais trwy gyfeirio at wefannau perthnasol CNC a'r ACLI. Bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol perthnasol yn ymdrechu i ddiweddarau canllawiau ar-lein a'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn yn ôl y gofyn ond bydd cyngor pellach ar gyfer achosion penodol yn dibynnu ar y cynnig, y dystiolaeth a gyflwynwyd a phrosesau'r awdurdod perthnasol.

2. Cefndir

2.1 DIN fel problem mewn ACAau morol

Mae DIN yn cyfeirio at ffurfiau ar nitrogen mewn dŵr sydd ar gael i bethau byw, sef nitrad (NO_3^-), nitraid (NO_2^-), ac amoniwm (NH_4^+). Mae'r cyfansoddiad hyn yn hanfodol ar gyfer twf planhigion a ffytoplankton dyfrol, ac yn aml dyma'r maethynnau cyfyngol mewn ecosystemau morol arfordirol¹⁰ (yn wahanol i ecosystemau afonol sy'n gyfyngedig o ran ffosfforws). Mae llif DIN i gyfeiriad y môr o ddalgylchoedd tirol yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad a pharhad ewtroffigedd mewn ecosystemau arfordirol a morol¹¹. Mae ffynonellau DIN yn amrywio yn ôl sector ac mae ffurfiau amoniwm a nitrad i'w cael yn bennaf mewn gollyngiadau dŵr gwastraff, a nitrad anorganig yw'r brif ffurf o ffynonellau amaethyddol.

Mae DIN yn hydwedd iawn ac mae'r cysylltiad rhyngddo a gwaddodion yn llai nag yn achos ffosfforws, sy'n golygu ei fod yn llawer mwy symudol. Mae'r symudedd uchel hwn yn galluogi cludiant cyflym trwy ddalgylchoedd i mewn i ddyfroedd aberol ac arfordirol. Pan fyddant yn bresennol, gall DIN barhau o ganlyniad i brosesau cyfnewid y llanw ac amseroedd hir yn y dŵr. Yn wahanol i ffosfforws, mae nitrogen hefyd yn destun trawsnewidiadau sy'n cynnwys cam nwyol sylweddol; prosesau megis dadnitreiddio, sy'n trawsnewid nitrad yn nwy nitrogen, gan alluogi iddo gael ei ryddhau i'r atmosffer a lleihau ei barhad mewn amgylcheddau dyfrol. Fodd bynnag, mae trwytholchiad dŵr daear yn cyflwyno llwybr wedi'i oedi, gan ganiatáu i'r nitrogen a roddir ar y tir fynd i mewn i'r dŵr wyneb ymhell ar ôl iddo gael ei ddefnyddio gyntaf^{4,12}.

Mae asesiadau diweddar gan CNC^{13, 14, 15} yn cadarnhau bod crynodiadau gormodol o DIN yn un o brif achosion methiannau o ran ansawdd y dŵr mewn ACAau morol, gyda'r methiannau hyn yn cael eu priodoli'n bennaf i lygredd amaethyddol gwasgaredig, yn ogystal â chyfraniadau o systemau carthffosiaeth preifat (e.e. tanciau carthion) a'r diwydiant dŵr¹².

2.2 Safleoedd dynodedig Gorllewin Cymru

Mae'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn yn canolbwyntio ar ddwy ACA yng Ngorllewin Cymru lle mae pwysau o ran DIN wedi cyfrannu ar gyflwr anffafriol y safleoedd. Mae'r ACAau hyn yn gysylltiedig â'r Cyrff Dŵr WFD penodol canlynol:

- ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, sy'n cynnwys Corff Dŵr WFD Rhyngbarthol Cilfach Tywyn Fewnol.
- ACA Sir Benfro Forol sy'n cynnwys Corff Dŵr WFD Rhyngbarthol Aberdaugleddau Mewnol.

Mae Ffigur 2-1 yn dangos lleoliad yr ACAau perthnasol, Cyrff Dŵr y WFD, y dalgylchoedd niwtral o ran maethynnau DIN, a'r pedwar Awdurdod Lleol a'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol. Ewch i Atodiad C i weld ffigurau unigol ar gyfer ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ac ACA Sir Benfro Forol.

Mae'r ddwy ACA wedi'u dynodi o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017¹⁶ ar gyfer gwarchod cynefinoedd Atodiad I a rhywogaethau Atodiad II. Diweddarodd CNC ei asesiadau cyflwr a'i gyngor ar gadwraeth ar gyfer ACAau Morol ym mis Mehefin 2025⁴. Yn seiliedig ar yr asesiadau hyn, daethpwyd i'r casgliad bod nodweddion sensitif i faethynnau ar y ddau safle mewn cyflwr anffafriol o ran dangosyddion cemegol (DIN) a biolegol (ffytoplankton a macroalgâu) gorfaoethu o ran nitrogen. O ganlyniad, gallai datblygiadau newydd sy'n arwain at gynyddu gollyngiadau nitrogen i'r naill safle neu'r llall gyfrannu at gyflwr anffafriol y safle dynodedig neu ei gwneud hi'n anoddach ei adfer i statws ffafriol.

¹⁰ Howarth, R.W., a Marino, R. (2006). Nitrogen as the limiting nutrient for eutrophication in coastal marine ecosystems: evolving views over three decades. *Limnology and Oceanography*, 51(1), 364–376

¹¹ Han, Chenglong *et al.* (2024) 'Riverine fluxes of dissolved inorganic nitrogen may be underestimated, especially in the gated estuaries: Influence of suspended sediments'. Research Square. Ar gael yma: <https://doi.org/10.21203/rs.3.rs-4293347/v1>.

¹² Johnson-Marshall, S. (2025) 'Widespread Failure In Wales Marine Protected Areas', *Afonydd Cymru*, 25 Mehefin. Ar gael yma: <https://afonyddcymru.org/marine-failures/> (Cyrchwyd: 24 Tachwedd 2025).

¹³ Condition Assessments for the Designated Features of Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd / Carmarthen Bay and Estuaries Special Area of Conservation, Mehefin 2025. Ar gael yma: condition-assessment-for-carmarthen-bay-and-estuaries-sac.pdf

¹⁴ Condition assessments for the designated features of Ardal Gwarchodaeth Arbennig Cilfach Tywyn / Burry Inlet Special Protection Area, Mehefin 2025. Ar gael yma: condition-assessment-for-burry-inlet-spa.pdf

¹⁵ Condition Assessments for the Designated Features of Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol / Pembrokeshire Marine Special Area of Conservation, Mehefin 2025. Ar gael yma: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/5nyjebcc/condition-assessment-for-pembrokeshire-marine-sir-benfro-forol-sac.pdf>


¹⁶ Participation, E. (dim dyddiad) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1012/contents> (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2026).

Mae yna ddyletswydd uniongyrchol ar Awdurdodau Cymwys i helpu i amddiffyn, gwarchod ac adfer Safleoedd Cynefinoedd. Wrth ystyried y potensial i geisiadau cynllunio newydd gael effaith ar y safleoedd hyn, gall yr Awdurdod Cymwys ddefnyddio'r egwyddorion sgrinio yn gyntaf fel y'u nodir ar gyfer dalgylchoedd afonydd ACA sy'n sensitif i faethynnau ar gyfer y mathau o ddatblygiadau sy'n annhebygol o gynyddu gollyngiadau maethynnau yn sylweddol, yn ogystal â chyngor CNC ar ddatblygiadau amaethyddol, estyniadau domestig, systemau trin preifat, toiledau gwahanu a datblygiadau a ganiateir².

Cyngor CNC: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faetholion](#)

Mewn amgylchiadau lle mae gan unrhyw gynlluniau neu brosiectau y potensial i gynyddu gollyngiadau maethynnau yn y dalgylch yr effeithir arno ac nad yw'r egwyddorion sgrinio HRA yn berthnasol, dylai'r posibilrwydd o effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle fod yn destun HRA (a ddisgrifir ymhellach yn Adran 2.4). Mae CNC yn cynghori Awdurdodau Cymwys y gellid dod i gasgliad nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle mewn HRA drwy ddangos niwtraliaeth maethynnau ar gyfer nitrogen, er y gellid ystyried dulliau eraill hefyd fesul achos².

Dylai datblygwyr wirio gyntaf a yw'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli mewn dalgylch niwtral o ran maethynnau trwy gyrchu'r map ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: [Dalgylchoedd Dŵr Croyw ACA Morol Sydd Angen Niwtraliaeth Nitrogen | MapDataCymru](#).



Ffigur 2-1 Lleoliad y ddwy ACA yng Ngorllewin Cymru (ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ac ACA Sir Benfro Forol) lle mae pwysau o ran DIN wedi cyfrannu at gyflwr anffafriol y safleoedd (ffynhonnell: data ar-lein MapData Cymru, Llywodraeth Cymru)

2.2.1 ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd



Ffigur 2-2 Porth Tywyn, sy'n agos iawn i gorff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol ac ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd

Disgrifiad Cryno

Mae ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn ardal aberol gymhleth fawr rhwng penrhyn Gŵyr a Llanelli yn ne Cymru. Mae'r safle'n cynnwys ardaloedd morol a chilfachau morol yn bennaf, gydag ardaloedd llai o nodweddion megis afonydd llanwol, aberoedd, morlynnoedd, morfeydd heli, a chlogwyni. Yn rhan o'r ACA y mae Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Cilfach Tywyn a gwlyptir Ramsar, sy'n bwysig yn rhyngwladol i adar gwyllt a rhydyddion sy'n gaeafu yno ac yn bwydo yn y morfeydd heli a'r ardaloedd rhynglanwol.¹⁷ Dangosir Porth Tywyn, sy'n agos iawn i AGA Cilfach Tywyn Fewnol, yn Ffigur 2-2.

Cafodd ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ei dynodi yn 2004 o dan Erthygl 4.2 o'r Gyfarwydddeb ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (92/43/EEC) oherwydd nodweddion cynefinoedd o dan Atodiad I, a nodweddion rhywogaethau o dan Atodiad II¹³.

Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddynodi¹⁸:

- Aberoedd
- Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
- Dolydd heli'r lwyrydd (*Glauco-Puccinellietalia maritima*).
- Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill ar laid a thywod
- Cilfachau a baeau bas mawr
- Banciau tywod sydd o dan rywaint o ddŵr môr bob amser

Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddynodi¹⁸:

- Gwangod (*Alosa fallax*)¹⁹.

Rhywogaethau Atodiad II sy'n bresennol fel nodweddion cymwys,

- Llisywod pendoll yr afon (*Lampetra fluviatilis*)

¹⁷ Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd: AGA Cilfach Tywyn (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://welsh.cbeems.org/> (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2026).

¹⁸ Carmarthen Bay and Estuaries/ Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd – Special Areas of Conservation (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0020020> (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2026)

¹⁹ Nodwch fod 'Carmarthen Bay and Estuaries/ Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd – Special Areas of Conservation (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://sac.jncc.gov.uk/site/UK0020020> (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2026)' yn rhestru Gwangod (*Alosa fallax*) fel rhywogaeth sy'n brif reswm dros ddewis y safle hwn, a Herlod (*Alosa alosa*) fel nodwedd gymwys ond heb iddi fod yn brif reswm dros ddewis y safle.

ond heb iddynt fod yn brif reswm dros ddynodi:¹⁸

- Llisywod pendoll y môr (*Petromyzon marinus*)
- Dyfrgwn (*Lutra lutra*)
- Herlod (*Alosa alosa*)

Amcanion Cadwraeth

Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am gyflawni Amcanion Cadwraeth safleoedd ACA yng Nghymru. Pennir amcanion ar gyfer pob ACA gyda'r bwriad o gynnal neu adfer nodweddion cymwys y safle i gyflwr ffafriol, ac o sicrhau hyn yn yr hirdymor. Caiff y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i gynnal ac adfer nodweddion cymwys y safle eu hamlinellu yn amcanion cadwraeth 'Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd / Carmarthen Bay and Estuaries Special Area of Conservation'²⁰.

2.2.2 ACA Sir Benfro Forol



Figur 2-3 Rhan o Ddyfrffordd Aberdaugleddau²¹

Disgrifiad Cryno

Mae ACA Sir Benfro Forol yn system eang o aberoedd yn Sir Benfro. Mae'r ACA yn cynnwys Dyfrffordd Aberdaugleddau, sy'n ffurfio un o'r porthladdoedd naturiol mwyaf yn y byd ac yn cynnwys rhwydwaith cymhleth o ddyffrynnoedd afonydd wedi'u boddi, sianeli dwfn, baeau cysgodol a chilfachau²². Mae llawer o'r Ddyfrffordd wedi'i dynodi oherwydd ei gwerth cadwraeth uchel. Mae'r ACA yn cynnwys ardaloedd eang o wastadeddau llaid a thywod rhynglanwol, morfa heli, glannau creigiog, cynefinoedd gwaddod islanwol, gwelyau o forwellt, morlynnoedd heli, a chymunedau rffiau²³.

Cafodd ACA Sir Benfro Forol ei dynodi yn 2004 o dan Erthygl 4.2 o'r Gyfarwydddeb ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid

²⁰ Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd / Carmarthen Bay and Estuaries Special Area of Conservation. Ar gael yma: [conservation-advice-for-carmarthen-bay-and-estuaries-sac.pdf](https://naturalresources.wales/media/639589/SSSI_0282_Citation_EN0010ded.pdf)

²¹ Cyngor Sir Penfro Milford Haven Waterway – Dyfrffordd Aberdaugleddau. Ar gael yma: <https://newsroom.pembrokeshire.gov.uk/resources/milford-haven-waterway-dyfrffordd-aberdaugleddau> (Cyrchwyd 06 Chwefror 2026)

²² Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2002) Milford Haven Waterway (Summary Citation) [Ar-lein] Ar gael yma: https://naturalresources.wales/media/639589/SSSI_0282_Citation_EN0010ded.pdf

²³ Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol (2018) [Ar-lein] Ar gael yma: <https://cdn.naturalresources.wales/687999/eng-pembrokeshire-marine-reg-37-report-2018.pdf>

Gwyllt (92/42/EEC) oherwydd nodweddion cynefinoedd o dan Atodiad I, a nodweddion rhywogaethau o dan Atodiad II¹⁵.

Cynefinoedd Atodiad I sy'n brif reswm dros ddynodi²⁴:	- Aberoedd - Cilfachau a baeau bas mawr - Riffiau
Cynefinoedd Atodiad I sy'n bresennol fel nodweddion cymwys, ond heb iddynt fod yn brif reswm dros ddewis y safle hwn²⁴	- Banciau tywod sydd o dan rywaint o ddŵr môr bob amser - Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel - Morlynnoedd arfordirol - Dolydd heli'r lwerydd (<i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>). - Ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr
Rhywogaethau Atodiad II sy'n brif reswm dros ddynodi²⁴:	- Morloi llwyd (<i>Halichoerus grypus</i>) - Tafol y traeth (<i>Rumex rupestris</i>)
Rhywogaethau sy'n bresennol fel nodweddion cymwys, ond heb iddynt fod yn brif reswm dros ddynodi²⁴:	- Llysywod pendoll y môr (<i>Petromyzon marinus</i>) - Llysywod pendoll yr afon (<i>Lampetra fluviatilis</i>) - Herlod (<i>Alosa alosa</i>) - Gwangod (<i>Alosa fallax</i>). - Dyfrgwn (<i>Lutra lutra</i>)
Amcanion Cadwraeth	Caiff y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i gynnal ac adfer nodweddion cymwys yr ACA eu hamlinellu yn amcanion cadwraeth 'Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol / Pembrokeshire Marine Special Area of Conservation' ²⁵ .

2.3 Niwtraliaeth Maethynnau yng Nghymru

Dŵr o ansawdd gwael a achosir gan orfaethu yw un o'r prif resymau pam y mae nifer o gynefinoedd morol, aberol a dŵr croyw yng Nghymru mewn cyflwr anffafriol. Mae gormodedd o faethynnau yn ysgogi ewtroffigedd sy'n arwain at ddirywiad o ran cyfanrwydd y safle. I adfer ansawdd y dŵr, mae'n rhaid lleihau'r mewnbwn maethynnau, yn ogystal â rheoli'r cynnydd mewn llwythi maethynnau yn y dyfodol (gan gynnwys o ddatblygiadau newydd).

Felly, mae niwtraliaeth maethynnau wedi dod yn ofyniad hanfodol ar gyfer datblygu mewn rhannau o Gymru. Er bod y ffocws cychwynnol ar ffosforws mewn ACAau afonol²⁶ megis Afon Gwy, Afon Wysg, Afon Tywi, Afon Teifi, Afon Dyfrdwy, Afon Eden, Afon Glaslyn, Afon Gwyrfaï ac Afon Cleddau²⁶, mae niwtraliaeth maethynnau bellach hefyd yn cwmpasu cyfanswm pwysau nitrogen (a gofnodir fel DIN) yn dilyn cyhoeddi astudiaethau ychwanegol ar statws cadwraeth cyfredol ACAau morol/abrol²⁷.

Yn hytrach na chyhoeddi un datganiad polisi neu newid deddfwriaethol, mae dull Cymru o fynd i'r afael â niwtraliaeth maethynnau wedi datblygu'n raddol wrth i CNC ac Awdurdodau Cynllunio Lleol ymateb i ansawdd dŵr sy'n gwaethgu ar safleoedd dynodedig, a'r angen i sicrhau cydymffurfedd â Rheoliadau Cynefinoedd 2017¹. Mae'r dull hwn sy'n benodol i Gymru yn gyson â chysyniad ehangach y DU, ond mae wedi'i lunio gan ysgogwyr polisi lleol a rolau rheoleiddiol CNC a Llywodraeth Cymru (fel y'u hamlinellir yn nes ymlaen yn Adran 3).

²⁴ Pembrokeshire Marine/ Sir Benfro Forol – Special Areas of Conservation (dim dyddiad). Ar gael yma: [Pembrokeshire Marine/ Sir Benfro Forol - Special Areas of Conservation](#) (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2026)

²⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol / Pembrokeshire Marine Special Area of Conservation. Ar gael yma: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/hejbvule/conservation-advice-for-sir-benfro-forol-pembrokeshire-sac.pdf>

²⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). *Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â datblygiadau neu drwyddedau gollwng dŵr arfaethedig*. [Ar-lein] Ar gael yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â datblygiadau neu drwyddedau gollwng dŵr arfaethedig](#) (Cyrchwyd: 02 Ionawr 2026).

²⁷ Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). *Angen camau pellach i amddiffyn ardaloedd morol gwarchodedig Cymru*. [Ar-lein] Ar gael yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Angen camau pellach i amddiffyn ardaloedd morol gwarchodedig Cymru](#) (Cyrchwyd: 14 Ionawr 2026).

Roedd yr angen am niwtraliaeth maethynnau yn deillio'n wreiddiol o ddyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop yn achos Nitrogen yn yr Iseldiroedd (C-293/17 a C-294/17), a nododd os yw safle cadwraeth natur gwarchodedig Ewropeaidd mewn cyflwr sy'n dirywio (er enghraifft oherwydd lefelau gormodol o faethynnau y rhagwelir hefyd y byddant, o bosibl, yn cynyddu), cyfyngedig iawn yw'r amgylchiadau pan all gollyngiadau pellach i'r safle gael eu caniatáu yn gyfreithiol. O ganlyniad, yn nifyg unrhyw drothwy ac iddo sail empirig y gellir ystyried mewnbynnau nitrogen a ffosfforws dyfrol yn ddibwys neu'n *de minimus* o gymharu â hi, rhaid dod i'r casgliad y gallai datblygiad newydd ar safle'r cynefinoedd yr effeithir arnynt gynyddu'r dyddodiad maethynnau i'r safle gwarchodedig uwchlaw lefelau sydd eisoes yn niweidiol, gan felly ymyrryd â gallu'r safle i gyflawni ei amcanion o ran gwarchodaeth a chyfanrwydd y safle cadwraeth natur gwarchodedig Ewropeaidd. Mae hyn yn berthnasol o dan Reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, ac ni all ACLI (h.y. yr Awdurdod Cymwys) roi caniatâd cyfreithiol ar gyfer cynllun neu brosiect a fydd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safle cadwraeth natur gwarchodedig Ewropeaidd.

2.3.1 Y mathau o ddatblygiadau yr effeithir arnynt

Gall datblygiadau newydd, yn cynnwys tai neu fentrau amaethyddol, arwain at lwythi cynyddol o faethynnau yn mynd i mewn i ddalgylchoedd cyrff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol ac Aberdaugleddau Mewnol (ac felly hefyd y priod ACAau yr effeithir arnynt) o ddŵr gwastraff neu ddŵr wyneb ffo ychwanegol⁵. Mae cyngor CNC ar niwtraliaeth maethynnau yn berthnasol i unrhyw ddatblygiad yn y dalgylchoedd niwtral o ran maethynnau DIN, neu sy'n cael ei wasanaethu gan GTDG yn y dalgylchoedd hynny, sy'n cynyddu'r lefelau nitrogen. Mater i'r ACLI yw penderfynyn a yw cynllun neu brosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar ACA. Yn gyffredinol, mae'r mathau o ddatblygiadau a allai olygu bod asesiad yn ofynnol yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt o reidrwydd:

- **Datblygiad preswyl:** Cartrefi neu dai newydd a all arwain at gynydd o ran meddiannaeth yn y dalgylch niwtral o ran maethynnau DIN.
- **Estyniad preswyl ynghyd â chynnydd mewn meddiannaeth/newid defnydd:** Gall unrhyw estyniad neu waith domestig a fydd yn arwain at greu llety byw annibynnol fel uned gynllunio ar wahân arwain at gynydd ym meddiannaeth preswylwyr o'r tu allan i ddalgylch niwtral o ran maethynnau DIN.
- **Datblygiad dibreswyl:** Datblygiadau y disgwylir iddynt wasanaethu poblogaeth o'r tu allan i'r dalgylch niwtral o ran maethynnau DIN ac nad ydynt felly yn cael eu gwasanaethu eisoes gan gysylltiadau preswyl â charthffosydd cyhoeddus neu breifat presennol sy'n gollwng dŵr o fewn y dalgylch niwtral o ran maethynnau DIN. Er enghraifft, gall hyn gynnwys llety twristiaid hunanwasanaeth ac a wasanaethir, megis gwestai, tai llety, gwely a brecwast, cyfleusterau gwyliau hunanarlwy, safleoedd gwersylla a charafannau, ac, o bosibl, ysbytai/datblygiadau gofal cymdeithasol. Gall datblygiadau masnachol neu ddiwydiannol newydd, er enghraifft cyfleusterau cynadledda, safleoedd manwerthu mawr, neu atyniadau mawr i dwristiaid hefyd arwain at ollwng maethynnau ychwanegol i mewn i'r system. Gall fod yn ofynnol i ddatblygiadau diwydiannol yn arbennig ollwng dŵr gwastraff prosesau, a allai gynnwys nitrogen, i gyrsiau dŵr ac efallai y bydd angen trwydded amgylcheddol gan CNC a systemau trin ffurfiol, ac nid yw hynny'n cael ei gwmpasu gan y canllawiau hyn. At hynny, gall hefyd fod yn ofynnol ystyried datblygiadau mawr sy'n denu gweithwyr adeiladu o'r tu allan i'r dalgylch niwtral o ran maethynnau, yn ddibynnol ar sut y bydd y dŵr brwnt yn cael ei reoli, hyd yn oed os na fydd yn ofynnol cynnal asesiad o'r datblygiad gorffenedig ei hun.
- **Digwyddiadau dros dro:** Dylid ystyried safleoedd sydd â hawl cynllunio i gynnal digwyddiadau tymhorol mynych neu weithgareddau ad hoc yn yr hirdymor yn ddatblygiadau parhaol. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau priodasau tymhorol, meysydd carafanau teithiol a lleoliadau gweithgareddau awyr agored, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, gan hefyd, o bosibl, gynnwys unrhyw ddefnydd tir sui generis a gynigir.
- **Datblygiadau sy'n cynnwys cysylltiadau dŵr gwastraff:** Unrhyw gynnig sy'n cysylltu â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) cyhoeddus neu sy'n defnyddio Cyfleusterau Trin Parod (PTP) o fewn dalgylch niwtral o ran maethynnau DIN. Mewn rhai achosion gallai'r datblygiad arfaethedig fod wedi'i leoli y tu allan i'r dalgylch niwtral o ran maethynnau DIN ond bod y GTDG y byddai'r dŵr brwnt yn llifo iddo o fewn y dalgylch.
- **Amaethyddol:** Datblygiadau amaethyddol newydd sy'n ymwneud â chynhyrchu, storio, rheoli a gwasgaru tail a slyri organig, ac a allai, o bosibl, gyfrannu at faint o faethynnau sy'n mynd i mewn i safle dynodedig (e.e. adeiladau da byw neu gyfleusterau ac adeiladau ar gyfer trin tail da byw, slyri, a thail organig arall). Mae datblygiadau amaethyddol eraill nad ystyrir y byddant yn cael effaith arwyddocaol debygol ar nodweddion ACA mewn perthynas â'r effaith ar ansawdd y dŵr yn cynnwys gorchuddio buarth presennol a tho ar gyfer storfa dail/slyri neu silwair nad yw'n effeithio ar adeiladwaith presennol y storfa.

Esemptiadau ac eithriadau a nodir gan CNC:⁵

- Unrhyw ddatblygiad sy'n gwella ansawdd y dŵr a ollyngir trwy leihau crynodiad y maethynnau mewn dŵr gwastraff heb gynyddu'r cyfaint, neu drwy leihau cyfaint y dŵr gwastraff a gynhyrchir heb gynyddu crynodiad y maethynnau.
- Mae CNC yn ystyried bod estyniadau domestig yn darparu mwy o ofod byw mewn eiddo sy'n bod, gofod na fydd, o bosibl, yn arwain at newid yn nifer y bobl sy'n byw yno. Mae hyn yn wir ar yr amod na fydd yr estyniad yn arwain at greu llety byw annibynnol, uned gynllunio ar wahân a/neu newid defnydd.
- Datblygiadau sy'n defnyddio Cyfleusterau Trin Parod (PTP): Lle gellir cyfiawnhau PTP (h.y. gellir dangos, er boddhad yr ACLI, nad yw cysylltu â charthffos gyhoeddus yn ymarferol), ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd gollyngiadau bach i'r ddaear (<2m³/dydd) trwy faes draenio addas yn cael effaith arwyddocaol ar ACA. I hyn fod yn wir, dylai'r PTP gael ei adeiladu'n unol â'r Safon Brydeinig berthnasol (BS 6297:2007+A1:2008), a rhaid i'r maes draenio gael ei leoli mwy na 40 m i ffwrdd oddi wrth unrhyw nodwedd dŵr wyneb megis afon, nant, dyfrffos neu ddraen, mwy na 50 m i ffwrdd oddi wrth ffin ACA, ac o leiaf 50 m i ffwrdd oddi wrth unrhyw fan arall lle mae dŵr yn cael ei ollwng i'r ddaear.⁵
- Datblygiadau y bwriedir iddynt ddarparu gwasanaethau, cyfleusterau, safleoedd masnachol, neu fannau cyflogaeth (e.e. adeiladau cymunedol, ysgolion, ac ati) ar gyfer poblogaeth leol a wasanaethir eisoes gan gysylltiadau â charthffosydd cyhoeddus neu breifat sy'n gollwng o fewn y dalgylch niwtral o ran maethynnau DIN.
- Cyfleusterau cymunedol neu gyflogaeth sy'n gwasanaethu'r boblogaeth leol bresennol.
- Gwelliannau amaethyddol penodol lle na chynyddir nifer y da byw.

Os oes unrhyw amheuaeth, dylai datblygwyr gysylltu â'r ACLI perthnasol am gyngor ynghylch p'un a yw'n ofynnol cynnal asesiad niwtraliaeth maethynnau ar gyfer datblygiad penodol.

2.4 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng Nghymru

Mae'r dull o fynd i'r afael â niwtraliaeth maethynnau yng Nghymru yn seiliedig ar y broses HRA. Rhoddir amddiffyniad cyfreithiol penodol i gyrff dŵr a ddynodir yn ACAau, sy'n deillio o Gyfarwydddeb Cynefinoedd a droswyd yn gyfraith Cymru gan Reoliadau Cynefinoedd 2017 a'i dargadw, gyda gwelliannau ar ôl Brexit (nad ydynt wedi'u rhestru yma), i sicrhau parhad.

Lle bo gan ddatblygiad lwybr effaith posibl i Safle Cynefin (gan gynnwys trwy orfaethu), rhaid i'r Awdurdod Cymwys gynnal profion sgrinio HRA i bennu a fydd prosiect, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar gyfanrwydd ACAau ac AGAau. O fewn dalgylchoedd ACAau morol lle mae lefel y maethynnau eisoes yn uwch na'r terfynau, bydd cynigion sy'n debygol o gynhyrchu maethynnau sylweddol ychwanegol ac na ellir eu sgrinio allan yn ysgogi Asesiad Priodol.

Mae CNC wedi nodi bod unrhyw lwyth maethynnau ychwanegol na ellir eu sgrinio allan, ni waeth pa mor fach, yn annhebygol o fodloni'r prawf "dim effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle" heb sicrhau mesurau lliniaru cyraeddadwy. Felly, mae niwtraliaeth maethynnau yn darparu mecanwaith ymarferol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 trwy ei gwneud yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiad roi mesurau lliniaru priodol ar waith i wrthbwysu unrhyw gynydd mewn allyriadau DIN. Gallai dulliau eraill hefyd fod yn addas a gellir eu hystyried fesul achos.

2.4.1 Erthygl 6 o'r HRA

Mae Erthygl 6 o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwarchod Safleoedd Cynefinoedd, ac mae'n ganolog i'r broses gweud penderfyniadau am ei bod yn sail i'r gofyniad i osgoi neu liniaru'n llawn yn erbyn llwyth maethynnau ychwanegol i safleoedd dŵr-ddibynnol gwarchodedig. Darperir pedair elfen warchod allweddol o dan Erthygl 6 o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd, a grynhoir yn Nhabl 2-1⁷ Mae Tabl 2-1 yn gwahaniaethu rhwng Erthyglau 6(1) a 6(2), sy'n canolbwyntio ar reoli safleoedd mewn modd rhagweithiol a mynd i'r afael â bygythiadau presennol, ac Erthyglau 6(3) a 6(4), sy'n cyflwyno proses asesu cam wrth gam ar gyfer gwerthuso effeithiau cynlluniau a phrosiectau arfaethedig newydd. Fel y cyfryw, Erthygl 6(3) ac Erthygl 6(4) sydd fel arfer yn fwyaf perthnasol i ddatblygwyr.

Tabl 2-1Trosolwg o ddarpariaethau Erthygl 6*

Erthygl	Disgrifiad
Erthygl 6(1)	Rhaid i Gymru sefydlu mesurau cadwraeth angenrheidiol sy'n cyfateb i ofynion ecolegol y cynefinoedd a'r rhywogaethau y dynodwyd y safle ar eu cyfer.
Erthygl 6(2)	Rhaid i Gymru gymryd camau priodol i osgoi dirywiad cynefinoedd naturiol ac i osgoi tarfu'n sylweddol ar rywogaethau.
Erthygl 6(3)	Rhaid i Gymru gynnal Asesiad Priodol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau newydd sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safleoedd dynodedig. Dim ond ar ôl sicrhau na fydd yna unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, y gellir rhoi caniatâd.
Erthygl 6(4)	Serch hynny, gall cynigion a allai fod yn niweidiol gael eu caniatáu yn absenoldeb datrysiadau eraill, a hynny am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig. Rhaid sicrhau mesurau cydadferol. Nodwch mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir mabwysiadu dull o'r fath, ac nad oedd yna'r un achos o'r fath yn ymwneud â niwtraliaeth maethynnau yng ngorllewin Cymru adeg ysgrifennu'r ddogfen hon (Mawrth 2026).

* Mae 'Aelod-wladwriaethau' yn y testun gwreiddiol wedi'i ddisodli gan 'Cymru' am fod diogelu'r amgylchedd yn fater sydd wedi'i ddatganoli i raddau helaeth.


Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng camau gweithredu y nodir eu bod yn ddyletswydd gyffredinol dan Erthygl 6(2) a'r broses asesu prosiect-benodol dan Erthygl 6(3). Mae Erthygl 6(2) yn rhoi rhwymedigaeth barhaus ar Lywodraeth Cymru, CNC ac Awdurdodau Cynllunio Lleol (sef yr Awdurdodau Cymwys) i osgoi dirywiad ac aflonyddwch i Safleoedd Cynefinoedd Gwarchodedig, pa un a oes cynllun neu brosiect penodol yn cael ei gynnig ai peidio. Ar y llaw arall, mae Erthygl 6(3) yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynlluniau a phrosiectau newydd yn osgoi unrhyw effeithiau andwyol arwyddocaol posibl ar gyfanrwydd Safle Cynefin Gwarchodedig, neu'n lliniaru'r effeithiau hyn yn ddigonol. Caiff Erthygl 6(2) ac Erthygl 6(3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd eu cymharu yn Nhabl 2-2, lle amlygir eu priod rolau o ran amddiffyn safleoedd yn barhaus ac asesu unrhyw gynlluniau neu brosiectau newydd, ac yng nghyswllt niwtraliaeth maethynnau.

Tabl 2-2 Cymharu Erthygl 6(2) ac Erthygl 6(3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd

Nodwedd	Erthygl 6(2)	Erthygl 6(3)
Ffocws:	Atal dirywiad/aflonyddwch i safle dynodedig mewn perthynas â gweithgarwch parhaus.	Asesu cynlluniau/prosiectau newydd a allai effeithio ar safle dynodedig.
Yn berthnasol i:	Gweithgareddau presennol o fewn dalgylch y safle dynodedig sydd eisoes yn peri risg i'r safle. Mae'n ddyletswydd ragweithiol barhaus ar Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu rôl o fod yn Gyrrff Cymwys; nid yw'n berthnasol ar adeg benodol.	Datblygiadau arfaethedig (nad ydynt yn weithredol eto) o fewn dalgylch safle dynodedig. Mae'n ddarpariaeth adweithiol sy'n berthnasol ar adeg benodol pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid caniatáu i gydsyniad gael ei roi ar gyfer prosiect a allai fod yn niweidiol.
Dyletswydd gyfreithiol:	Cymryd "camau priodol" i atal dirywiad cynefinoedd gwarchodedig ac aflonyddwch sylweddol i rywogaethau mewn safleoedd dynodedig.	Cynnal HRA cyn cymeradwyo i ddangos bod effeithiau andwyol a allai fod yn arwyddocaol ar gyfanrwydd Safle Cynefin Gwarchodedig naill ai'n cael eu hosgoi neu eu lliniaru'n ddigonol.
Canlyniad:	Gwarchodaeth barhaus o'r safle dynodedig.	Cydsyniad ar yr amod na fydd yna unrhyw effeithiau andwyol ar y safle dynodedig.
Enghraifft:	Mae Adolygiad diweddar CNC o Gydsyniadau yn cefnogi gostyngiad mewn allyriadau maethynnau o GTDGau presennol.	Gwaredu hen Gyfleuster Trin Parod (PTP) sy'n perfformio'n wael, a rhoi model newydd, mwy datblygedig ac sy'n perfformio'n well yn ei le, sy'n lleihau allyriadau maethynnau, ar yr amod bod pob ffactor arall yn aros yr un fath.

2.4.2 Proses yr HRA

O dan Erthygl 6(3), rhaid i Awdurdodau Cymwys gynnal Asesiad Priodol lle bo cynllun neu brosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Cynefin Gwarchodedig, ac ni chânt roi cydsyniad oni bai eu bod yn fodlon na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle. Ni ellir hepgor na gwanedu'r gofynion cyfreithiol hyn, ac mae'r baich o ddangos dim effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle yn un i'r datblygwr. Os ystyrir na fydd datblygiad yn debygol o gael effaith arwyddocaol, yna gall y prosiect gael ei sgrinio allan ac ni fydd unrhyw asesiad pellach yn ofynnol. Amlinellir y dull pedwar cam o fynd i'r afael ag HRA yn Ffigur 2-3. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau mewn perthynas â chynnal HRA yng Nghymru i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru²⁸ ac yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru²⁹. Gall datblygwyr adolygu hyn i helpu i ddeall y broses ond bydd yr HRA yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod Cymwys.



Ffigur 2-3 Amlinelliad o'r dull pedwar cam o ymdrin ag HRA (addaswyd o Ganllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu mewn ACA)

Yn rhan o asesiad HRA, mae'r cysyniad o 'sicrwydd gwyddonol rhesymol' o'r pwys mwyaf. Dim ond os yw'r Awdurdod Cymwys yn argyhoeddedig, y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol, na fydd yna unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y Safle Cynefin, y gall awdurdodi prosiect. Mae hyn yn wahanol i 'sicrwydd absoliwt' nad yw fel arfer yn gyraeddadwy mewn gwyddoniaeth. Gellir cyflawni sicrwydd digonol ar gyfer Asesiad Priodol trwy gymhwyso gwerthoedd rhagofalus yn drwyadl i ddata a barn arbenigol, ar yr amod bod y casgliadau cyffredinol yn dangos, gyda lefel uchel o hyder, na fydd yna unrhyw effeithiau andwyol.

2.4.3 Lliniaru o gymharu ag adfer

Ni ddylai mesurau lliniaru a gynigir gan ddatblygwyr ar gyfer cynlluniau a phrosiectau newydd o dan Erthygl 6(3) gynnwys cyflawni mesurau y nodwyd eisoes eu bod yn fesurau adfer (o dan Erthygl 6(2))³⁰, ac sy'n gysylltiedig â mecanwaith cyflawni priodol sy'n bod yn barod. Ar ben hynny, ni ddylent rwystro cyflawni mesurau adfer gofynnol yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai y bydd eithriadau yn y dyfodol fel y trafodir isod lle gellid mabwysiadu 'dull

²⁸ Llywodraeth Cymru (2025). Canllawiau asesiad rheoliadau cynefinoedd (HRA). [Ar-lein] Ar gael yma: [Canllawiau asesiad rheoliadau cynefinoedd \(HRA\) | LLYW.CYMRU](#)

²⁹ Llywodraeth Cymru (2020). Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) [Ar-lein] Ar gael yma: [llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf](#)

³⁰ Mae mesurau adfer Erthygl 6(2) yng ngorllewin Cymru yn cynnwys camau gweithredu cyffredinol o fewn Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026, megis y gofyniad i 10% o dir fferm gael ei reoli fel cynefin lled-naturiol—gan adfer gallu'r dirwedd i dynnu nitrogen.

integredig'. Mae hwn yn ddull sy'n dod i'r amlwg y dylid ei adolygu'n barhaus wrth iddo gael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn⁹ (er eu bod yn ymwneud ag ACAau afonol yn hytrach nag ACAau morol) yn nodi bod "cyflawni'r gwaith adfer yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gael ei gyflawni gan gyrrff cyhoeddus a chronfeydd. Bydd targedau cyflawni a'r cynnydd a wneir felly yn cael eu cyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael. Lle mae camau priodol yn cael eu cymryd i gyflawni'r targedau amcan cadwraeth, mae'r angen am liniaru o ddatblygiad newydd yn codi i gydhabod y risg y gallai cyflwyno datblygiad beryglu'r gwaith o gyflawni adfer. O dan ddull integredig, mae effeithiolrwydd y lliniaru arfaethedig yn cael ei werthuso yn erbyn yr amodau sylfaenol sy'n gwella yn unol â'r targedau cyflawni cyfredol a'r graddau y mae oedi i'r gwaith o gyflawni targedau adfer wedi'i osgoi. Gall lliniaru integredig gynnwys mesurau hollol newydd ond gellir integreiddio'r lliniaru yn agosach â'r gwaith o gyflawni adfer lle mae cyfraniadau datblygwyr yn:

- cynyddu graddfa, maint neu gwmpas mesurau adfer arfaethedig (y tu hwnt i'r hyn a fyddai fel arall wedi cael ei gyflawni); neu
- cyflymu'r broses o gyflawni mesurau adfer wedi'u cynllunio y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei gyflawni fel arfer, lle mae perygl o ddirywiad ecolegol ystyrlon yn y cyfamser o dan amserlenni gweithredu presennol".

Roedd y dull gweithredu hwn yn seiliedig ar adolygiad Llywodraeth Cymru o bolisi drafft DEFRA mewn perthynas â'r cysyniad o ychwanegedd wrth nodi mesurau cydadferol ar gyfer ffermydd gwynt alltraeth yn Lloegr, ac ystyrir ei fod yn arfer da i'w gymhwyso yng Nghymru.

Ar adeg cyhoeddi'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn (Mawrth 2026), mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu dull integredig mewn perthynas â safleoedd ACA forol, lle gallai datblygwyr ariannu mesurau adfer i gyflymu'r broses o gyflawni'r datblygiad. Cyngorior datblygwyr i gyfeirio'n aml at wefan Llywodraeth Cymru, gwefan CNC a gwefan yr ACLI i gael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r dull hwn fynd rhagddo. Bydd fersiynau o'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr yn y dyfodol yn cwmpasu canllawiau newydd wrth iddynt ddod ar gael.

2.5 Y dull gweithredu a'r canllawiau cyfredol yng Nghymru

2.5.1 Y Canllawiau Cenedlaethol Cyfredol

Mae CNC wedi cyhoeddi cyngor cynllunio sy'n nodi bod HRA priodol yn ofynnol ar gyfer cynigion sy'n cynnwys llwybrau dŵr gwastraff neu ddŵr wyneb i safleoedd ACA sy'n sensitif i faethynnau, a bod angen osgoi neu liniaru llwyth maethynnau ychwanegol i fodloni'r prawf 'dim effaith andwyol ar gyfanrwydd' yn y cam Asesiad Priodol (h.y. asesiad o'r prosiect o gymharu â'r amcanion cadwraeth i bennu a fyddai cyfanrwydd y safle'n cael ei niweidio⁵).

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer Ceisiadau Cynllunio sy'n Effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n Sensitif i Faethynnau](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfrifiannell maethynnau Cymru Gyfan fel offeryn i helpu datblygwyr i bennu'r gyllideb maethynnau ar gyfer datblygiad, ac i asesu a lliniaru unrhyw effeithiau posibl⁵.

[Cyfrifiannell cyllideb maethynnau | LLYW.CYMRU.](#)

2.5.2 Cyfrifo cyllideb maethynnau a mesurau lliniaru

Ym mis Mehefin 2025 yn wreiddiol, cafodd methodoleg cyfrifo, gan gynnwys ar gyfer nitrogen, ei datblygu gan Lywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y fethodoleg a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn 2022. Mae'r fethodoleg hon bellach yn cael ei gweithredu trwy gyfrifiannell maethynnau newydd Cymru Gyfan³¹, a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2025, sy'n darparu offeryn safonedig, rhad ac am ddim ar gyfer asesu effaith maethynnau cynigion datblygu ledled Cymru. Mae'n berthnasol i ddatblygiadau o fewn dalgylchoedd ACAau perthnasol, y rheiny sy'n cynyddu gollyngiadau i weithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n draenio i ACAau perthnasol, neu'r rheiny sy'n cynyddu arosiadau dros nos neu niferoedd ymwelwyr o'r tu allan i'r dalgylch ACAau, fel y

³¹ Cyfrifiannell Cymru Gyfan – Cyngor Sir Caerfyrddin (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/cynllunio/rheoli-maetholion-mewn-cynllunio-a-datblygu/cyfrifiannell-cymru/> (Cyrchwyd: 8 Ionawr 2026).

trafodwyd ynghynt. Argymhellir bod datblygwyr yn defnyddio'r gyfrifiannell newydd, Cyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan, yn sail ar gyfer pennu a fydd datblygiad yn cynhyrchu gormodedd o DIN.

Yn gyson â'r safbwynt rhagofalus sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfraith achosion yr HRA, rhaid i fesurau lliniaru fod 'yn bendant, yn gyraeddadwy ac yn orfodadwy', gan sicrhau na fydd yna unrhyw faich maethynnau ychwanegol ar amgylcheddau sydd eisoes mewn perygl. Felly, pan nodir gormodedd o faethynnau (h.y. nid oes yna niwtraliaeth maethynnau) a lle na ellir dibynnu ar 'hyblygrwydd' adfer Erthygl 6(2) i osgoi unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol, yna mae'n ofynnol sicrhau mesurau lliniaru priodol. Mae 'hyblygrwydd' adfer erthygl 6(2) yn cyfeirio at y capasiti lleihau gormodedd o faethynnau a grëir pan fydd CNC neu gyrff eraill yn cymryd camau i adfer yr ACAau morol i gyflwr ffafriol. Dylid sicrhau nad yw'r defnydd o unrhyw 'hyblygrwydd' o'r fath yn arwain at ddirywiad o ran statws corff dŵr.

Mae'n rhaid i fesurau lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau fod:

1. **Yn ddigon cadarn** i ofalu bod y gostyngiad a fwriedir ar gyfer DIN yn gyraeddadwy gyda sicrwydd gwyddonol rhesymol, a **bod yna dystiolaeth o hynny**.
2. **O fewn yr un dalgylch** â'r safle dynodedig perthnasol, ac nad ydynt yn arwain at unrhyw niwed i'r ACA.
3. **Wedi'u sicrhau** gan yr ymgeisydd trwy fecanweithiau cynllunio neu gyfreithiol priodol.
4. **Ar waith** neu'n weithredol cyn i'r datblygiad gael ei feddiannu.
5. **Yn destun gwaith cynnal a chadw addas** gydol oes y datblygiad. Yng Nghymru, rhaid i **fesurau lliniaru ar gyfer niwtraliaeth maethynnau gael eu sicrhau'n gyfreithiol ar gyfer oes gyfan y datblygiad**³², a ddiffinnir yn aml fel 'am byth'.

2.6 Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Llywodraeth Cymru

Mae Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru yn offeryn cefnogi penderfyniadau a ddyluniwyd i ddarparu dull cyson, seiliedig ar dystiolaeth a ddefnyddir gan ddatblygwyr pan fyddant yn asesu goblygiadau posibl datblygiadau newydd o ran maethynnau mewn perthynas â chyrff dŵr dynodedig yng Nghymru. Mae'r gyfrifiannell yn galluogi awdurdodau cynllunio a datblygwyr i feintio'r llwythi nitrogen a ffosfforws disgwylidig a fydd yn deillio o ddatblygiadau preswyl neu fasnachol arfaethedig, ac i werthuso a allai'r llwythi hyn gyfrannu at effeithiau andwyol ar safleoedd sy'n sensitif i faethynnau. Mae'r gyfrifiannell a'r canllawiau ar gael yma:

[Cyfrifiannell cyllideb maethynnau | LLYW.CYMRU](#).

Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o'r Gyfrifiannell Maethynnau sy'n caniatáu i'r llwyth nitrogen gael ei bennu yn nalgylchoedd SAC Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd ac ACA Sir Benfro Forol.

Mae'r cyfrifiannellau maethynnau wedi'u cynllunio i fod yn sail ragofalus ar gyfer meintio'r llwythi nitrogen ardal o dir sy'n destun newid defnydd tir a newid yn y boblogaeth. Ar ôl pennu pa un a fydd yna ormodedd neu ddiffyg maethynnau, gellir nodi hyd a lled unrhyw fesurau lliniaru gofynnol.

Mae'r offeryn yn cynnwys y prif 'gamau' canlynol:

1: Llwyth Maethynnau Ychwanegol o Ddŵr Gwastraff – Yn nodi'r llwythi nitrogen ychwanegol (a/neu'r llwythi ffosfforws, yn dibynnu ar y safle dan sylw) o ganlyniad i newidiadau yn y boblogaeth a'r dull o reoli dŵr gwastraff (e.e. cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff (GTDG), Cyfleuster Trin Parod (PTP), ac ati pwrpasol).

2: Y Llwyth Nitrogen o'r Gorchuddion Tir sydd Eisoes yn Bod – Yn cyfrifo'r llwythi nitrogen (a/neu'r llwythi ffosfforws, yn dibynnu ar y safle dan sylw) o'r defnydd tir presennol. Mae gan dir amaethyddol llwythi maethynnau sy'n ystyried y glawiad a'r math o bridd lleol.

3: Y Llwyth Nitrogen o'r Gorchuddion Tir Newydd – Yn cyfrifo'r llwythi nitrogen (a/neu'r llwythi ffosfforws, yn dibynnu ar y safle dan sylw) o ddefnydd tir newydd. Caiff cyllideb nitrogen y defnydd tir ei bennu'n awtomatig yn y gyfrifiannell wedyn trwy dynnu'r defnydd tir presennol o'r defnydd tir arfaethedig.

³² Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (2018) C-293/17 ac C-294/17 Ar gael yma: <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:62017CA0293>

3S: Gwaredu'r Llwyth Maethynnau trwy Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) – Yn pennu unrhyw ostyngiad yn y llwyth maethynnau sy'n berthnasol i unrhyw SuDS sydd i gael eu cynnwys yn nyluniad y datblygiad arfaethedig; a

4: Cyfrifiad Terfynol y Gyllideb Maethynnau – Yn cyfrifo cyfanswm y newid i'r llwyth nitrogen (a/neu ffosfforws) o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig (swm llwyth y boblogaeth ychwanegol a llwyth y defnydd tir, plws byffer rhagofalus o 20%).

Pan na ddibynnir ar SuDS ar gyfer mesurau lliniaru maethynnau Erthygl 6(3) ac ar yr amod bod y datblygiad yn cydymffurfio o ran Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), gall y datblygwr gymryd yn ganiataol nad yw gollyngiadau dŵr wyneb o'r safle datblygu (sy'n deillio o Gamau 2, 3 a 3S uchod) wedi'u halogi â dŵr brwnt neu lygryddion gwasgaredig (h.y. yn niwtral o ran maethynnau). Yn yr amgylchiadau hyn, gall y datblygwr bennu llwyth maethynnau'r datblygiad **o ddŵr gwastraff yn unig gan ddefnyddio Cam 1 a 4**. Mae CNC yn amlinellu hyn fel a ganlyn yn eu canllawiau⁵:

Mae rhagdybiaeth ar gyfer pob datblygiad bod dŵr glaw yn cael ei gadw ar wahân i ddŵr gwastraff budr a'i ollwng yn unol â chanllawiau cynllunio ar waredu dŵr glaw. Felly, ni ddylid halogi gollyngiadau dŵr wyneb newydd â dŵr budr neu lygryddion. At ddibenion cyfrifiadau cydbwysedd maetholion, ni fyddai angen ystyried gollyngiadau dŵr wyneb fel ffynhonnell o faetholion. Fodd bynnag, gellir eu hystyried, er enghraifft, wrth ystyried y manteision posibl y gellid eu cyflawni trwy ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy fel rhan o gynnyg datblygu.

Rhaid ailadrodd, os yw'r datblygwr yn dewis cymryd yn ganiataol bod dŵr wyneb yn niwtral o dan SAB, yna ni ellir defnyddio SuDS i waredu nitrogen ychwanegol ar gyfer mesurau lliniaru Erthygl 6(3). Fel arall, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hawlio budd o newid defnydd tir a/neu SuDS i ddefnydd sydd â llwythi is o DIN, neu os yw'n dymuno dibynnu ar liniaru maethynnau gan SuDS, yna rhaid cymryd pob un o'r Camau uchod (1-4 yn gynhwysol).

Ar ôl pennu'r gyllideb maethynnau derfynol yng Ngham 4, **pe byddai gormodedd o faethynnau yn cael eu nodi (h.y. unrhyw llwyth sy'n fwy na 0 kg o nitrogen y flwyddyn), yna bydd mesurau lliniaru yn ofynnol i gyflawni niwtraliaeth maethynnau.**

Mae dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru³³ yn cyd-fynd â'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau a grëwyd ar gyfer Cymru ac yn darparu cyfarwyddiadau cam wrth gam ar sut i gwblhau cyllideb maethynnau gan ddefnyddio'r gyfrifiannell. Mae'r gyfrifiannell ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd. Mae'n ymgorffori ystod o newidynnau mewnbyn, gan gynnwys y dŵr gwastraff a gynhyrchir, y gorchudd tir, perfformiad gweithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n bod yn barod, tybiaethau o ran y boblogaeth, y gyfradd feddiannu, a threfniadau ar gyfer draenio dŵr wyneb.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gyfrifo llwyth maethynnau datblygiad newydd trwy ddefnyddio Cyfrifiannell Llywodraeth Cymru, cyfeiriwch at ddogfen ganllaw Llywodraeth Cymru.

2.6.1 Mesurau Lliniaru: Gollyngiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol i ACA

Mae cyngor CNC yn gwahaniaethu rhwng gollyngiadau uniongyrchol i ACA forol (e.e. gollyngfa GTDG o fewn ffin ACA), a gollyngiadau i fyny'r afon o fewn y dalgylch sy'n llifo i'r ACA yn anuniongyrchol yn y pen draw.

Yn achos datblygiadau y mae eu dŵr gwastraff wedi'i gysylltu â GTDG sy'n gollwng yn uniongyrchol i mewn i ACA forol, mae CNC yn cynghori y bydd angen i'r mesurau lliniaru gael eu rhoi ar waith cyn y llwybr llygredd o'r lleoliad lle bydd mewnbyn dŵr ffo a dŵr gwastraff safle'r datblygiad yn cael effaith uniongyrchol ar y safle. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod angen i'r mesurau lliniaru leihau'r llwyth wrth neu cyn lleoliad yr ollyngfa. Yn yr achos hwn, mae mesurau defnydd tir neu amaethyddol gwasgaredig mewn mannau eraill yn y dalgylch yn gyffredinol yn lleihau llwyth cefndir yn hytrach na rhyng-gipio'r llwyth penodol sy'n deillio o ddatblygiad. Mae hyn yn creu baich tystiolaethol uwch o dan Erthygl 6(3) ar gyfer mesurau lliniaru o ran gollyngfeydd uniongyrchol i ACA (e.e. GTDG Llanelli a GTDG Tre-gŵyr).

Os yw'r gollyngiad yn anuniongyrchol (h.y. i fyny'r llif yn nalgylch ACA forol), yna gall y mesurau lliniaru fod i fyny'r llif neu i lawr y llif yn y dalgylch cyhyd ag y byddant yn darparu'r mesurau gwrthbwysu cyn y pwynt lle mae'r datblygiad yn effeithio ar yr ACA forol. Felly, mae mwy o hyblygrwydd o ran opsiynau lliniaru, a gall mesurau i leihau llwyth DIN gwasgaredig trwy fesurau lliniaru amaethyddol neu ddefnydd tir fod yn briodol yn yr achos hwn.

³³ Cyfrifiannell cyllideb maethynnau: canllawiau (2025). [Ar-lein] Ar gael yma: [Canllawiau Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau](#)

2.6.2 Datrysiadau Lliniaru ar raddfa strategol

Mae datrysiadau lliniaru ar raddfa strategol, megis gwlyptiroedd mawr, ar waith ac wrthi'n cael eu datblygu mewn rhai dalgylchoedd niwtral o ran maethynnau ledled Lloegr (e.e. gan amrywiol ACLlau a Natural England) gan leihau'r llwyth nitrogen lle roedd gan ollyngiadau blaenorol lwythi uwch a galluogi datblygwyr i brynu credydau maethynnau i wrthbwysu gwaith datblygu. Fodd bynnag, nid oes datrysiadau strategol ar waith eto ar gyfer ardaloedd nifer o ACLlau, gan gynnwys y rhai yng Nghymru. Mae Gweithgor Technegol wedi'i sefydlu yng Nghymru (ym mis Tachwedd 2025) i geisio datblygu cynlluniau masnachu maethynnau. Ar hyn o bryd, mae'r Gweithgor Technegol yn ymchwilio i safleoedd peilot, ac fel y cyfryw bydd hi'n beth amser hyd nes y bydd unrhyw ddatrysiad strategol o'r fath ar waith. Felly, mae mesurau lliniaru dan arweiniad y datblygwr yn ofynnol ar hyn o bryd, a hynny naill ar y safle neu oddi ar y safle, i sicrhau bod datblygiad newydd yn niwtral o ran allyriadau DIN mewn dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff sy'n cael ei gyfeirio i gyrff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol ac Aberdaugleddau Mewnol.

2.6.3 Datrysiadau Lliniaru dan Arweiniad y Datblygwr

Yn absenoldeb datrysiadau lliniaru ar raddfa strategol a system lle codir am gredydau maethynnau, bydd mesurau lliniaru dan arweiniad y datblygwr yn ofynnol i sicrhau y gellir gofalu bod datblygiadau yn y dyfodol sydd â gormodedd o DIN hysbys yn niwtral o ran maethynnau. Mae dull lliniaru cyffredin yn cynnwys newid y defnydd tir yn rhan o'r safle datblygu neu mewn lleoliad oddi ar y safle sydd hefyd dan reolaeth y datblygwr. Er enghraifft, newid y defnydd tir o dir amaethyddol i goetir neu fan gwyrdd i leihau swm y maethynnau a allforir; fodd bynnag, mewn rhai achosion gall hyn fod yn anymarferol ar gyfer datblygiadau ar raddfa lai. Mae dulliau eraill yn cynnwys y defnydd o PTPau (lle nad oes cysylltiad â'r brif garthffos ar gael), yn arbennig lle maent yn gollwng i'r ddaear. Er nad yw PTPau yn dileu'r DIN, gallant gyflawni dull trin elfion uwch ei safon na systemau tanciau carthion confensiynol, gan felly leihau'r llwyth nitrogen yn y tarddle. O'i gynllunio a'i leoli'n briodol, gall y gostyngiad hwn gyfrannu at gyflawni niwtraliaeth maethynnau ar gyfer datblygiad. Mae creu gwlyptiroedd a'r defnydd o SuDS i annog y broses o waredu maethynnau o ddŵr wyneb ffo hefyd yn ddulliau lliniaru a gymhwysir yn gyffredin i ddatblygiadau mwy. Caiff dulliau lliniaru eu harchwilio'n fanylach yn Adran 5.

3. Rolau a Chyfrifoldebau

Isod, amlinellir rolau a chyfrifoldebau sefydliadau sy'n ymwneud â'r broses niwtraliaeth maethynnau ledled Cymru:

3.1 Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y polisi, y rheoliadau a'r fframwaith statudol trosfwaol yng Nghymru³⁴. Rôl Llywodraeth Cymru yn achos niwtraliaeth maethynnau yw gosod y polisi cenedlaethol a'r fframwaith rheoliadol sy'n amddiffyn afonydd a safleoedd morol sensitif rhag llygredd maethynnau, darparu'r offer technegol a'r canllawiau a ddefnyddir i asesu a lliniaru effeithiau datblygiadau, a chefnogi datrysiadau ehangach ar raddfa'r dalgylch trwy gyllid a chynllunio strategol^{35, 36}. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio ochr yn ochr ag CNC ac Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd Safleoedd Cynefinoedd, gan hefyd alluogi dulliau lliniaru ymarferol, cyson ledled Cymru.

Cyswllt Cyffredinol: cymorth@llyw.cymru

3.2 Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae CNC, sef yr Awdurdod Cymwys mewn perthynas â chydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd 2017, yn darparu canllawiau a chynghor technegol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ar gyfer ceisiadau cynllunio a wneir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). Mae cynghor CNC yn seiliedig ar egwyddorion niwtraliaeth maethynnau ac wedi'i deilwra i anghenion penodol pob ACA. Mae canllawiau CNC yn hanfodol i awdurdodau cynllunio bennu a fydd datblygiad arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar ACA ac i sicrhau bod gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu bodloni cyn i gydsyniad gael ei roi. Yn ei rôl o fod yn Gorff Cadwraeth Natur Priodol (ANCB), rhaid ymgynghori ag CNC at ddibenion yr Asesiad Priodol. Bydd CNC yn cynghori ar oblygiadau datblygiadau ar gyfer amcanion cadwraeth safle dynodedig, ond nid ar faterion y tu hwnt i'w gyfrifoldebau fel ANCB.

Mae canllawiau CNC yn glir ar gyfer datblygiadau arfaethedig newydd mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i faethynnau (fel y disgrifir yn Adran 2.2), sef os nad oes unrhyw egwyddorion sgrinio yn berthnasol i ddatblygiad, yna rhaid dangos casgliad nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle, naill ai drwy niwtraliaeth maethynnau (gan sicrhau mesurau lliniaru am oes y datblygiad) neu ddulliau addas eraill (i'w hystyried fesul achos). Gall CNC chwarae rôl hanfodol mewn dulliau eraill o'r fath, lle mae'r rhain yn dibynnu ar gynllunio neu gyflawni gwaith adfer. Dylid nodi hefyd bod CNC yn Awdurdod Cymwys ar gyfer trwyddedu ansawdd dŵr, sy'n berthnasol i gyflawni datblygiadau a dulliau lliniaru niwtraliaeth maethynnau lle mae angen gollyngiadau newydd neu wedi'u haddasu i'r amgylchedd dŵr.

Cyswllt Cyffredinol: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Tîm Cynllunio Rhanbarthol: De-orllewin Cymru - swplanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Canolbarth Cymru - midplanning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

3.3 Awdurdod Cynllunio Lleol

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru yn chwarae rôl hanfodol yn y broses niwtraliaeth maethynnau trwy fod yn Awdurdodau Cymwys sy'n gyfrifol am gynnal yr HRA. Rhaid iddynt bennu a fydd Safle Cynefin dynodedig yn cael ei niweidio gan gynnig datblygu, a sicrhau bod y datblygiad yn profi niwtraliaeth maethynnau i fodloni gofynion yr HRA. Fel y cyfryw, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno Datganiad Niwtraliaeth maethynnau i'r ACLI, a dylai'r rhain gynnwys tystiolaeth ddigon cadarn, ynghyd â sicrwydd digonol (h.y. y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol), y bydd y datblygiad yn arwain at niwtraliaeth neu ostyngiad o ran y maethynnau yn y cyrrf dŵr yr effeithir arnynt. Dylai ACLlau ystyried cynghor CNC, ond cyfrifoldeb yr Awdurdod Cymwys yw sicrhau bod gofynion Rheoliadau Cynefinoedd 2017¹ yn cael eu bodloni cyn rhoi cydsyniad. I'r diben hwn, dylai'r

³⁴ Llywodraeth Cymru (2021). *Ein rôl ni*. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/ein-rol-ni>

³⁵ Llywodraeth Cymru (2023). *Lleihau Pwysau ar Ddalgylchoedd Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) i Helpu i Gyflenwi Tai Fforddiadwy: cynllun gweithredu* [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/leihau-pwysau-ar-ddalgylchoedd-afonydd-ardal-cadwraeth-arbennig-sac-i-helpu-i-gyflenwi-tai.html?utm_source

³⁶ Llywodraeth Cymru (2025). *Datganiad Polisi Cynllunio Interim ar Ddatblygiad mewn Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a nodyn atgoffa am Gyfyngiadau ar Hawliau Datblygu a Ganiateir mewn afonydd ACA* [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2025-08/datganiad-polisi-cynllunio-interim-ar-ddatblygiad-mewn-afonydd-ardaloedd%20-cadwraeth-arbennig-aca.pdf>

ACLIau eu hunain ofyn am gyngor annibynnol lle bo angen. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, rhaid i'r ACLI ymgynghori ag CNC yn achos pob Asesiad Priodol.

Mae'r ACLI hefyd yn chwarae rôl hanfodol o ran mesurau adfer Erthygl 6(2), ac olrhain unrhyw hyblygrwydd datblygu y mae'r mesurau yn eu galluogi, neu y gallai'r mesurau eu galluogi trwy eu hehangu.

Ar gyfer cyfeiriadau cyswllt cyn cyflwyno cais yn yr amrywiol ACLIau cyfeiriwch at Adran 4.1.

3.4 Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru

Mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn rheoli gwaith achos sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd³⁷. PEDW yw'r corff arbenigol ar gyfer apeliadau cynllunio ac amgylcheddol yng Nghymru a rhaid iddynt sicrhau bod cynigion datblygu yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd 2017. Mae PEDW yn gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys wrth benderfynu ar apeliadau cynllunio neu geisiadau a alwyd i mewn. Ar gyfer apeliadau sy'n ymwneud â datblygiadau sydd ag effeithiau DIN posibl ar ACA forol, rhaid i PEDW gynnal HRA i benderfynu a fydd prosiect yn cael effaith arwyddocaol debygol ar ACA forol. Mae PEDW yn dibynnu ar CNC fel y corff cadwraeth natur statudol i ddarparu tystiolaeth ar gyflwr ACAau morol ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru arfaethedig. Mae hefyd yn rhan o gylch gwaith PEDW i gynnal archwiliadau annibynnol o gynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol, ac i brosesu, archwilio a chaniatáu prosiectau seilwaith ar raddfa fawr yng Nghymru.

Cyswllt cyffredinol: pedw.gwaithachos@llyw.cymru

3.5 Byrddau Rheoli Maethynnau

Sefydlwyd Byrddau Rheoli Maethynnau (NMB) afonydd Tywi, Teifi a Chleddau ledled Gorllewin Cymru mewn ymateb i fethiannau o ran ffosforws mewn afonydd ACA, a hynny i ddarparu fforwm cydlynol, ar raddfa'r dalgylch, ar gyfer deall pwysau maethynnau a chefnogi'r gwaith o adfer afonydd. Mae'r Byrddau'n gweithredu ar lefel strategol ac yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth a blaenoriaethu a chydlyn camau gweithredu hirdymor i wella ansawdd y dŵr, camau sy'n cynnwys datrysiadau seiliedig ar natur. Eu rôl yw cefnogi cynllunio strategol ar raddfa'r dalgylch. Nid oes ganddynt bwerau rheoleiddiol na gorfodi, ac nid ydynt yn cyfeirio penderfyniadau mewn perthynas â datblygiadau, yn hytrach maent yn cefnogi dealltwriaeth strategol ac yn llywio'r gwaith o gynllunio polisi, buddsoddiad a dalgylchoedd yn yr hirdymor.

3.6 Y Datblygwr

Mae datblygwyr yn gyfrifol am asesu eu cynigion a dangos eu bod yn niwtral o ran maethynnau (yn achos y datblygiadau hynny mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i faethynnau, fel y disgrifir yn Adran 2.2) neu fel arall yn dderbyniol trwy ystyried mesurau lliniaru eraill.

Mae [Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cymru Gyfan](#) ar gael i gefnogi asesiadau niwtraliaeth maethynnau. Rhaid i ddatblygwyr ddylunio eu prosiectau i osgoi neu liniaru effeithiau maethynnau am oes yr effeithiau. Gallai hyn fod trwy fesurau lliniaru ar y safle neu oddi ar y safle (neu gyfuniad o'r ddau) fel bo'r datblygiad yn cyflawni niwtraliaeth maethynnau. Rhaid i ddatblygwyr ddarparu gwybodaeth ddigon cadarn i'r ACLI, gweithio gydag arbenigwyr perthnasol lle bo angen, a gofalu bod unrhyw fesurau lliniaru y maent yn dibynnu arnynt wedi'u sicrhau, yn gyraeddadwy, ac yn cael eu cynnal yn yr hirdymor.

³⁷ Llywodraeth Cymru (2021). Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru: Beth rydym yn ei wneud [Ar-lein] Ar gael yma: [Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru | LLYW.CYMRU](#)

4. Cyflawni niwtraliaeth DIN

4.1 Cyngor cyn cyflwyno cais

Mae'r llawlyfr hwn yn darparu canllawiau cyffredinol yn unig. Anogir ymgeiswyr am ddatblygiad mewn dalgylchoedd cyrff dŵr yr effeithir arnynt i gysylltu â'r ACLI cyn cyflwyno unrhyw gais, a hynny er mwyn cael gwybod pa wybodaeth y byddai'n ofynnol ei chyflwyno'n rhan o'r cais, i ddangos na fyddai effaith andwyol ar gyfanrwydd y Safle Cynefin. Cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno, bydd yr ACLI yn gallu cynnig cyngor cyn cyflwyno cais i dywys datblygwyr trwy'r broses. Gallai hyn leihau oedi'n ddiweddarach wrth brosesu'r cais. Gall trafodaethau cyn cyflwyno cais hefyd helpu'r datblygwr a'r ACLI i nodi unrhyw feysydd pryder fel bo ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiwygio'r cynnig cyn i'r cais gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r cyngor na'r canllawiau a ddarperir yn y cam cyn cyflwyno cais yn gwarantu y bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi i'r cynnig. At hynny, ni all y cyngor a ddarperir ddim ond rhoi sylwadau ar yr wybodaeth a gyflwynir. Felly, anogir datblygwyr i ddarparu cymaint o fanylder â phosibl yn y cam cyn cyflwyno cais. Mae manylion cyswllt cyn cyflwyno cais ar gyfer yr awdurdod lleol perthnasol i'w gweld ar y gwefannau canlynol (Tabl 4-1):

Tabl 4-1 Tudalennau gwe cyn cyflwyno cais perthnasol ar gyfer y dalgylchoedd yr effeithir arnynt

Awdurdod Cynllunio	Tudalen gwe â chyngor cyn cyflwyno cais
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	https://bannau.cymru/cynllunio/ceisiadau/
Cyngor Sir Caerfyrddin	https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/ymestyn-newid-eich-cartref/gwasanaeth-cyngor-cyn-ymgeisio/
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	https://www.npt.gov.uk/cy/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/ceisiadau-cynllunio/ymholiadau-cyn-gwneud-cais/
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	https://www.arfordirpenfro.cymru/cynllunio/cyngor-cynllunio/cyngor-cyn-gwneud-cais/
Cyngor Sir Penfro	https://www.sir-benfro.gov.uk/ceisiadau-cynllunio/cyngor-cyn-cyflwyno-cais
Cyngor Abertawe	https://www.abertawe.gov.uk/cynghoricyncyflwynocais

4.2 Proseses cam wrth gam i ddatblygwyr

Mae'r broses niwtraliaeth maethynnau fel arfer yn golygu cadarnhau gyntaf a yw safle wedi'i leoli mewn dalgylch yr effeithir arno gan ofynion DIN, sef dalgylch corff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol neu ddalgylch corff dŵr Aberdaugleddau Mewnol (gweler Adran 2.2). Lle mae gollyngiad o safle datblygu, neu'r GTDG sy'n gwasanaethu safle datblygu arfaethedig, yn y dalgylchoedd hyn, rhaid cyfrifo effaith maethynnau'r datblygiad arfaethedig i ganfod a fyddai'n arwain at gynnydd yn y llwyth maethynnau. Os na nodir unrhyw gynnydd, gall yr asesiad gael ei gyflwyno i gefnogi'r cais cynllunio; lle rhagwelir cynnydd, bydd mesurau lliniaru priodol yn ofynnol i wrthbwysu'r cynnydd yn y DIN a gynhyrchir. Crynhoir y broses yn Ffigur 4-1, a cheir manylion ategol yn Nhabl 4-2.

Tabl 4-2 Manylion ategol ar gyfer y broses o gyflawni niwtraliaeth DIN

Cam	Manylion Ategol
Cam 1: A yw safle'r datblygiad neu'r ollyngfa o'r GTDG a fydd yn cymryd y dŵr brwnt wedi'i leoli mewn dalgyllch niwtral o ran maethynnau DIN?	Gall datblygwyr wirio a yw datblygiad arfaethedig (neu ollyngfa'r GTDG y bydd dŵr brwnt yn draenio iddo) wedi'i leoli mewn dalgyllch niwtral o ran maethynnau trwy wirio'r ddolen ganlynol: Dalgyllchoedd Dŵr Croyw ACA Morol Sydd Angen Niwtraliaeth Nitrogen MapDataCymru. Os yw'r datblygiad yn y dalgyllch niwtral o ran maethynnau DIN, ewch i Gam 2. Os nad yw'r datblygiad mewn dalgyllch niwtral o ran maethynnau DIN, ac os nad yw'n cysylltu â GTDG y mae ei ollyngfa o fewn y dalgyllch, yna nid yw gofynion niwtraliaeth maethynnau yn berthnasol. Gellir sgrinio'r datblygiad allan o broses yr HRA o ran effaith arwyddocaol debygol DIN ar ACA forol (er y gall effeithiau arwyddocaol tebygol posibl eraill fod yn berthnasol o hyd). Gellir symud ymlaen â'r broses gynllunio heb gynnal asesiad niwtraliaeth maethynnau. Dylid nodi y bydd pennu a fydd angen asesiad maethynnau ac unrhyw fesurau lliniaru yn dibynnu ar HRA yr Awdurdod Cymwys, gan ystyried lleoliad y cynnig, llwybrau effaith perthnasol a'r cyngor a'r dystiolaeth orau sydd ar gael gan CNC.
Cam 2: A yw cyngor CNC yn awgrymu y gall y datblygiad gael ei sgrinio allan o ofynion niwtraliaeth maethynnau?	Dylai datblygwyr ystyried cyngor CNC yn y ddolen ganlynol i bennu a fydd unrhyw feini prawf sgrinio yn berthnasol: Cyfoeth Naturiol Cymru/Cyngor i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer Ceisiadau Cynllunio sy'n Effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n Sensitif i Faethynnau. Er enghraifft, mae yna feini prawf lle gall cynnig preswyl gael ei sgrinio allan os bydd y gollyngiadau'n mynd i'r ddaear trwy gyfleuster trin parod (PTP) ac os yw meini prawf priodol yn cael eu bodloni. Byddai hyn yn berthnasol os yw'r llif elifion yn <2m³/dydd, yn cael ei ollwng trwy faes draenio addas, ac yn cael ei adeiladu yn unol â'r meini prawf a nodir yng nghyngor CNC. Yn yr amgylchiadau hyn, ystyrir ei bod yn annhebygol bod yna lwybr i'r maethynnau fynd i mewn i'r amgylchedd aberol a chael effaith arwyddocaol ar yr ACA, ac felly gellir sgrinio allan niwtraliaeth maethynnau. Os na ellir sgrinio'r datblygiad allan, bydd cyfrifiad o'r gyllideb maethynnau yn ofynnol. Ewch i Gam 3. Os gellir sgrinio'r datblygiad allan, yna nid yw niwtraliaeth maethynnau yn ofynnol (gellir symud ymlaen â'r broses gynllunio heb gynnal asesiad niwtraliaeth maethynnau).
Cam 3: Amcangyfrif y newid yn y maethynnau gweddillol yn achos y datblygiad arfaethedig	Rhaid i ddatblygwyr ddefnyddio tystiolaeth briodol i ddangos na fydd eu cynnig yn arwain at gynydd yn y DIN sy'n mynd i mewn i gyrff dŵr Cilfach Tywyn Fewnol ac Aberdaugleddau Mewnol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cyfrifiannell Cymru Gyfan fel offeryn i gynorthwyo datblygwyr gyda'r broses hon (Cyfrifiannell cyllideb maethynnau LLYW.CYMRU). Mae'r paramedrau mewnbynnu i gyfrifo'r gyllideb maethynnau yn cynnwys y canlynol: • Manylion y datblygiad, megis lleoliad y safle, dalgyllch yr ACA, y math o ddatblygiad, nifer yr anheddau, ac arwynebedd y safle. • Tybiaethau o ran draenio a dŵr gwastraff: llwybr draenio dŵr brwnt, gwaith trin dŵr gwastraff sy'n gwasanaethu'r safle, ac unrhyw dybiaethau o ran meddiannaeth safonol a ddefnyddir gan y gyfrifiannell. • Gwybodaeth am ddŵr wyneb, gan gynnwys: manylion am y dalgyllch (glawiad, y math o ddraenio pridd), y defnydd(iau) tir presennol, a'r defnydd(iau) tir arfaethedig. Noder pan na ddibynnir ar SuDS ar gyfer mesurau lliniaru maethynnau Erthygl 6(3) ac ar yr amod bod y datblygiad yn cydymffurfio o ran SAB, gall y datblygwr gymryd yn ganiataol bod y gollyngiadau dŵr wyneb o'r safle datblygu yn niwtral o ran maethynnau (gweler Adran 2.6 i gael rhagor o fanylion). • Lle bo canlyniad cyfrifiad y gyllideb maethynnau yn nodi nad oes yna ormodedd o DIN (h.y. 0 kgN/bl), yna ni fydd asesiadau pellach na

chamau lliniaru yn ofynnol. Dylid cyflwyno tystiolaeth o gyfrifiad y gyllideb maethynnau yn y cais cynllunio.

- Lle bo'r canlyniad yn nodi y bydd y datblygiad yn arwain at gynydd yn y DIN i ddalgylch yr ACA (h.y. >0 kgN/bl), bydd asesiadau pellach yn ofynnol, a bydd yn rhaid nodi mesurau lliniaru addas.³⁸ Ewch i Gam 4.

Cam 4: A oes yna opsiynau lliniaru dan arweiniad y datblygwr ar gael i gyflawni niwtraliaeth maethynnau?

Darperir rhagor o fanylion ar opsiynau lliniaru posibl yn Adran 5 o'r Llawlyfr Lliniaru i Ddatblygwyr hwn ac yn Atodiad A.

Dylai'r mesurau lliniaru a fabwysiedir gael eu sicrhau am oes y datblygiad a rhaid iddynt ddangos gostyngiad mesuradwy a dibynadwy yn y DIN i'r corff dŵr yr effeithir arno. Dylid ategu hyn â thystiolaeth a chyfeirio at gyngor CNC ar arfer gorau. Rhaid i'r canlyniadau fod yn ddigon sicr (h.y. sicrwydd gwyddonol rhesymol, fel yr amlinellir yn Adran 2.4.1).

Os na fydd yna opsiynau o ran lliniaru, er bod hynny'n annhebygol, gall y datblygwr ddewis ystyried a ellir defnyddio **dull rhanddirymu**. Fodd bynnag, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y disgwylir hyn. Dylid nodi nad yw hyn, yn benodol, yn fater i'r Awdurdod Cymwys ei gynnig na darparu tystiolaeth ei fod yn briodol.

Os yw'r datblygwr yn dymuno mynd ar drywydd rhanddirymu am na all gyflawni niwtraliaeth maethynnau DIN, yna nodir y ddarpariaeth o ran rhanddirymu yn erthyglau 64 a 68 o'r Rheoliadau Cynefinoedd¹. Dylid nodi mai'n anaml iawn y cymhwysir y dull hwn, a bod cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn ofynnol. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon (Mawrth 2026), nid yw'r dull rhanddirymu wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau yng Ngorllewin Cymru.

Mae Erthygl 64 yn nodi, lle nad yw'n bosibl dod i'r casgliad 'na fydd yna unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle' yn sgil datblygiad arfaethedig, a lle bo Awdurdod Cymwys yn ystyried cymhwyso darpariaethau rhanddirymu, rhaid i'r Awdurdod hwnnw:

- Ei fodloni ei hun nad oes yna ddatrysiadau amgen i'r cynllun neu'r prosiect sy'n ddarostyngedig i asesiad.
- Gwneud penderfyniad ynghylch a oes rhaid cyflawni'r cynllun neu'r prosiect am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig (yn ddarostyngedig i feini prawf penodol).
- Ei fodloni ei hun y gall yr awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru yn achos Cymru) sicrhau'r mesurau cydbwysu sy'n ymorol bod 'cydlynid cyffredinol y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu'.

Cam 5: A oes yna opsiynau lliniaru dan arweiniad y datblygwr ar y safle ar gael i gyflawni niwtraliaeth maethynnau?

Dylai datblygwyr ystyried lleoliad unrhyw fesurau lliniaru mewn perthynas â lle y bydd y datblygiad yn cael effaith ar yr ACA, a hynny i sicrhau ei fod yn osgoi unrhyw gynydd yn y maethynnau o fewn y safle dynodedig. Mae CNC yn diweddarau ei ganllawiau ar hyn, ond yn gyffredinol **dylai mesurau, lle bo hynny'n bosibl, fod o fewn safle'r datblygiad**. Lle na chyflawnir hyn, ni ddylai fod yna unrhyw niwed i'r ACA berthnasol o hyd (neu is-ardal ACA):

- Yn achos datblygiadau y mae eu dŵr gwastraff wedi'i gysylltu â GTDG sy'n gollwng yn uniongyrchol i mewn i ACA forol, bydd yn rhaid i'r mesurau lliniaru fod cyn y llwybr llygredd o'r lleoliad lle bydd mewnbyn dŵr ffo a dŵr gwastraff safle'r datblygiad yn cael effaith uniongyrchol ar y safle.
- Os yw'r gollyngiad yn anuniongyrchol (h.y. i fyny'r llif yn nalgylch ACA forol), yna gall y mesurau lliniaru fod i fyny'r llif neu i lawr y llif yn y dalgylch os byddant yn darparu'r mesurau gwrthbwysu cyn y pwynt lle mae'r datblygiad yn effeithio ar yr ACA forol.

³⁸ Ar hyn o bryd (Mawrth 2026) nid oes yna drothwy a bennwyd mewn modd empirig ar gael i ystyried a all mewnbynnau nitrogen dyfrol ychwanegol o ddatblygiad i'r safleoedd dynodedig fod yn *de minimis* (h.y. ni fyddant yn cael effaith arwyddocaol ar y safle). Fel y cyfryw, mae mesurau lliniaru yn ofynnol ar gyfer unrhyw gyllideb nitrogen sy'n fwy na 0 kgN/bl. Serch hynny, dylid parhau i adolygu'r potensial i gymhwyso'r dull seiliedig ar drothwy rhag ofn y caiff trothwyon isaf eu diffinio ar gyfer DIN yn y dyfodol. Ewch i dudalennau gwe yr ACLI i weld unrhyw ganllawiau a allai gael eu cyflwyno.

Cam 6: Ymgynghori â'r ACLI i gytuno ar gyfrifiadau cyllideb ar gyfer niwtraliaeth maethynnau, a'r dull lliniaru, ac i sicrhau mesurau lliniaru ar gyfer oes y datblygiad.

Mae manylion cyswllt cyn cyflwyno cais yr awdurdod lleol perthnasol i'w gweld yn Adran 4.1 o'r ddogfen hon.

Rhaid i ddatblygwyr baratoi a chyflwyno dogfennau ategol cadarn yn rhan o'r cais cynllunio i ddarparu tystiolaeth o'r mesurau lliniaru gofynnol, a'r modd y cânt eu darparu, eu sicrhau a'u cynnal a'u cadw ar gyfer oes y datblygiad, neu'r effaith ar y datblygiad fel y bo'n briodol.

Rhaid i unrhyw fesurau lliniaru gael eu sicrhau trwy'r amodau cynllunio a/neu'r mecanweithiau cyfreithiol priodol (e.e. Adran 106) a'u gweithredu cyn y bydd yna unrhyw effeithiau o ran maethynnau, a dylai fod yna drefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfedd hirdymor.

Dylid ymgysylltu â'r awdurdod cynllunio a, lle bo angen, CNC gydol y broses, ond argymhellir hynny'n benodol pan fydd datrysiad lliniaru wedi cael ei lunio ond cyn i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno.

Cam 7: Cyflwyno'r cais cynllunio gyda'r Asesiad Lliniaru Maethynnau ategol

Dylai Asesiad Niwtraliaeth Maethynnau diamod a Strategaeth Lliniaru gael eu cyflwyno gyda'r cais cynllunio, a dylent amlinellu'r gyllideb maethynnau ar gyfer y datblygiad, ynghyd â dull lliniaru â sicrwydd digonol; rhaid iddynt hefyd fod yn gyfreithiol-sicr am byth ar gyfer oes y datblygiad. **Ewch i Atodiad B: Fframwaith cyffredinol ar gyfer Cynigion o ran Opsiynau Lliniaru** i weld manylion yr hyn o fyddai'n ofynnol gan yr ACLI yn achos cyflwyniad o'r fath.

Os na nodir unrhyw gamau lliniaru cyfreithlon, yna ni ellir rhoi caniatâd cynllunio.

5. Datrysiadau lliniaru posibl

5.1 Trosolwg o'r mesurau lliniaru

Lle bo safle wedi'i leoli mewn dalgylch sy'n gofyn am niwtraliaeth maethynnau ac mae'r cyfrifiad o'r gyllideb maethynnau ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn rhag-weld cynnydd yn y DIN, bydd mesurau lliniaru priodol yn ofynnol.

Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon (Mawrth 2026) yng Nghymru, nid oes system credyd maethynnau safonedig yn bod ar gyfer datblygu yn y dalgylchoedd ACA forol sy'n gofyn am niwtraliaeth maethynnau DIN. Felly, rhaid i bob mesur lliniaru a gynigir gael ei arwain gan y datblygwr, a rhaid ei asesu yn ôl ei rinweddau ei hun o dan Reoliadau Cynefinoedd 2017

Yn dilyn adolygiad o'r opsiynau lliniaru sydd ar gael ac y gellir eu mabwysiadu i leihau DIN, mae rhestr hir o opsiynau wedi'i nodi a'i chyflwyno yn Nhabl 5-1 er ystyriaeth datblygwyr. Mae'r rhestr hir wedi ystyried Dewislen Lliniaru CNC⁸ yn ogystal â nifer o ganllawiau lliniaru a gyhoeddwyd gan ACLlau yn amodol ar faterion DIN.

Mae Tabl 5-1 yn cynnwys graddfa Coch, Oren, Gwyrdd (RAG) ar gyfer yr **hyder presennol** yn y datrysiad a'i **addasrwydd** i **gyflawni mesurau lliniaru DIN**.

Mewn perthynas â **hyder**:

- **Coch** = Hyder Isel = mae'r dull lliniaru yn gymhleth i ddatblygwyr unigol ei gyflawni a/neu yn anodd ei sicrhau am byth. Mae'n annhebygol y gallai'r datblygwr fodloni'r meini prawf o ran sicrwydd digonol heb amser a chostau sylweddol i ddatblygu'r datrysiad ar y cyd â nifer o bartneriaid;
- **Oren** = Hyder Canolig = mae yna gynsail i'r dull lliniaru a gall sicrhau buddion o ran maethynnau, ond mae iddo gymhlethdodau sy'n ei gwneud yn feichus i'r datblygwr ddangos sicrwydd digonol (e.e. o ran trefniadau monitro neu sicrwydd cyfreithiol); a
- **Gwyrdd** = Hyder Uchel = mae'r dull lliniaru yn cael ei dderbyn yn gyffredinol o ran buddion maethynnau os yw'r dyluniad a'r dull gweithredu'n briodol, ac ystyrir ei fod ar ben llai beichus y sbectrwm o ran ei sicrhau am byth gyda sicrwydd digonol.

Mewn perthynas ag **addasrwydd**:

- **Coch** = Addasrwydd Isel = ni ystyrir bod y dull yn addas ar gyfer datblygwr unigol yn y cam hwn, ac mae'n fwy addas ar raddfa strategol.
- **Oren** = Addasrwydd Canolig = gallai'r dull fod yn addas ar gyfer datblygwr unigol ond bydd buddsoddiad sylweddol yn ofynnol i brofi gostyngiad yn y maethynnau ac i gynnal hyn am byth.
- **Gwyrdd** = Addasrwydd Uchel = ystyrir bod y dull yn addas ar gyfer datblygwyr unigol a bod ganddo botensial da i gyflawni a chynnig sicrwydd am byth.

Ni chaiff y rheiny sydd â sgoriau Coch ac Oren, o reidrwydd, eu hatal rhag cael eu defnyddio i gyflawni niwtraliaeth, ac felly gallent fod yn addas, ond mae'n debygol y bydd yn ofynnol cael llawer mwy o dystiolaeth i roi sicrwydd digonol (h.y. y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol) y byddai'n bosibl cyflawni'r gostyngiadau a nodir o ran maethynnau am byth. Felly, yn gyffredinol, maent yn opsiynau a argymhellir yn llai aml.

Darperir disgrifiad llawn o bob datrysiad lliniaru sydd ar y rhestr hir ac sy'n cael ei ystyried yn addas, ynghyd â thrafodaeth ar ystyriaethau ychwanegol, yn Atodiad A. Yr ystyriaethau hyn sydd wedi llywio'r sgoriau RAG yn Nhabl 5-1.

Nod yr opsiynau lliniaru a restrir ac y manylir arnynt yn Atodiad A yw helpu datblygwyr i ddeall llwybrau posibl a gofynion tystiolaethol, yn hytrach na gwarantu derbynoldeb unrhyw fesur penodol, sy'n amodol ar gadarnhad fesul achos. At hynny, nid yw datblygwyr wedi'u cyfyngu i'r rhestr hon a gallant, o bosibl, ddiffinio dulliau amgen neu newydd i gyflawni mesurau lliniaru DIN. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r rhain hefyd ddarparu sicrwydd digonol o ran lleihau DIN am byth, a byddent yn ddarostyngedig i gytundeb yr ACLl perthnasol. Mae angen i'r mesurau lliniaru sicrhau bod y caniatâd a'r gofynion rheoliadol cywir ar waith.

Tabl 5-1 Rhestr hir o opsiynau i'w hystyried ar y raddfa datblygu

Opsion	Manylion	Hyder	Addasrwydd
Newid Defnydd Tir	Lle caiff un defnydd tir ei newid yn ddefnydd tir arall sy'n ymddangos fel petai'n allforio llai o DIN. Yn nodweddiadol, mae'r defnyddiau tir canlyniadol yn cynnwys: creu coetir, plannu perllan, rhoi'r gorau i ffermio amaethyddol neu amaeth-goedwigaeth (e.e. coed-borfeydd). Mae i'r dull hwn hirhoedledd uchel (gan dybio bod y newid defnydd tir wedi'i sicrhau am byth trwy gytundebau A106) a sicrwydd uchel os yw'n bosibl sicrhau trefniadau monitro i gadarnhau bod y defnydd tir newydd yn cael ei gynnal. I fod yn dderbyniol fel mesur lliniaru maethynnau (o dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd fel y'i gweithredir gan y Rheoliadau Cynefinoedd¹) dylai'r newid defnydd tir fod yn benodol i'r datblygiad arfaethedig, cael ei ariannu a'i sicrhau gan y datblygiad, a pheidio â chael ei ystyried yn weithgarwch adferol ar raddfa ehangach ar gyfer yr ACA, a fyddai'n fesur Erthygl 6(2) ac yn annerbyniol ar gyfer lliniaru DIN. Mae CNC hefyd yn cynghori y gallai fod angen ystyried y posibilrwydd o ddadleoli gweithgareddau cynhyrchu maethynnau cyfreithlon i safle gwahanol, yn hytrach na bod yn destun cyfnewid uniongyrchol, ar sail dalgylch. Er enghraifft, gellir newid tir amaethyddol i goetir at ddibenion lleihau maethynnau, ond pe bai coed yn cael eu cwympo wedyn mewn mannau eraill i ailsefydlu'r tir amaethyddol a gollwyd, yna ni fyddai hyn yn briodol.	Uchel	Uchel
SuDS trefol	Mae SuDS yn ceisio lleihau cyfaint a chyflymder dŵr ffo sy'n ymuno â chyrsiau dŵr, a thrwy hynny leihau perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr. Maent yn cyflawni hyn trwy arafu llifoedd, hybu gwaddodiad, ac annog ymdreiddiad, gan ganiatáu i ddŵr glaw drylifo i mewn i'r ddaear yn agos i'r man lle mae'n disgyn. Mae hyn yn cynnwys basnau a phyllau dŵr, lleiniau hidlo a phantiau, gwlyptiroedd adeiledig, suddfannau, basnau ymdreiddio, ardaloedd graeanog, a phafin athraidd. Mae yna dystiolaeth sylweddol am fuddion dulliau SuDs penodol mewn perthynas â nitrogen, os cânt eu gweithredu'n gywir, ac mae'n ddull addas ar y safle i ddatblygwyr leihau nitrogen yn y dŵr wyneb ffo oddi ar eu safle. Sylwer, os yw datblygwyr yn dymuno hawlio budd maethynnau SuDS yna mae angen iddynt gwblhau pob cam o'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau, gan gynnwys newid defnydd tir (cyfeiriwch at Adran 2.6 am fanylion pellach).	Uchel	Uchel
SuDS gwledig	Mae hyn yn cynnwys gwlyptiroedd adeiledig, fel y crybwyllir uchod (h.y. wedi'u hadeiladu i drin dŵr wyneb nid elifion dŵr gwastraff), ond hefyd fesurau megis trapiau gwaddod tirol, rhwystro ffosydd draenio, a phlannu coed. Mae yna dystiolaeth sylweddol am fuddion dulliau SuDs penodol mewn perthynas â nitrogen, os cânt eu gweithredu'n gywir, ac mae'n ddull addas ar y safle i ddatblygwyr leihau nitrogen yn y dŵr wyneb ffo oddi ar eu safle. Sylwer, os yw datblygwyr yn dymuno hawlio budd maethynnau SuDs yna mae angen iddynt gwblhau pob cam o'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau, gan gynnwys newid defnydd tir (cyfeiriwch at Adran 2.6 am fanylion pellach).	Uchel	Uchel
Uwchraddio Tanciau Carthion/PTP	Mae amnewid tanciau carthion neu gyfleusterau trin parod (PTP) henffasiwn am fodelau sy'n perfformio'n well yn lleihau'r DIN yn yr elfion o'r datblygiad. Gellir cymhwyso'r mesur hwn hefyd i eiddo presennol ychwanegol er mwyn creu gwarged o DIN. Fodd bynnag, mae'n rhaid ei gadarnhau yn gyntaf nad yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r brif garthffos, yn unol â Chylchlythyr (008/2018) Llywodraeth Cymru ar Systemau Draenio nad ydynt yn Gysylltiedig â'r Prif Rwydwaith. Gall data profi gwneuthurwyr ar gyfer pob cynnyrch lywio'r lefelau gostwng DIN y gellir eu cyflawni. Serch hynny, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos y bydd y PTP yn ddarostyngedig i berchnogaeth a chyfrifoldeb cyfreithiol-sicr, a fydd yn	Uchel	Uchel

Opsiwn	Manylion	Hyder	Addasrwydd
	gwneud yn siŵr bod y dull gweithredu, y dull cynnal a chadw, a chydymffurfedd wedi'u diffinio. Gellir sicrhau hynny trwy amodau cynllunio, cytundebau cyfreithiol, neu ddulliau rhwymo eraill fel y bo'n briodol. Mae meini prawf hefyd lle gall cynnig preswyl gael ei sgrinio allan o Asesiad Priodol os bydd PTP yn gollwng i'r ddaear ac os yw meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Byddai hyn yn berthnasol os yw'r llif elifion yn <2m³/dydd, yn cael ei ollwng trwy faes draenio addas, ac yn cael ei adeiladu yn unol â'r meini prawf a nodir yng nghyngor CNC. Yn yr amgylchiadau hyn, ystyrir ei bod yn annhebygol bod yna lwybr i'r maethynnau fynd i mewn i'r amgylchedd aberol a chael effaith arwyddocaol ar yr ACA, ac felly gellir sgrinio allan niwtraliaeth maethynnau.		
Gwlyptiroedd Trin	Mae hyn yn cynnwys gwlyptiroedd wyneb dŵr rhydd (lifoedd wyneb), gwlyptiroedd llif llorweddol dan yr wyneb, gwlyptiroedd llif fertigol, gwlyptiroedd llif fertigol Ffrengig, gwlyptiroedd arnawf, a gwlyptiroedd hybrid. Mae gwaredu nitrogen o wlyptiroedd yn broses bioddaeareg megol i raddau helaeth, sy'n cynnwys gweithgarwch microbaidd a chymeriant gan blanhigion yn ystod y tymor tyfu. Gall swm y maethynnau a waredir o wlyptir trin fod yn sylweddol, ond mae'n ddibynol ar ddyluniad priodol. Oherwydd cymhlethdod nodweddu lifoedd a llwythi yn gywir, mae monitro ôl-weithredol yn hanfodol. Gall gymryd mwy nag un i dair blynedd i ddangos potensial llawn gwlyptiroedd o ran gwaredu maethynnau, a hynny am fod y perfformiad yn sefydlogi dros amser. Yn gyffredinol, maent yn fwy addas i'w gweithredu ar raddfa fwy strategol, ond gallant fod yn opsiynau addas ar gyfer datblygwyr unigol mewn rhai amgylchiadau.	Uchel	Canolig
Gwlyptiroedd Eraill	Gwlyptiroedd eraill nad ystyrir eu bod yn wlyptiroedd adeiledig neu drin, ond yn hytrach yn ddulliau creu cynefin megis gwlyptiroedd mewn dyfrffosydd, pyllau dŵr, ac ailgysylltu â gorlifdir. Er y gall y gwlyptiroedd hyn gyfrannu at niwtraliaeth maethynnau, mae'r diffyg rheolaeth ar fewnllifiad y dŵr a'r ansicrwydd ynghylch y prosesau gwaredu maethynnau yn cyfyngu ar eu haddasrwydd ar gyfer cyfrifiadau ffurfiol o ran niwtraliaeth maethynnau.	Isel	Canolig
Mesurau Effeithlonrwydd Dŵr mewn Datblygiad	Mae mesurau effeithlonrwydd dŵr yn dibynnu ar effeithlonrwydd cynyddol yn nefnydd aelwydydd (neu ddatblygiadau eraill) o ddŵr i leihau cyfaint y dŵr gwastraff (llwythi DIN). Mae'r dulliau'n cynnwys cynaeafu dŵr glaw, ailgylchu dŵr llwyd, ac ôl-ffitio ffitiadau ac offer sy'n defnyddio llai o ddŵr. Gall datblygwr ddefnyddio hyn o fewn ei safle neu o fewn eiddo oddi ar y safle er mwyn creu 'hyblygrwydd' o ran maethynnau. Mae data profi cynnyrch gwneuthurwr (e.e. ar ddyfeisiau rheoli llif) yn darparu syniad clir o'r gostyngiadau y gellir eu cyflawni mewn perthynas â chyfaint dŵr. I roi sicrwydd digonol, bydd yr Awdurdod Cymwys yn gofyn am dystiolaeth bod Cynllun Cynnal a Chadw a Monitro wedi'i sicrhau, ac y bydd yn parhau ar waith trwy gytundeb cyfreithiol pan gaiff unrhyw eiddo yr effeithir arno ei werthu. Mae'n bosib y bydd gofyn cyflwyno data yn rheolaidd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddangos y lefelau dŵr o'r mesurydd a thystiolaeth o wirio peiriannau i ddangos bod perfformiad y ffitiadau effeithlonrwydd dŵr yn cyrraedd y safon ofynnol er mwyn cyflawni'r gostyngiadau a nodwyd mewn maethynnau.	Canolig	Uchel
Credydau Maethynnau	Prynu credydau maethynnau o gynlluniau lliniaru strategol i wrthbwysu'r llygredd maethynnau a grëir gan y datblygiad. Byddai yna hyder uchel yn y dull hwn, ond ar yr adeg cyhoeddi (Mawrth 2026), nid oes yr un cynllun strategol o'r fath ar waith yng Nghymru nac yn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt ac a gwmpesir yn y llawlyfr hwn.	Uchel	Isel

Opsiwn

Manylion

		Hyder	Addasrwydd
Systemau Helyg	Mae systemau helyg yn fasnau gwlyptir, lle mae coed helyg drechaf, sy'n sicrhau anwedd-drydarthiad 100% i'r aer yn yr haf a storfa lawn yn y gaeaf. Fe'u cynlluniwyd i drin a rhyddhau'r holl ddŵr sy'n llifo i mewn trwy anwedd-drydarthiad; o ganlyniad nid oes yna ollyngfa o'r system ac felly nid oes llwybr i'r safle dynodedig. O dybio dyluniad a gwaith gweithredu cywir, mae yna hyder yn y mesurau lliniaru DIN sy'n gysylltiedig â'r dull hwn. Fodd bynnag, mae gwaith monitro a chynnal a chadw sylweddol (e.e. cynaeafu'r biomas yn rheolaidd) yn ofynnol.	Canolig	Uchel
Rheoli ffiniau caeau	Atebion seiliedig ar natur yw ymyriadau rheoli ffiniau caeau, sy'n lleihau'r maethynnau a gollir o dir amaethyddol heb fod angen creu strwythurau artiffisial. Maent yn cynnwys lleiniau clustogi ar lannau afonydd, ailsefydlu perthi, a lleiniau clustogi mewn caeau. Mae angen deall y llwyth maethynnau sylfaenol yn yr amgylchedd derbyn cyn rhoi lleiniau clustogi ar waith ar lannau afonydd er mwyn darparu'r gwerth llwytho y gellir cymhwyso'r canrannau effeithlonrwydd gwaredu maethynnau iddynt i ddangos y buddion o ran maethynnau. Gellir cyflawni hyn trwy fonitro neu fodelu cynlluniau penodol, ond gall fod yn dasg sylweddol i'w chyflawni, sydd felly'n lleihau ei haddasrwydd.	Canolig	Canolig
Gwell Rheolaeth ar Ffosydd Draenio	Dull sy'n cyfuno trawstoriad sianel dau gam â choredau iselradd a llystyfiant ar ysgafellau mewnosodedig y gorlifdir. Nod cyfuno'r dulliau hyn mewn un sianel yw cynyddu'r amser preswyl hydrologig yn y rhwydwaith draenio, gan hybu cyfres o brosesau naturiol sy'n lleihau swm y maethynnau a gludir ymlaen. O dybio dyluniad a gwaith gweithredu cywir, mae yna hyder yn y mesurau lliniaru DIN sy'n gysylltiedig â'r dull hwn. Fodd bynnag, mae yna ofynion sylweddol o ran cynnal a chadw a monitro i sicrhau bod y dyluniad gwreiddiol yn cael ei gynnal (e.e. gall fod yn ofynnol gwaredu gwaddod yn achlysurol).	Canolig	Canolig
Mesurau Rheoli Amaethyddol	Mae mesurau rheoli amaethyddol, a gyflawnir o bosibl yn rhan o strategaeth lliniaru DIN, yn cynnwys optimeiddio'r defnydd o wrtaith, gwella prosesau rheoli cynyddu a phridd, rheoli da byw a thail yn fwy effeithiol, a defnyddio lleiniau clustogi neu nodweddion tirlunio i atal nitrogen rhag cyrraedd dyfrffyrdd neu i arafu'r gyfradd trwytholchi. Gall fod yn anodd dangos maint unrhyw fuddion yn glir, yn enwedig yn achos mesurau sy'n targedu ffynonellau nitrogen gwasgaredig. Gall hefyd fod yn anodd mesur a monitro unrhyw fuddion yn uniongyrchol, a gall fod yna gyfnod cwsig hefyd. Gall pwysau allanol o ran yr economi, polisi a rheoli ffermydd hefyd effeithio ar y cyflawniad hirdymor, ac mae yna botensial o ddadleoliad neu ollyngiad os caiff gostyngiadau eu gwrthbwyso yn rhywle arall. Felly mae'r opsiynau lliniaru hyn yn llai addas na rhai eraill oherwydd lefel yr ymdrech a'r gwaith monitro sy'n ofynnol i ddarparu sicrwydd digonol. Fel yn achos newid defnydd tir, i fod yn fesur lliniaru derbyniol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd, dylai'r mesurau arfaethedig fod yn benodol i'r datblygiad arfaethedig (a dylent gael eu hariannu a'u sicrhau gan y datblygiad).	Isel	Canolig
Adfer Afonydd	Ailgyflwyno prosesau a ffurfiau sianeli naturiol (e.e. ystumiau, cysylltedd â gorlifdir, cyfres o byllau crychdonnau, a gwaredu nodweddion artiffisial) i wella gwydnwch y dalgyllch, a hynny trwy fynd i'r afael â phrosesau hydrolegol, morffolegol, biolegol, a chemegol.³⁹	Isel	Isel

³⁹ What is River Restoration? (dim dyddiad) The River Restoration Centre. Ar gael yma: <https://www.therrc.co.uk/why-restore> (Cyrchwyd: 9 Ionawr 2026).

Opsiwn

Manylion

		Hyder	Addasrwydd
	Mae effeithiolrwydd y dulliau fel arfer yn dibynnu ar drefniadau rheoli a llywodraethu cydlynol ar raddfa tirlunio, sy'n golygu eu bod yn ymyriadau anymarferol i ddatblygwr eu harwain. Mae'r effeithlonrwydd hefyd braidd yn ansicr a byddai yna ofynion sylweddol o ran monitro.		
Rhwystro Ffosydd	Mae'r dull hwn yn golygu rhwystro ffosydd draenio, fel arfer mewn amgylcheddau amaethyddol, a hynny trwy greu argae anathraidd sy'n tarfu ar y llif ac yn codi'r lefel trwythiad. Gall hyn yn ei dro leihau'r DIN trwy well proses ddadnitreiddio gan fod amodau dwrlawn yn cynyddu cyflwr anaerobig y pridd.⁴⁰ Mae effeithiolrwydd y dulliau fel arfer yn dibynnu ar drefniadau rheoli a llywodraethu cydlynol ar raddfa tirlunio, sy'n golygu eu bod yn ymyriadau anymarferol i ddatblygwr eu harwain. Byddai yna ofynion sylweddol o ran monitro.	Isel	Isel
Tagfeydd wedi'u Trefnu	Adeiladweithiau o ddarnau mawr o bren a gweddillion organig a osodir mewn afonydd i ddynwared argaeau afancod, gan arafu'r llif a chreu pyllau. Mae'r amodau hyn yn hybu'r broses o waredu maethynnau trwy waddodiad a chymeriant gan llystyfiant. Er eu bod, o bosibl, yn effeithiol ar gyfer lliniaru yn y byrdymor, mae gofyn eu dylunio'n ofalus ac nid ydynt yn addas fel datrysiadau hirdymor.⁴⁰ Byddai monitro sylweddol hefyd yn ofynnol.	Isel	Isel
Adfer Mawndiroedd	Ar hyn o bryd, cefnogir y gwaith o adfer mawndiroedd yng Nghymru trwy grantiau ac o dan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, sy'n targedu canlyniadau'n ymwneud â charbon a maethynnau.⁴¹ Mae'r dull hwn yn gofyn am drefniadau rheoli a llywodraethu cydlynol ar raddfa tirlunio, sy'n golygu eu bod yn ymyriadau anymarferol i ddatblygwr eu harwain. Mae'r effeithlonrwydd hefyd braidd yn ansicr a byddai yna ofynion sylweddol o ran monitro.	Isel	Isel
Gwaredu dŵr wyneb o'r rhwydwaith carthffosydd cyfunol	Mae'r dull hwn yn golygu bod datblygiad yn gwaredu cyfaint hysbys o ddŵr wyneb ffo o rwydwaith carthffosydd cyfunol (e.e. trwy ei ailgyfeirio i SuDS). Yna, caiff y gostyngiad yn y cyfaint ei ddefnyddio i leihau'r llwyth nitrogen a gyfrifir o'r GTDG perthnasol. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y bydd yna berthynas uniongyrchol rhwng y llwyth nitrogen sy'n pasio trwy'r GTDG a'r dŵr a ddefnyddir gan ddatblygiad yn achos GTDG sydd â chydysyniad nitrogen ac sy'n gweithredu ar grynodiad y drwydded neu'n agos iddo (h.y. 90% o werthoedd y drwydded). Er enghraifft, yn achos GTDR â thrwydded ar gyfer 9 mg/l o nitrogen, gellir cyfrifo y medrai 8.1 mg o nitrogen gael ei ryddhau i mewn i'r amgylchedd dŵr am bob litr o ddŵr sy'n pasio trwy'r gwaith. Os caiff 150 litr ei ddefnyddio gan aelwyd, mae hyn yn cyfateb i 1,215 mg o nitrogen; os caiff y defnydd dŵr ei leihau i 100 litr, bydd hyn yn cyfateb i ryddhau 810 mg o'r nitrogen. Gan fod yna berthynas glir, mae'n bosibl cyfrifo effaith gwaredu dŵr o'r garthffos dŵr brwnt, a gellir ystyried hyn yn fesur lliniaru posibl mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'r egwyddor yn gweithio dim ond pa fo gan GTDG sy'n cymryd y dŵr derfyn trwydded ar gyfer nitrogen a'i fod yn gweithredu'n agos i'r terfyn hwnnw. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon (Mawrth 2026), nid oes gan yr un GTDG yng Ngorllewin Cymru drwydded nitrogen, felly ni ellir mabwysiadu'r dull hwn. Mae yna hefyd broblemau sylweddol yn gysylltiedig â meintio'r mesurau lliniaru pan fo	Isel	Isel

⁴⁰ Cyngor Sir Caerfyrddin, 2023. Adolygiad Technegol o Opsiynau Lliniaru Maethynnau. Arweiniad ar opsiynau lliniaru ffosfforws i'w ddefnyddio yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. <https://www.ceredigion.gov.uk/media/blq45fnf/opsiynau-lliniaru-maethynnau-adolygiad-technegol-g-cymru.pdf>

⁴¹ Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://naturalresourceswales.gov.uk/evidence-and-data/maps/the-national-peatland-action-programme/?lang=cy> (Cyrchwyd: 9 Ionawr 2026).

Opsiwn	Manylion	Hyder	Addasrwydd
	Systemau Gorlif Carthffosydd Cyfun (CSOs) yn gollwng ac yn colli nitrogen yn uniongyrchol i'r amgylchedd, a llawer iawn o ddata i'w casglu. Felly, byddai'r dull hwn yn anodd ei feintioi gyda sicrwydd hyd yn oed pe byddai yna GTDGau â thrwyddedau nitrogen.		

6. Enghreifftiau wedi'u gweithio

Gellir defnyddio Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cymru Gyfan ar gyfer DIN i wneud y canlynol:

- Amcangyfrif y llwyth nitrogen sy'n deillio o gynigion datblygu.
- Asesu a fyddai cynnig yn arwain at gynnydd net yn y llwyth maethynnau i ddalgylchoedd niwtral o ran maethynnau DIN.
- Profi a all mesurau lliniaru leihau'r llwyth a gyfrifwyd i lefel dderbyniol neu niwtral.

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno nifer o enghreifftiau wedi'u gweithio sy'n dangos y modd y gellir cymhwyso mesurau lliniaru i leihau lefelau'r maethynnau sy'n deillio o ddatblygiadau newydd. Caiff y mesurau lliniaru canlynol eu cyflwyno fel enghreifftiau wedi'u gweithio yn yr adran hon:

- Enghraifft A: SuDS
- Enghraifft B: Newid defnydd tir
- Enghraifft C: Uwchraddio Cyfleusterau Trin Parod
- Enghraifft D: Mesurau effeithlonrwydd dŵr
- Enghraifft E: Gwell rheolaeth ar ffosydd draenio.

I weld canllawiau llawnach ar sut i ddefnyddio [Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cymru Gyfan](#) cyfeiriwch at ganllawiau cyfrifiannell cyllideb maethynnau Llywodraeth Cymru ([Cyfrifiannell cyllideb maethynnau | LLYW.CYMRU](#)). Mae'r enghreifftiau wedi'u gweithio isod yn dangos y mewnbynnau angenrheidiol i'r gyfrifiannell ar gyfer pob enghraifft, ond nid bwriad yr adran hon yw atgynhyrchu manylion llawn canllawiau presennol y gyfrifiannell, sy'n cael eu diweddarau gan Lywodraeth Cymru yn ôl y gofyn.

6.1 Enghraifft A - Lliniaru trwy SuDS

Mae'r enghraifft wedi'i gweithio hon yn canolbwyntio ar achosion lle y dibynnir ar SuDS fel dull lliniaru.

6.1.1 Cam 1: Pennu'r llwyth maethynnau ychwanegol o ddŵr gwastraff

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Mewnbynnu nifer yr anheddau a'u math
- Cadarnhau llwybr draenio'r dŵr brwnt (y brif garthffos neu driniaeth breifat)
- Nodi'r gwaith trin dŵr gwastraff (GTDG) a fydd yn cymryd y dŵr gwastraff, lle bo hynny'n berthnasol

Enghraifft wedi'i gweithio (cyfeiriwch at Ffigur 6-1 a Ffigur 6-2 am arweiniad):

- Mewnbynnu'r datblygiad arfaethedig: 10 annedd breswyl a mewnbynnu'r cod post
- Mewnbynnu'r dalgylch a fydd yn cymryd y dŵr: ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd
- Mewnbynnu effeithlonrwydd y defnydd o ddŵr: Gwerth diodyn o 120 l/p/d
- Mewnbynnu'r GTDG: Dewiswyd gwaith trin carthion Carmel
- Bydd y meysydd eraill yn llenwi'n awtomatig
- Canlyniad: Llwyth nitrogen blynyddol o **27.22 kgTN/bl** wedi'i gyfrifo'n awtomatig (Ffigur 6-2). Ni all proses sgrinio HRA ddiystyru effeithiau arwyddocaol tebygol, felly mae cyfrifiadau pellach a mesurau lliniaru yn ofynnol.

3		
4	Wastewater load input data	
5	Description of required information	Data entry column - user inputs required
6	Special Area of Conservation (SAC):	Bae ac Aberoedd Caerfyrddin/ Carmarthen Bay and Estuaries
7	Postcode:	SA4 0UB
8	Local Planning Authority (LPA):	Carmarthenshire County Council
9	Rainfall:	1404
10	Project type:	Residential
11	Development proposal (number of additional units):	10
12	Not applicable	Carmarthenshire County Council
13	Default occupancy rate:	2.3
14	Is this default value being used?	Yes
15	Not applicable	
16	Water usage per resident (litres/person/day):	120
17	Not applicable	
18	Not applicable	
19	Not applicable	
20	Not applicable	
21	Wastewater treatment works:	Carmel STW
22	Not applicable	
23	Not applicable	
24	Phosphorus permitted limit (mg TP/l):	5.00
25	Nitrogen permitted limit (mg TN/l):	27.00
< > Instructions Stage 1 Stage 2 Stage 3 Stage 3S Stage 4 +		

Ffigur 6-1 Cam 1 o'r enghraifft lliniaru trwy SuDS (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbwn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynnwyd uchod yn ddangosol.

Final calculation of nutrient load from wastewater	
Description of values generated	Values generated
Additional population:	23.00
Annual wastewater production (litres):	1008090.00
Annual phosphorus load (kg TP/year):	5.04
Annual nitrogen load (kg TN/year):	27.22

Ffigur 6 2 Cam 1 (cyfrifiad terfynol y llwyth nitrogen o ddŵr gwastraff) o'r enghraifft lliniaru trwy SuDS (dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch).

6.1.2 Cam 2: Diffinio'r Llinell Sylfaen (Defnydd Tir Presennol)

Mae'r llinell sylfaen yn cynrychioli'r **amodau sy'n bod** ar y safle cyn y datblygiad. Mae'r llinell sylfaen yn hanfodol, oherwydd ar gyfer hawlio budd SuDS mae'r mesurau lliniaru yn cael eu hasesu yn erbyn y *newid net* yn y llwyth maethynnau o'r defnydd tir yn ogystal ag o ddŵr gwastraff.

Yn nodweddiadol, mae hyn yn cynnwys:

- Y defnydd tir presennol (e.e. amaethyddol, tir llwyd, mannau gwyrdd)
- Y gyfradd allforio nitrogen bresennol (wedi'i llenwi'n barod neu wedi'i dewis yn y gyfrifiannell)

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Nodi holl **ddefnydd(iau) tir presennol** y safle. Gall dadansoddiad GIS fod yn ofynnol i holi setiau data presennol am y defnydd tir (e.e. Map Gorchudd Tir CORINE y CEH⁴²). Mae'n rhaid i'r defnydd tir a nodir o'r dadansoddiad GIS gyd-fynd mor agos â phosibl â'r defnydd tir a fabwysiedir yn y gyfrifiannell cyllideb maethynnau, a dylid cymryd camau rhagofalus os oes yna unrhyw amheuaeth.
- Pennu **arwynebedd arwyneb** pob math o ddefnydd tir.
- Dewis **meini prawf draeniad y pridd** priodol o'r gwympfen. Ewch i wefan Soilscales i weld gwybodaeth am ddraeniad y pridd ([LandIS - Land Information System - Soilscales soil types viewer](#)).
- Mae'r glawiad yn poblogi'n awtomatig wrth fewnbynnu'r cod post yng Ngham 1.

Enghraifft wedi'i gweithio:

- Mewnbynnu'r defnydd tir presennol: Coetir
- Mewnbynnu arwynebedd y safle: 0.6 ha
- Mewnbynnu manylion draeniad y pridd: Draeniad wedi'i rwystro
- Bydd y gyfradd allforio maethynnau'n cael ei deillio'n awtomatig wedyn. Yn yr achos hwn, cynhyrchir 1.8 kg TN/bl gan goetir (Ffigur 6-3).

Awgrymiadau:

- Rhaid i'r llinell sylfaen adlewyrchu'r **defnydd cyfreithlon presennol**, nid senarios hanesyddol neu hapfasnachol. Os oes yna amheuaeth mewn perthynas â'r statws o ran defnydd cyfreithlon, gallai cais am Dystysgrif o Gyfreithlondeb y Defnydd Presennol neu'r Datblygiad fod yn briodol cyn belled â bod gan y datblygwr ddigon o dystiolaeth i gadarnhau'r defnydd.
- Bydd gorbwysleisio'r allforion sylfaenol i leihau'r gofynion lliniaru yn debygol o gael ei herio.

⁴² Canolfan Wybodaeth Data Amgylcheddol UK CEH, setiau data Map Gorchudd Tir CORINE ar gyfer y DU, Jersey a Guernsey. Ar gael yma: [CORINE Land Cover Map datasets for the UK, Jersey and Guernsey - EIDC](#)

Ffigur 6-3 Cam 2 o'r enghraifft lliniaru trwy SuDS (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbwn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynnyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- ### Enghraifft wedi'i gweithio:

- Awgrym:** Mae dŵr wyneb ffo yn aml yn ffurfio cyfran lai na dŵr gwastraff, ond gall fod yn berthnasol o hyd ac ni ddylid ei anwybyddu.

Ffigur 6-4 Cam 3 o'r enghraifft lliniaru trwy SuDS (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbwn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynnwyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

- Pennu pa gyfradd o arwynebedd y gorchudd tir a fydd yn cael ei gwasanaethu gan y SuDS arfaethedig a nodi hynny ym meysydd perthnasol y gyfrifiannell.
- Cymhwyso'r gyfradd gwaredu nitrogen a bennwyd ar gyfer y llinyn trin SuDS. Mae CIRIA C815 yn darparu rhagor o fanylion am waredu nitrogen mewn dŵr wyneb ffo⁴³.
- Ailgyfrifo'r cydbwysedd maethynnau.

- Yn yr enghraifft hon rydym yn tybio bod 40% o'r safle yn draenio trwy linyr triniaeth SuDS. Byddai dyfais ymdreiddio wedi'i leinio yn llinyn triniaeth enghreifftiol i gyflawni'r gostyngiad hwn mewn maethynnau, a fyddai wedyn yn gollwng i bwl arafu, ac mae hyn yn cyfateb i effeithlonrwydd trn o 30% (gweler CIRIA C815).
- Mewnbnw: Arwynebedd y safle, 40%; triniaeth nitrogen, 30%.
- Caiff y llwyth maethynnau arfaethedig o'r newid defnydd tir ei leihau'n awtomatig (yn yr achos hwn, gostyngiad o 1.88 kg TN/bl (Ffigur 6-6)).

- Rhaid i'r tybiaethau fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn amddiffynadwy.
- Gall CNC a'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) graffu'n fanwl ar effeithlonrwydd mesurau lliniaru.
- Dylai triniaeth SuDS gael ei dylunio a'i chynnal yn unol â CIRIA C753: Y Llawlyfr SuDS a CIRIA C815: *Using SuDS to reduce nitrogen in surface water runoff*.

Ffigur 6-6 Cam 3S o'r enghraifft lliniaru trwy SuDS (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbwn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynwyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

Casgliad: Mae Cam 4 o'r gyfrifiannell yn dangos cyllideb maethynnau derfynol o 47.08 kg TN/bl ar gyfer yr enghraifft wedi'i gweithio (Ffigur 6-7). Yn dilyn cymhwyso mesurau lliniaru SuDS, bydd yn dal i fod yn ofynnol gwaredu rhagor o faethynnau i gyflawni niwtraliaeth, ond mae graddfa gormodedd y maethynnau wedi gostwng. Enghraifft gwbl ddamcaniaethol yw hon, a gall llunio llynynnau triniaeth SuDS priodol helpu i gyflawni gostyngiadau sylweddol yn swm y maethynnau mewn rhai achosion.

29

1	Total nitrogen generated	
2	Description of nitrogen values generated	Values generated
3	Stage 1 nitrogen load (kg TN/year):	27.22
4	Stage 2 nitrogen reduction (kg TN/year):	1.80
5	Stage 3 nitrogen load (kg TN/year):	15.70
6	Stage 3S nitrogen load removed through SuDS (TN kg/year):	1.88
7	Nitrogen budget ((Stage 1 - Stage 2) + (Stage 3 - Stage 3S)):	39.24
8	Nitrogen budget + 20% buffer:	47.08 kg TN/year will be generated
9		
10	Calculator version 3.0 - December 2025	
11		

Figur 6-7 Cam 4 o'r enghraifft lliniaru trwy SuDS wedi'i lliniaru (dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch).

6.1.7 Sicrhau'r mesurau lliniaru ac adrodd amdanynt

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Bydd yn rhaid i'r datblygwr nodi allbynnau sylfaenol y gyllideb maethynnau, a'r allbynnau heb eu lliniaru ac wedi'u lliniaru, a hynny'n glir mewn Strategaeth Lliniaru i sicrhau Niwtraliaeth Maethynnau. Dylid esbonio sail pob tybiaeth, a dylid dangos bod yr egwyddor ragofalus wedi cael ei chymhwyso.
- Cadarnhau sut y bydd y mesurau lliniaru'n cael eu sicrhau (amodau neu gytundeb cyfreithiol). Bydd hyn yn cynnwys amlinellu cyfrifoldebau ar gyfer y SuDS a'r modd y cânt eu cynnal a'u cadw am byth. Noder bod SuDS yn orfodol yng Nghymru a'i bod yn ofynnol i bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un tŷ neu sydd ag arwynebedd adeiladu o 100m² neu fwy gael SuDS wedi'u mabwysiadu gan y SAB, oni chytunir fel arall. Felly, ymdrinnir â chytundebau o ran cynnal a chadw SuDS trwy broses gymeradwyo'r SAB. Ni chaiff y datblygiad ddechrau nes bod cymeradwyaeth SAB yn cael ei rhoi felly yn achos datrysiaid lliniaru SuDS yn unig ni fyddai angen unrhyw amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol ar wahân.

Awgrym: Ni ellir dibynnu ar fesurau lliniaru heb eu sicrhau mewn Asesiad Priodol.

6.2 Enghraifft B - Newid defnydd tir

6.2.1 Cydbwysedd y maethynnau heb ei liniaru

Mae Tabl 6-1 yn manylu ar enghraifft wedi'i gweithio lle mae cyllideb ganlyniadol o 1 kg TN/bl yn gofyn am fesurau lliniaru. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gyfrifo cydbwysedd y maethynnau heb ei liniaru, cyfeiriwch at Adranau 6.1.1 i 6.1.4 o'r adroddiad hwn; fel arall, cyfeiriwch at ganllawiau'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau (gweler Adran 2.5).

Tabl 6-1 Senario enghreifftiol

Paramedr	Mewnbynnau
ACA	ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd
Y cynnig datblygu (nifer yr unedau ychwanegol)	10 cartref
Defnydd dŵr fesul preswlydd (litrau/person/dydd)	120 l/p/d
Cyfradd deiliadaeth ddiofyn	2.3
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Gwaith trin carthion Carmel
Y gorchudd tir sydd eisoes yn bod	Preswyl
Y gorchudd tir arfaethedig	Preswyl (dim newid defnydd tir ar y safle)
Gwerth canlyniadol y gyllideb	32.66 kg TN/bl

6.2.2 Gwaredu'r llwyth maethynnau trwy newid defnydd tir

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Cymhwyso'r defnydd tir presennol (gan gynnwys y defnydd tir ar y safle ac oddi ar y safle) yng Ngham 2 y gyfrifiannell cyllideb maethynnau (Ffigur 6-8), a mesurau lliniaru'r defnydd tir arfaethedig yng Ngham 3 y gyfrifiannell (Ffigur 6-9).
- Gall dadansoddiad GIS fod yn ofynnol i holi setiau data presennol am y defnydd tir (e.e. Map Gorchudd Tir CORINE y CEH⁴²). Mae'n rhaid i'r defnydd tir a nodir o'r dadansoddiad GIS gyd-fynd mor agos â phosibl â'r defnydd tir a fabwysiedir yn y gyfrifiannell cyllideb maethynnau, a dylid cymryd camau rhagofalus os oes yna unrhyw amheuaeth.
- Bydd y gyllideb maethynnau sy'n cynnwys defnydd tir oddi ar y safle yn cael ei phennu'n awtomatig gan y gyfrifiannell.

Enghraifft wedi'i gweithio:

- Nid oes yna unrhyw newid i'r defnydd tir presennol ar y safle; bydd yn parhau i fod yn dir preswyl yn y senario presennol a'r senario arfaethedig.
- Y newid defnydd tir oddi ar y safle yw 1.4 ha o dir garddwriaethol (i'w ychwanegu yng Ngham 2) yn cael ei newid yn 1.4 ha o fannau gwyrdd (i'w ychwanegu yng Ngham 3).

Awgrym: Rhaid i'r tybiaethau ynghylch y defnydd tir o'r broses fapio fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn amddiffynadwy.

Ffigur 6-8 Dangos sut y caiff y llwyth maethynnau ei leihau trwy newid defnydd tir yng Ngham 2 o'r enghraifft lliniaru trwy newid defnydd tir (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbyn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynwyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

Ffigur 6-9 Dangos sut y caiff y llwyth maethynnau ei leihau trwy newid defnydd tir yng Ngham 3 o'r enghraifft lliniaru trwy newid defnydd tir (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbyn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynnwyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

Casgliad: Yn dilyn cymhwyso newid defnydd tir fel mesur lliniaru, mae Cam 4 o'r gyfrifiannell yn dangos y bydd y datblygiad yn niwtral o ran maethynnau (Ffigur 6-10).

32

Byddai'r mesurau lliniaru yn ddarostyngedig i sicrhau'r newid defnydd tir hwn am byth, er enghraifft trwy gytundeb Adran 106, ac ymgynghori â'r ACLI i gadarnhau bod y dull arfaethedig yn dderbyniol.

1	Total nitrogen generated	
2	Description of nitrogen values generated	Values generated
3	Stage 1 nitrogen load (kg TN/year):	27.22
4	Stage 2 nitrogen reduction (kg TN/year):	47.52
5	Stage 3 nitrogen load (kg TN/year):	19.90
6	Stage 3S nitrogen load removed through SuDS (TN kg/year):	0.00
7	Nitrogen budget ((Stage 1 - Stage 2) + (Stage 3 - Stage 3S)):	0.00
8	Nitrogen budget + 20% buffer:	0 kg TN/year will be generated
9		
0	Calculator version 3.0 - December 2025	
1		

<
>
Instructions
Stage 1
Stage 2
Stage 3
Stage 3S
Stage 4
+

Ffigur 6-10 Cam 4 wedi'i lliniaru o'r enghraifft lliniaru trwy newid defnydd tir (dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen yn y blwch ag ymylon toredig coch).

6.3 Enghraifft C - Uwchraddio PTPau neu danciau carthion i PTPau mwy effeithlon

Yn gyntaf, dylai'r datblygwr gadarnhau a all cynnig preswyl gael ei sgrinio allan os bydd y gollyngiadau'n mynd i'r ddaear trwy PTP. Byddai hyn yn berthnasol os yw'r llif elfion yn $<2\text{m}^3/\text{dydd}$, yn cael ei ollwng trwy faes draenio addas, ac yn cael ei adeiladu yn unol â'r meini prawf a nodir yng nghyngor CNC. Yn yr amgylchiadau hyn, ystyrir ei bod yn annhebygol bod yna lwybr i'r maethynnau fynd i mewn i'r amgylchedd aberol a chael effaith arwyddocaol ar yr ACA, ac felly gellir sgrinio allan niwtraliaeth maethynnau.

Lle nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd cyfleoedd i uwchraddio tanciau carthion presennol (ar y safle neu oddi ar y safle) i greu diffyg maethynnau (h.y. hyblygrwydd) y gellir ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer datblygiad newydd.

6.3.1 Cam 1: Pennu'r llwyth maethynnau ychwanegol o ddŵr gwastraff

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Mewnbynnu nifer yr anheddau a'u math i'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau.
- Cadarnhau llwybr draenio'r dŵr brwnt (dŵr gwastraff yn cael ei drin yn breifat – PTP neu danc carthion).
- Cadarnhau nad yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r brif garthffos, yn unol â Chylchlythyr (008/2018) Llywodraeth Cymru ar Systemau Draenio nad ydynt yn Gysylltiedig â'r Prif Rwydwaith.⁴⁴
- Ymgysylltu'n gynnar â'r ACLI ac CNC i gadarnhau y gallai system ddraenio gyda thriniaeth ychwanegol, nad yw'n gysylltiedig â'r brif rwydwaith, fod yn dderbyniol yn nalgylch yr ACA.
- Cadarnhau a yw'r PTP neu'r Tanc Carthion yn gollwng dŵr:
 - i'r ddaear (trwy ymdreiddiad), neu
 - i'r dŵr wyneb.
- Darparu manylbau'r gwneuthurwr, tystysgrifau, neu dystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid sy'n dangos:
 - Yr effeithlonrwydd disgwylidig o ran gwaredu maethynnau.
 - Cysondeb y perfformiad yn achos llwythi amrywiol.
 - Addasrwydd ar gyfer graddfa'r datblygiad.

Enghraifft wedi'i gweithio (cyfeiriwch at Ffigur 6-11 am arweiniad):

- Mewnbynnu'r datblygiad arfaethedig a'r cod post. 1 annedd preswyl.
- Mewnbynnu'r dalgylch a fydd yn cymryd y dŵr: ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.
- Mewnbynnu'r gwaith trin dŵr gwastraff: Tanc carthion rhagosodedig (neu dewiswch danc carthion pwrpasol os gellir darparu dystiolaeth o effeithlonrwydd y tanc carthion presennol).
- Canlyniad: Mae cyllideb nitrogen o 9.71 kg TN/bl yn poblogi'n awtomatig. Ar y sail hon, ni all proses sgrinio HRA ddiystyru effeithiau arwyddocaol tebygol (Ffigur 6-12), felly bydd mesurau lliniaru yn ofynnol.

Awgrymiadau:

- Os yw'r gyfrifiannell yn cadarnhau bod yna lefel ormodol o faethynnau, dylid tybio y bydd Asesiad Priodol yn ofynnol.
- Ni ellir defnyddio triniaeth ychwanegol i gyfiawnhau system ddraenio nad yw'n gysylltiedig â'r prif rwydwaith os yw cysylltu â'r prif rwydwaith yn ymarferol.
- Mae datganiadau generig o 'well triniaeth' yn annigonol – rhaid i'r datblygwr nodi'r safonau perfformio, a rhaid darparu tystysgrifau ar gyfer y cynnyrch a ddewisir.

⁴⁴ Llywodraeth Cymru (2018). *Cylchlythyr 008/2018*. [Ar-lein] Ar gael yma: gov.wales/gofynion-cynllunio-ar-gyfer-systemau-carthffosiaeth-preifat-mewn-datblygiadau-newydd-cllc-0082018.pdf (Cyrchwyd ddiwethaf ar: 13/01/2026)

Wastewater load input data		
Description of required information		Data entry column - user inputs required
Special Area of Conservation (SAC):	→	Bae ac Aberoedd Caerfyrddin/ Carmarthen Bay and Estuaries
Postcode:	→	SA4 0UB
Local Planning Authority (LPA):		Carmarthenshire County Council
Rainfall:		1404
Project type:	→	Residential
Development proposal (number of additional units):	→	1
Not applicable	→	Carmarthenshire County Council
Default occupancy rate:		2.3
Is this default value being used?	→	Yes
Not applicable		
Water usage per resident (litres/person/day):	→	120
Not applicable		
Not applicable		
Not applicable		
Not applicable		
Wastewater treatment works:	→	Septic tank default
Not applicable		
Not applicable		
Phosphorus permitted limit (mg TP/l):		11.60
Nitrogen permitted limit (mg TN/l):		96.30

< > Instructions **Stage 1** Stage 2 Stage 3 Stage 3S Stage 4 +

Figur 6-11 Cam 1 o'r enghraifft lliniaru trwy uwchraddio'r PTP (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbyn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynnwyd uchod yn ddangosol).

Final calculation of nutrient load from wastewater		
Description of values generated		Values generated
Additional population:		2.30
Annual wastewater production (litres):		100809.00
Annual phosphorus load (kg TP/year):		1.17
Annual nitrogen load (kg TN/year):		9.71

< > Instructions **Stage 1** Stage 2 Stage 3 Stage 3S Stage 4 +

Figur 6-12 Cam 1 (cyfrifiad terfynol o'r llwyth maethynnau o ddŵr gwastraff) o'r enghraifft lliniaru trwy uwchraddio'r PTP (dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch).

6.3.2 Cydbwysedd y maethynnau heb ei lliniaru

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys un annedd heb unrhyw newid defnydd tir, felly nid oes unrhyw fewnbynnau yn ofynnol yng Ngham 2 na Cham 3 o ran defnydd tir. Mae yna gyllideb ganlyniadol o 9.71 kg TN/bl sy'n cyfateb i 11.65 kg TN/bl (wedi i lain glustogi ragofalus o 20% gael ei chymhwyso yng Ngham 4) sy'n gofyn am fesurau lliniaru. Dangosir isod sut i bennu'r potensial lliniaru y gellir ei sicrhau trwy uwchraddio'r tanc carthion i PTP.

6.3.3 Gwaredu'r llwyth maethynnau trwy uwchraddio tanc carthion i PTP

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Mewnbynnu manylion y system PTP uwchraddedig i'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau. Mae PTP rhagosodedig ar gael yn y gwympen yn y gyfrifiannell. Mae hefyd yn bosibl mewnbynnu gwerthoedd PTP

pwrpasol o'r gwymplen i adlewyrchu cynnyrch penodol a ddewisir. Fodd bynnag, rhaid ategu hyn â thystysgrif perfformio y gwneuthurwr.

- Ailgyfrifo'r gyllideb maethynnau i ddangos y llwyth dŵr gwastraff o'r PTP.

Enghraifft wedi'i gweithio:

- PTP rhagosodedig ar gyfer un annedd (Ffigur 6-13 a Ffigur 6-14)

Wastewater load input data	
Description of required information	Data entry column - user inputs required
Special Area of Conservation (SAC):	Bae ac Aberoedd Caerfyrddin/ Carmarthen Bay and Estuaries
Postcode:	SA4 0UB
Local Planning Authority (LPA):	Carmarthenshire County Council
Rainfall:	1404
Project type:	Residential
Development proposal (number of additional units):	1
Not applicable	Carmarthenshire County Council
Default occupancy rate:	2.3
Is this default value being used?	Yes
Not applicable	
Water usage per resident (litres/person/day):	120
Not applicable	
Not applicable	
Not applicable	
Not applicable	
Wastewater treatment works:	Package treatment plant (PTP) default
Not applicable	
Not applicable	
Phosphorus permitted limit (mg TP/l):	9.70
Nitrogen permitted limit (mg TN/l):	72.90
Final calculation of nutrient load from wastewater	
Description of values generated	Values generated
Additional population:	2.30
Annual wastewater production (litres):	100809.00
Annual phosphorus load (kg TP/year):	0.98
Annual nitrogen load (kg TN/year):	7.35

< > Instructions **Stage 1** Stage 2 Stage 3 Stage 3S Stage 4 +

Ffigur 6-13 Dangos sut y caiff y llwyth maethynnau ei leihau trwy uwchraddio PTP yng Ngham 1 o'r enghraifft lliniaru trwy uwchraddio'r PTP (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbyn sy'n ofynnol

gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynwyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

11	Total nitrogen generated	
12	Description of nitrogen values generated	Values generated
13	Stage 1 nitrogen load (kg TN/year):	7.35
14	Stage 2 nitrogen reduction (kg TN/year):	15.70
15	Stage 3 nitrogen load (kg TN/year):	15.70
16	Stage 3S nitrogen load removed through SuDS (TN kg/year):	0.00
17	Nitrogen budget ((Stage 1 - Stage 2) + (Stage 3 - Stage 3S)):	7.35
18	Nitrogen budget + 20% buffer:	8.82 kg TN/year will be generated
19		
20	Calculator version 3.0 - December 2025	
21		

Ffigur 6-14 Cam 4 wedi'i liniaru o'r enghraifft lliniaru trwy uwchraddio'r PTP (dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch).6 14

6.3.4 Cam 4: Cyfrifo'r gyllideb maethynnau derfynol

I bennu'r gyllideb derfynol, dylid mynd ati â llaw i **dynnu cyllideb nitrogen y tanc carthion presennol** (11.64 kg TN/bl) **o gyllideb nitrogen y PTP arfaethedig** (8.82 kg TN/bl). Yn yr achos hwn, trwy ddefnyddio'r gwerthoedd diodyn yn y gyfrifiannell, mae hyn yn rhoi cyllideb maethynnau derfynol o -2.82 kg TN/bl. Fel y cyfryw, mae'r gwaith o uwchraddio o danc carthion i PTP yn arwain at ddiffyg maethynnau (h.y. gwerth negatif ar gyfer maethynnau) sy'n golygu bod niwtraliaeth maethynnau wedi'i chyflawni.

Gellir amnewid y gwerthoedd diodyn am werthoedd triniaeth hysbys yn y gyfrifiannell. Mae hefyd yn bosibl pennu effaith amnewid nifer o danciau carthion neu PTPau a gosod modelau mwy diweddar neu fwy effeithlon yn eu lle, a hynny trwy ddefnyddio'r un dull ond gan gynyddu nifer yr anheddau fel y bo'n briodol yng Ngham 1.

I sicrhau bod niwtraliaeth maethynnau yn cael ei chyflawni, rhaid uwchraddio i PTPau mwy effeithlon cyn i'r datblygiadau arfaethedig gael eu meddiannu.

6.4 Enghraifft D - Mesurau effeithlonrwydd dŵr

6.4.1 Cydbwysedd y maethynnau heb ei liniaru

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys un annedd sydd wedi'i chysylltu â GTDG Carmel heb unrhyw newid defnydd tir, felly nid oes unrhyw fewnbynnau yn ofynnol o ran defnydd tir. Mae yna gyllideb ganlyniadol o 2.72 kgTN/bl sy'n cyfateb i 3.26 kg TN/bl (wedi i lain glustogi ragofalus o 20% gael ei chymhwyso yng Ngham 4), sy'n gofyn am fesurau lliniaru. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gyfrifo cydbwysedd y maethynnau heb ei liniaru, cyfeiriwch at Adrannau 6.1.1 i 6.1.4 o'r adroddiad hwn; fel arall, cyfeiriwch at ganllawiau'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau (gweler Adran 2.5).

6.4.2 Gwaredu'r llwyth maethynnau trwy fesurau effeithlonrwydd dŵr

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Cymhwyso cyfradd defnydd dŵr is y pen yn y gyfrifiannell, a hynny trwy leihau'r gwerth diofyn i adlewyrchu'r broses o ymgorffori mesurau effeithlonrwydd dŵr ychwanegol.
- Gofalu bod y safon effeithlonrwydd dŵr arfaethedig yn cael ei sicrhau trwy amodau cynllunio, manylebau dylunio neu gytundeb cyfreithiol.
- Ailgyfrifo'r cydbwysedd maethynnau i adlewyrchu cyfaint is y dŵr gwastraff a'r llwyth nitrogen cysylltiedig.

Enghraifft wedi'i gweithio:

- Caiff y dybiaeth ddiofyn bod 120 l/p/d o ddŵr yn cael ei ddefnyddio ei chyfnewid am 70 l/p/d (fel enghraifft ddamcaniaethol), gan adlewyrchu'r ffaith bod ffitiadau, offer, a mesurau ymddygiad effeithlonrwydd uchel yn cael eu cynnwys. Rhaid darparu tystiolaeth addas o'r gwerth effeithlonrwydd is yn y strategaeth liniaru.
- Ar gyfartaledd, mae'r gostyngiad hwn yn y defnydd dŵr yn lleihau swm y dŵr gwastraff brwnt a gynhyrchir sy'n cael ei ollwng i'r system trin dŵr gwastraff.
- Caiff y llwyth maethynnau arfaethedig o'r datblygiad ei leihau'n awtomatig yn y gyfrifiannell o ganlyniad i'r cyfaint is o ddŵr gwastraff y pen (e.e. gostyngiad o 1.13 kg TN/bl, fel y dangosir yn Ffigur 6-15 a Ffigur 6-16).

Awgrymiadau:

- Rhaid i dybiaethau fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyraeddadwy yn ymarferol.
- Gall CNC graffu ar y canlynol:
 - A yw'r safon arfaethedig o ran effeithlonrwydd dŵr yn realistig ar gyfer meddiannaeth hirdymor.
 - A ellir gorfodi hyn yn effeithiol trwy amodau cynllunio. Gallai dull gweithredu gynnwys sicrhau amserlen briodol ar gyfer gwaith cynnal a chadw a chyfnewid a fyddai'n sicrhau bod yr arbedion o ran maethynnau yn para am byth.

10	Project type:	Residential
11	Development proposal (number of additional units):	1
12	Not applicable	Carmarthenshire County Council
13	Default occupancy rate:	2.3
14	Is this default value being used?	Yes
15	Not applicable	
16	Water usage per resident (litres/person/day):	120
17	Not applicable	
18	Not applicable	
19	Not applicable	
20	Not applicable	
21	Wastewater treatment works:	Carmel STW
22	Not applicable	
23	Not applicable	
24	Phosphorus permitted limit (mg TP/l):	5.00
25	Nitrogen permitted limit (mg TN/l):	27.00
Final calculation of nutrient load from wastewater		
26		
27	Description of values generated	Values generated
28	Additional population:	2.30
29	Annual wastewater production (litres):	100809.00
30	Annual phosphorus load (kg TP/year):	0.50
31	Annual nitrogen load (kg TN/year):	2.72
32		
33	< > Instructions Stage 1 Stage 2 Stage 3 Stage 3S Stage 4 +	

Ffigur 6-15 Y llwyth maethynnau o ddŵr gwastraff gan ddefnyddio defnydd dŵr diofyn o 120 l/p/d fesul preswlydd (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbyn sy'n ofynnol gan y datblygwr). Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynnwyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

10	Project type:	Residential
11	Development proposal (number of additional units):	1
12	Not applicable	Carmarthenshire County Council
13	Default occupancy rate:	2.3
14	Is this default value being used?	Yes
15	Not applicable	
16	Water usage per resident (litres/person/day):	70
17	Not applicable	
18	Not applicable	
19	Not applicable	
20	Not applicable	
21	Wastewater treatment works:	Carmel STW
22	Not applicable	
23	Not applicable	
24	Phosphorus permitted limit (mg TP/l):	5.00
25	Nitrogen permitted limit (mg TN/l):	27.00
Final calculation of nutrient load from wastewater		
26		
27	Description of values generated	Values generated
28	Additional population:	2.30
29	Annual wastewater production (litres):	58805.25
30	Annual phosphorus load (kg TP/year):	0.29
31	Annual nitrogen load (kg TN/year):	1.59
32		
33	< > Instructions Stage 1 Stage 2 Stage 3 Stage 3S Stage 4 +	

Ffigur 6-16 Y llwyth maethynnau o ddŵr gwastraff gan ddefnyddio defnydd dŵr o 70 l/p/d fesul preswlydd ac ystyried mesurau effeithlonrwydd dŵr (mae'r saethau coch yn nodi'r meysydd mewnbyn).

sy'n ofynnol gan y datblygwr. Sylwer: mae'r gwerthoedd a fewnbynnwyd uchod yn ddangosol. Dangosir gwerth terfynol y canlyniad nitrogen o'r cam hwn yn y blwch ag ymylon toredig coch.

6.5 Enghraifft E - Gwell rheolaeth ar ffosydd draenio

6.5.1 Cydbwysedd y maethynnau heb ei liniaru

Mae Tabl 6-2 yn manylu ar enghraifft wedi'i gweithio lle mae cyllideb ganlyniadol o 16.33 kg TN/bl yn gofyn am fesurau lliniaru. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gyfrifo cydbwysedd y maethynnau heb ei liniaru, cyfeiriwch at Adranau 6.1.1 i 6.1.4 o'r adroddiad hwn; fel arall, cyfeiriwch at ganllawiau'r gyfrifiannell cyllideb maethynnau (gweler Adran 2.5).

Tabl 6-2 Senario enghreifftiol ar gyfer gwell rheolaeth ar ffosydd draenio

Paramedr	Mewnbynnau
ACA	ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd
Y cynnig datblygu (nifer yr unedau ychwanegol)	5 cartref
Defnydd dŵr fesul preswlydd (litrau/person/dydd)	120 l/p/d
Cyfradd deiliadaeth ddiofyn	2.3
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Gwaith trin carthion Carmel
Y gorchudd tir sydd eisoes yn bod	Preswyl
Y gorchudd tir arfaethedig	Preswyl (dim newid defnydd tir ar y safle)
Gwerth canlyniadol y gyllideb	16.33 kg TN /bl (yn cynnwys llain glustogi o 20%)

6.5.2 Gwaredu'r llwyth maethynnau trwy well rheolaeth ar ffosydd draenio

Yr hyn y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud:

- Cyfrifo'r gyllideb maethynnau o'r datblygiad arfaethedig; yn yr enghraifft hon mae cyllideb ganlyniadol o 16.33 kg TN/bl yn gofyn am gamau lliniaru (Tabl 6-2).
- Nodi ardal o dir amaethyddol oddi ar y safle yn yr un dalgylch â'r datblygiad arfaethedig, ac i fyny'r afon o bwynt effaith y datblygiad.
- Diffinio lefel sylfaenol y nitrogen a allforir o'r defnydd tir amaethyddol a nodwyd (e.e. cnydau grawnfwyd) gan ddefnyddio Cyfrifiannell Maethynnau Cymru.
- Cymhwyso ffactor lleihau nitrogen o 28% (cyfeiriwch at Atodiad A.10 am fanylion y gwerth effeithlonrwydd) i'r llwyth nitrogen amaethyddol sylfaenol i adlewyrchu'r ffaith bod gwell mesurau ar waith i reoli ffosydd draenio.
- Pennu'r llwyth maethynnau a arbedwyd trwy gymhwyso'r gostyngiad hwn o 28% (h.y. arbedion o ran maethynnau = y llwyth presennol o rawnfwyd * y llwyth arfaethedig o rawnfwyd gyda gostyngiad o 28% yn y llwyth maethynnau).
- Tynnu'r maethynnau a arbedwyd yn y lleoliad amaethyddol o gyllideb maethynnau gyffredinol y datblygiad.

Enghraifft wedi'i gweithio:

- Nodir bod yna ardal o gnydau grawnfwyd oddi ar y safle sy'n 3.5 ha o faint. Y llwyth nitrogen presennol a allforir yw 65.38 kg TN/bl, a gellir cyfrifo hwn trwy ddefnyddio tudalen Cam 2 o Gyfrifiannell Maethynnau Cymru (gweler Ffigur 6-17).
- Tybir bod gwell rheolaeth ar ffosydd draenio yn lleihau swm y nitrogen a gollir o'r tir hwn 28%, gan adlewyrchu mesurau megis cynyddu'r llystyfiant yn y ffosydd, clirio'r ffosydd yn llai aml, a gwell gwaith proffilio i'r ffosydd (gweler Atodiad A.10 i gael manylion pellach ar y dull lliniaru hwn).

- Awgrym:** Dylai'r tir amaethyddol a nodwyd oddi ar y safle fod wedi'i leoli yn yr un dalgylch â'r datblygiad.

Physical characteristics			
Description of required information		Data entry column - user inputs required	
Soil drainage:		Freely draining	
Rainfall identified using postcode (mm/year):		1404	
Is this rainfall value correct?		Yes	
Not applicable		Not applicable	
Pre-existing landcovers			
Landcover		Area (hectares)	
Cereals		3.5	
Total:		3.50	

Ffigur 6-17 Ardal o dir amaethyddol (grawnfwyd) oddi ar y safle

Atodiad A Mesurau Iliniaru posibl

A.1 Newid defnydd tir



Ffigur A-1 Plannu coed (ffynhonnell y llun: Nation Cymru⁴⁵)

Disgrifiad	Mae newid defnydd tir yn golygu newid defnydd tir sydd â lefel allforio nitrogen uwch (fel tir â'r neu laswelltir wedi'i wella) i ddefnydd tir sydd â lefel allforio nitrogen is, a hynny'n barhaol, megis: • Coetir • Glaswelltir • Tir lle rhoddwyd y gorau i arferion amaethyddol • Amaeth-goedwigaeth (e.e. coed-borfeydd) • Coedlan cylchdro byr Pan ddefnyddir yr ymyriadau hyn rhaid eu hategu gan dystiolaeth o'r defnydd tir presennol a'r lefelau allforio nitrogen is o ran y defnydd tir arfaethedig e.e. drwy gyfeirio at gyfernodau allforio yng nghyfrifiannell cyllideb maethynnau Cymru Gyfan. Gallant arwain at leihau llwyth DIN trwy ddulliau fel lleihau neu ddileu mewnbynnau gwrtaith/tail, cynyddu amsugniad gan blanhigion, gwella dadnitreiddio, aflonyddu llai ar bridd a chynyddu dargadw hydrolegol ac ymdreiddiad ac ati⁴⁶. Gan ddibynnu ar faint datblygiad, mae'n bosibl bod potensial ar gyfer newidiadau i ddefnydd tir ar y safle, o fewn y datblygiad, ond yn gyffredinol caiff yr opsiwn hwn ei weithredu oddi ar y safle, trwy nodi tir o fewn dalgylch ehangach y safle dynodedig yr effeithir arno, a allai fod yn addas ar gyfer ei newid er mwyn creu diffyg maethynnau.
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â	Rhaid i ddatblygwyr gydymffurfio â'r gofynion allweddol canlynol: • Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: yn rheoli newidiadau mewn arferion rheoli tir (e.e. lleihau neu greu

⁴⁵ <https://nation.cymru/news/millions-paid-to-organisations-outside-wales-to-plant-trees-on-welsh-farmland/>

⁴⁶ Natural England; DEFRA GOV UK (2025) <https://www.gov.uk/government/publications/the-benefits-of-woodland-creation-woods-and-water/the-benefits-of-woodland-creation-woods-and-water>

phrofion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yn ngham yr Asesiad Priodol).	mewnbynau gwrtaith/deunydd organig) – mae'n bosibl y bydd angen diweddariadau i fapiau risg a Chynllun Rheoli Maethynnau fferm. - Mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) yn berthnasol i newidiadau parhaol mewn defnydd tir a gall fod gofyn sicrhau "penderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru". I gael arweiniad ewch i ddogfen a4 Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol - Amaethyddiaeth a gall ceisiadau am benderfyniad sgrinio gael eu gwneud yma Ffurflen Gais Penderfyniad Sgrinio. Ar gyfer creu coetir⁴⁷: - Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn gofyn am Ddatganiad o Ddiddordeb ar gyfer cynllun coetir 0.25 ha o leiaf, neu 0.5 ha os yw'r cais ar gyfer amaeth-goedwigaeth. - Ar gyfer cynigion plannu llai ar dir wedi'i wella'n amaethyddol neu dir â gwerth amgylcheddol isel, mae'r cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir⁴⁸ ar gael, ac mae'n berthnasol i ardaloedd plannu rhwng 0.1 ha a 1.99 ha (ar yr amod bod y safle'n cael ei ddangos fel un "sensitifrwydd isel" ar y map priodol). Mae hyn yn golygu, at ei gilydd, bod yn rhaid i unrhyw gynlluniau plannu coetir llai na 0.25 ha (neu 0.5 ha ar gyfer amaeth-goedwigaeth) fynd trwy'r llwybr Grantiau Bach (os yw'n gymwys), ac y dylid amlinellu uchelgais i blannu ar raddfa fwy trwy gynllun creu coetir wedi'i wirhau dan y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Nid yw datblygwyr sy'n ariannu prosiect eu hunain (yn hytrach na drwy arian grant) wedi'u cyfyngu'n dechnegol gan y meini prawf cymhwysedd o ran plannu. Fodd bynnag, maent wedi'u rhwymo'n gyfreithiol gan reoliadau amgylcheddol a choedwigaeth sy'n adlewyrchu'r terfynau hyn a gallant wneud y broses yn fwy cymhleth ar gyfer meintiau penodol. Byddai hyn yn cynnwys Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 a Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Ar gyfer cynlluniau coetir, mae'n hanfodol dangos sut y bydd cynllun yn sicrhau hirhoedledd er mwyn darparu hyder hirdymor yn y strategaeth liniaru. Mae hirhoedledd yn ymwneud â'r mesurau cyfreithiol ac ymarferol sy'n sicrhau bod y defnydd tir yn parhau am y cyfnod gofynnol, a all gynnwys cyfmodau cyfreithiol neu rwymedigaethau cynllunio sy'n diogelu'r safle rhag datblygiad yn y dyfodol ac yn sicrhau ymroddiad parhaus i liniaru maethynnau trwy gydol oes y datblygiad, neu cyhyd ag y bo gofynion niwtraliaeth maethynnau yn gymwys. Mae llwyddiant hirdymor newid defnydd tir, fel strategaeth liniaru ar gyfer DIN, yn dibynnu ar gynlluniau rheoli clir, sicrwydd cyfreithiol, a gwaith cynnal a chadw rheolaidd (gweler yr adran ar gynnal a chadw yn nes ymlaen). Rhaid i ddatblygwyr ddarparu gwybodaeth fanwl am y dull gweithredu arfaethedig, gan gynnwys y rhywogaethau o goed, y cynllun plannu, a chynllun rheoli hirdymor cynhwysfawr ar gyfer creu coetir. Mae CNC hefyd yn cynghori y gallai fod angen ystyried y posibilrwydd o ddadleoli gweithgareddau cynhyrchu maethynnau cyfreithlon i safle gwahanol, yn hytrach na bod yn destun cyfnewid uniongyrchol, ar sail dalgylch. Er enghraifft, gellir newid tir amaethyddol i goetir at ddibenion lleihau maethynnau, ond pe bai coed yn cael eu cwympo wedyn mewn mannau eraill i ailsefydlu'r tir amaethyddol a gollwyd, yna ni fyddai hyn yn briodol
Amser nes bydd yn Effeithiol	Mae'r amser sy'n ofynnol cyn y bydd newid defnydd tir yn sicrhau buddion lliniaru maethynnau yn amrywio gan ddibynnu ar y dull gweithredu a ddewiswyd: Rhoi'r gorau i ffermio tir amaethyddol: Gellir gweithredu hyn yn gymharol gyflym, gan fod y buddsoddiad amser mwyaf yn ymwneud â nodi tir addas,

⁴⁷ [Cynllun Cynllunio Creu Coetir \(Ionawr 2025\): llyfryn rheolau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁴⁸ Llywodraeth Cymru (2025). Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir. Ar gael yma: [Grantiau Bach – Cynllun Creu Coetir | LLYW.CYMRU](#)

	canfod perchnogion tir sy'n barod i gymryd rhan, a negodi cytundebau cyfreithiol. Pan fydd gweithgarwch amaethyddol yn dod i ben, bydd lleihad mewn mewnbynnau maethynnau yn digwydd bron ar unwaith, er efallai na fydd y budd llawn yn cael ei wireddu am gyfnod byr gan fod maethynnau gormodol gweddilliol yn cael eu defnyddio neu eu trwytholchi o'r tir sydd wedi'i orfaethu. • Sefydlu coetir: Wrth greu coetir newydd mae'n cymryd blynyddoedd i goed sefydlu'n iawn a darparu cymaint ag sy'n bosibl o fuddion o ran amsugno a storio maethynnau. Mae'r buddion cynnar yn dechrau wrth i goed dyfu, ond mae effeithiolrwydd llawn i'w weld yn yr hirdymor wrth i orchudd canopi a systemau gwreiddiau ddatblygu. Dylid nodi, er mwyn sicrhau niwtraliaeth maethynnau, bod yn rhaid i fesurau lliniaru fod yn eu lle ac ar waith pan fydd y datblygiad yn dechrau cael ei weithredu. Mae'n bosibl na fydd mesurau ag effeithiolrwydd gohiriedig yn bodloni'r gofyniad hwn heb fesurau lliniaru interim neu amodau Grampian. • Systemau amaethgoedwigaeth: Pan gaiff tir amaethyddol ei newid i ddibenion amaeth-goedwigaeth (integreiddio coed i systemau ffermio), mae'r rhywogaethau o goed a ddewisir yn hollbwysig. Bydd rhywogaethau sy'n tyfu'n gyflymach yn gwaredu a storio maethynnau yn gyflymach na rhywogaethau sy'n tyfu'n arafach, gan gyflymu'r effaith lliniaru.
Cyfradd gwaredu maethynnau	Gall tir sy'n cael ei newid i fod yn gynefin lled-naturiol, megis gwlyptir naturiol, coetir, neu laswelltir, gynnig canlyniad cryf i faethynnau pan fydd wedi'i gynllunio a'i leoli'n briodol. Er enghraifft, roedd newid tir cynyddu i fod yn wlyptir yn rhoi cyfradd gwaredu cyfanswm nitrogen o 12.8% i 93%⁴⁹. Mae effeithiolrwydd newid defnydd tir wrth geisio lleihau llwythi maethynnau yn amrywio yn ôl y math o ymyriad a chynllun y safle. Mae tystiolaeth o adolygiad llenyddiaeth yn dangos y tueddiadau a'r gwerthoedd bras a ganlyn: • Tir âr → Coetir: Yn darparu'r lleihad mwyaf, a mwyaf cyson mewn DIN o ganlyniad i ddileu mewnbynnau gwrtaith, cynyddu amsugniad gan blanhigion, a gwella prosesau pridd, ag ystod cyfraddau gwaredu TN o 12.8 – 93%⁴⁹. • Tir amaethyddol → Tir nad yw'n dir amaethyddol: Fel arfer potensial i waredu 16.23 i 22.75 kg/TN/ha y flwyddyn⁵⁰. • Defnyddio gwrtaith/tail → Rhoi'r gorau i ddefnyddio: Fel arfer potensial i waredu 17.31 – 21.38 kg TN/ha/y flwyddyn⁵⁰. Mae Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cymru Gyfan⁶ yn caniatáu mewnbynnau ardaloedd defnydd tir cyfredol ac arfaethedig ar gyfer safle ochr yn ochr â nodweddion dalgylchoedd, er mwyn pennu'r gyllideb maethynnau sy'n deillio o newid defnydd tir. Mae Llywodraeth Cymru a CNC yn ystyried hon yn gyfrifiannell ddibynadwy o safbwynt gwyddonol, felly dyma'r offeryn mwyaf defnyddiol sydd ar gael i ddatblygwyr er mwyn pennu newid y gellir ei amddiffyn yn y gyllideb defnydd tir. Er hyn, bydd angen cyflwyno'r strategaeth lliniaru i'r awdurdod cynllunio lleol a rhoi ystyriaeth addas iddi fesul achos unigol.
Buddion ehangach	Gall mabwysiadu newid defnydd tir fel strategaeth lliniaru ar gyfer DIN arwain at nifer o fuddion ar y cyd ar wahân i leihau maethynnau, gan gynnwys^{49,50}: • Atafaelu carbon: Mae coetir sydd newydd gael ei sefydlu a chynefinoedd sydd wedi'u dad-ddofi yn dal a storio carbon atmosfferig, gan gyfrannu tuag at leihau allyriadau yn yr hirdymor.

⁴⁹ Arup, 2022. Nutrient Calculator Guidance for Wales: Evidence Report for Natural Resources Wales

⁵⁰ Royal Haskoning, 2023. Norfolk Nutrient Guidance. Nutrient Mitigation Solutions:

<https://www.southnorfolkandbroadland.gov.uk/asset-library/imported-assets/royal-haskoning-norfolk-nutrient-strategy-nutrient-mitigation-solutions-report-oct-2023.pdf>

	• Gwerth esthetig: Mae gwella tirweddau naturiol yn gwella ansawdd gweledol, gan greu amgylchedd mwy deniadol a diddorol i breswylwyr ac ymwelwyr. • Rheoli perygl llifogydd: Mae rhagor o orchudd llystyfiant yn arafu dŵr ffo ar wyneb y tir, yn gwella ymdreiddiad, ac yn lleihau anterth llif, gan helpu i leihau perygl llifogydd ymhellach i lawr yr afon. • Gwella Bioamrywiaeth: Mae ardaloedd wedi'u dad-ddofi yn darparu ystod ehangach o gynefinoedd, gan gefnogi mwy o amrywiaeth o rywogaethau a gwella gwydnwch cyffredinol ecosystemau. • Gall y darn o dir sydd wedi'i ddad-ddofi/plannu â choetir leihau erydiad pridd: Mae plannu coed a llystyfiant sy'n gorchuddio'r ddaear yn sefydlogi'r pridd, gan leihau erydiad. • Gwaredu rhagor o lygryddion: trwy well pridd a mwy o orchudd llystyfiant.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Dylai newidiadau i ddefnydd tir fod yn barhaol, felly mae ar awdurdodau angen eglurder ynglŷn â sut y caiff y lliniaru ei fonitro a'i orfodi dros gyfnod. Er mwyn sicrhau hyn, rhaid i'r tir ddilyn trefniadau rheoli rhagnodedig am 80-125 o flynyddoedd, a disgwylir y bydd ei swyddogaeth lliniaru maethynnau yn parhau am byth. Mae'r ymrwymiad hirdymor hwn yn sicrhau bod buddion newid defnydd tir yn cael eu cynnal a bod modd eu gwirhau. Dylai datblygwyr gynnwys cynllun cynnal a chadw a monitro manwl yn eu cynnig lliniaru. Rhaid i'r cynllun hwn amlinellu sut y caiff y tir ei reoli trwy gydol ei oes, gan nodi gweithgareddau, cyfrifoldebau, a gofynion adrodd. Mae manylion ynglŷn â sut y byddai'r cynllun hwn yn cael ei sicrhau yn hanfodol er mwyn cael sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd hirdymor y dull lliniaru. • Ar gyfer cynlluniau coetir, disgwylir arferion rheoli priodol megis teneuo a bondocio hyd ddiwedd oes y cytundeb er mwyn cynnal iechyd a gweithrediad y coetir. Gall datblygwyr hefyd ystyried hawlio taliadau cynnal a chadw blynyddol am y 12 mlynedd gyntaf dan Grant Creu Coetir Cymru. Gall y taliadau hyn helpu i wrthbwysu costau rheoli cychwynnol ac annog gweithrediad priodol. • Ar gyfer cynlluniau amaeth-goedwigaeth, mae gofynion cynnal a chadw yn fwy dwys ac wedi'u hintegreiddio i'r system amaethyddol⁵¹. • Ar wahân, rhaid dangos tystiolaeth bendant o effaith er mwyn cadarnhau y bydd y coetir yn darparu'r canlyniadau lliniaru maethynnau disgwylidig. Mae hyn yn galw am ddata sylfaenol priodol, trefniadau monitro (er mwyn dangos bod y defnydd tir wedi cael ei gynnal a'i gadw a'i reoli'n briodol), a mecanweithiau adrodd er mwyn gwirhau perfformiad dros gyfnod. Lle bo gwaith monitro'n dangos nad yw canlyniadau lliniaru'n cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyl, dylid nodi mesurau wrth gefn addas er mwyn mynd i'r afael â thanberfformiad a sicrhau cydymffurfedd parhaus â gofynion niwtraliaeth maethynnau. Dylid cytuno ar y dull o gynnal a chadw a rheoli, a sut i'w sicrhau, gyda'r awdurdod cynllunio lleol ochr yn ochr â chyflwyno'r strategaeth lliniaru.
Cyfyngiadau/Pryderon	Mae'r cyfyngiadau a ganlyn yn gysylltiedig â'r dull lliniaru DIN hwn⁴⁹: • Mewn rhai dalgylchoedd, mae angen arwynebau mawr i wrthbwysu datblygiadau bach. • Ar gyfer y dull hwn mae angen gweithredu ar raddfa fawr, sy'n fwy o her oherwydd bod angen caniatâd perchnogion tir ac oherwydd bod y costau'n fwy.

⁵¹ Ricardo, 2023. Adolygiad Technegol o Ddewisiadau Lliniaru. Arweiniad ar opsiynau lliniaru ffosfforws i'w ddefnyddio yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. <https://www.ceredigion.gov.uk/media/blqd5fnf/opsiynau-lliniaru-maethynnau-adolygiad-technegol-g-cymru.pdf>

	Colli tir amaethyddol cynhyrchiol mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) a lle gallai allbwn amaethyddol wneud cyfraniad sylweddol i gyflenwi bwyd a diogeledd bwyd yng Nghymru / y DU. O ganlyniad, gallai hyn fod yn groes i bolisi lleol mewn rhai ardaloedd, ac mae angen adolygu fesul achos unigol.
Costau	Dull cost uchel i ddatblygwyr llai oherwydd ei bod yn bosibl y bydd angen prynu darnau sylweddol o dir a'u sicrhau am byth. Gallai costau fod yn ddibynnol iawn ar ofynion penodol y datblygiad a maint y mesurau lliniaru sydd eu hangen. Gall tir amaethyddol elwa o ryddhad treth amaethyddol, sy'n golygu y gallai rhoi'r gorau i ddefnyddio tir at ddibenion cynhyrchu arwain at golli'r hawl hon yn yr hirdymor a chreu atebolrwydd i dalu treth. Gallai hyn wneud rhai newidiadau defnydd tir yn anatyniadol o safbwynt economaidd, a gallai olygu nad ydynt yn cael eu gweithredu. Mewn rhai achosion, pan nad yw tir yn gymwys ar gyfer rhyddhad amaethyddol mwyach, gallai yn hytrach ddod yn gymwys ar gyfer taliadau trwy gynlluniau megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) 2026⁵², a all helpu i wrthbwysu'r effaith ariannol. Sylwer na ellir cyfri cyfranogaeth yn yr SFS ddwywaith, a byddai angen i unrhyw leihad mewn nitrogen a hawliar brofi ychwanegedd. Mae mesurau newid defnydd tir – megis plannu coetir, newid defnydd glaswelltir neu sefydlu cnydau gorchudd – hefyd yn galw am wariant cyfalaf ymlaen llaw. Fodd bynnag, unwaith y byddant wedi sefydlu, mae'r gofynion cynnal a chadw parhaus fel arfer yn isel, a gall gweithgareddau megis torri neu gynaeafu ddarparu gwerthiant cynnyrch sy'n gwrthbwysu'r costau hyn yn rhannol neu'n llawn. Ar gyfer creu coetir, mae taliadau cynnal a chadw blyneddol ar gael am y 12 mlynedd cyntaf dan Gynllun Creu Coetir Cymru. Gall y taliadau hyn helpu i wrthbwysu costau rheoli cychwynnol ac annog gweithrediad priodol.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Mewn achosion lle mae cynhyrchu amaethyddol yn dod i ben, argymhellir sefydlu llystyfiant cynnar er mwyn darparu tystiolaeth glir bod ffermio wedi dod i ben. Mae plannu coetir neu gymunedau llystyfiant eraill nad ydynt yn gydnaws ag amaethyddiaeth yn cynnig ffordd ymarferol o ddangos newid defnydd tir parhaol a sicrhau mesurau lliniaru maethynnau ⁵¹ .
Ystyriaethau ychwanegol	Dylid ystyried yr ystyriaethau a ganlyn hefyd: - Mae plannu coetir yn ddull lliniaru hyfyw y gellir ei weithredu'n hawdd. Mae gofyniad sylfaenol ar gyfer 20% o orchudd canopi ar ôl cyrraedd aeddfedrwydd, sy'n cyfateb i tua 100 coesyn ar bob hectar⁵³. - Nid oes lleiafswm nac uchafswm penodol ar gyfer maint tir lliniaru, ond gallai polisïau lleol ddylanwadu ar y maint sy'n dderbyniol, yn enwedig ar gyfer cynlluniau coetir mawr. - Dylai lliniaru roi blaenoriaeth i'r mathau o ffermydd sydd â'r cyfernodau allforio maethynnau uchaf, gan ddefnyddio offer fel Farmscoper⁵⁴ i helpu i ddewis. Offeryn cefnogi penderfyniadau yw Farmscoper i asesu a lleihau llygredd amaethyddol gwasgaredig. Fodd bynnag, mae gan Farmscoper gyfyngiadau yng nghyd-destun Cymru, gan fod y rhan fwyaf o'r rhagdybiaethau a'r data wedi'u teilwra i Loegr. Argymhellir defnyddio'r offeryn ochr yn ochr â dulliau eraill, ac efallai y bydd datblygwyr am ystyried dadansoddi dalgylchoedd tebyg yn Lloegr. - Rhaid i gyfrifiadau lleihau maethynnau hefyd ystyried nitrogen etifeddol o weithgarwch gwasgaru gwrtaith a thail blaenorol⁵².

⁵²Llywodraeth Cymru, 2025, Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026. Ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-disgrifiad-or-cynllun.html>

⁵³ Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). Diffiniad o goed a choetir. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/trees-woodlands-and-forests/definition-of-trees-and-woodland-for-forest-regulations/?lang=cy>

⁵⁴ [Farmscoper Tool - CaBA](#)

Perfformiad yn yr hirdymor	Hirhoedledd (gan gymryd y gellir sicrhau newid defnydd tir am byth trwy gytundebau Adran 106) a sicrwydd a ellir gwarantu gwaith monitro er mwyn cadarnhau bod hyn yn cael ei gynnal.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Nid yw canllawiau niwtraliaeth maethynnau CNC yn cymeradwyo newid defnydd tir ar raddfa dalgylch yn benodol er mwyn gwrthbwysu datblygiad dan Erthygl 6(3). O ganlyniad, byddai angen ystyried pob strategaeth liniaru sy'n ymwneud â newid defnydd tir fesul achos unigol. Fodd bynnag, gan gymryd bod y newid defnydd tir yn benodol i'r datblygiad dan sylw (h.y. nad yw'n rhan o waith adfer neu ddigolledu ehangach Erthygl 6(2)) a'i fod yn cael ei sicrhau a'i ariannu gan y datblygwr fel mesur lliniaru ar gyfer y datblygiad penodol, dylai'r dull gweithredu fod yn dderbyniol mewn egwyddor fel mesur lliniaru Erthygl 6(3). Mae enghreifftiau yn Lloegr ar gyfer safleoedd cynefinoedd morydol lle cafodd newid defnydd tir ei ddefnyddio'n llwyddiannus fel mesur lliniaru a'i sicrhau fel cytundeb Adran 106. Gellir mabwysiadu dull tebyg yng Nghymru trwy gytundeb Adran 106.

A.2 Mesurau rheoli amaethyddol



Ffigur A-2 Mesurau rheoli amaethyddol (megis plannu cnydau gorchudd)⁵⁵

Disgrifiad	Mae mesurau rheoli amaethyddol⁵⁰ yn golygu gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o wrtaith, gwella'r dull o reoli cnydau a phriddoedd, a rheoli tail yn fwy effeithiol er mwyn atal nitrogen rhag cyrraedd dyfrffyrdd. Nod yr arferion ffermio llai dwys hyn yw ceisio colli llai o nitrogen trwy drwytholchiad a dŵr ffo, tra bo cynhyrchiant y ffermio yn cael ei gynnal. Gellir ychwanegu cnydau gorchudd hefyd er mwyn lleihau erydiad pridd moel yn ystod y gaeaf. Mae'r ymyriadau hyn yn lleihau llwyth DIN trwy leihau neu ddileu mewnbynnau gwrtaitail/tail, cynyddu amsugniad gan blanhigion, cynyddu deunydd organig mewn pridd a gwella dadnitreiddiad, ac aflonyddu llai ar bridd⁴⁶. Mae hwn yn opsiwn lliniaru oddi ar y safle sy'n digwydd yn nalgylch ehangach y safle cynefinoedd dynodedig yr effeithir arno er mwyn creu diffyg maethynnau a fydd yn caniatáu i ddatblygiad fynd yn ei flaen.
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtralïaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Rhaid i ddatblygwyr gydymffurfio â'r gofynion allweddol canlynol: Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: yn rheoli newidiadau mewn arferion rheoli tir (e.e. lleihau neu greu mewnbynnau gwrtaitail/deunydd organig) – mae'n bosibl y bydd angen diweddariadau i fapiau risg a Chynllun Rheoli Maethynnau fferm.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Mae'r amser sy'n ofynnol cyn y bydd mesurau rheoli amaethyddol yn sicrhau buddion lliniaru maethynnau yn amrywio gan ddibynnu ar y dull gweithredu a ddewiswyd, ond yn gyffredinol gellir eu gweithredu yn y tymor byr i ganolog: Rhoi'r gorau i wasgaru gwrtaitail a thail / plannu cnydau gorchudd: Gellir gweithredu hyn yn gymharol gyflym, gan fod y prif fuddsoddiad o ran amser yn ymwneud â dod o hyd i berchnogion tir sy'n barod i gymryd rhan. Pan fydd gweithgarwch amaethyddol yn lleihau, bydd gostyngiadau mewn mewnbynnau maethynnau yn digwydd bron ar unwaith, yn enwedig yn

⁵⁵ Farmers Guide (2020). Bespoke cover crop solutions to improve soils. [Ar-lein] Ar gael yma: [Bespoke cover crop solutions to improve soils - Farmers Guide](#)

	ystod glawiadau. Nid oes angen buddsoddi mewn seilwaith na chael caniatâd cynllunio ar gyfer y dull hwn. Mae'n debyg y bydd defnydd o'r dull hwn yn dibynnu ar gylchdro cnydau a'r math o bridd⁵⁶.
Cyfradd gwaredu maethynnau	Mae effeithiolrwydd mesurau rheoli amaethyddol wrth geisio lleihau llwythi maethynnau yn amrywio yn ôl y math o ymyriad. Mae llenyddiaeth yn dangos y tueddiadau a'r gwerthoedd a ganlyn: Defnyddio gwrtaith/tail → Rhoi'r gorau i ddefnyddio: Fel arfer, potensial i waredu 17.31 i 21.38 kg TN/ha/y flwyddyn⁵⁰. Mae plannu cnydau gorchudd wedi arwain at ganlyniadau amrywiol. Canfu adolygiad yn crynhoi canlyniadau 16 astudiaeth fod cnydau gorchudd fel arfer yn lleihau colledion trwytholchi nitrogen rhwng 6% a 94%⁵⁷. Mae gostyngiad o 30% i 60% mewn colledion trwytholchi NO³ yn nodweddiadol yn y flwyddyn gyntaf wrth sefydlu⁵⁶. Yn ôl Royal Haskoning, disgwylir y bydd cyfradd waredu geidwadol o 30% yn cael ei chymhwyso ar gyfer cnydau gorchudd⁵⁰. O ystyried yr amrywioldeb uchel yn y canlyniadau hyn, dylai unrhyw gyfrifiad cyllideb maethynnau sy'n eu hymgorffori gymhwyso cyfradd ragofalus a rhaid darparu tystiolaeth benodol. Mae rhywfaint o ansicrwydd mewn cysylltiad â lliniaru maethynnau sy'n gysylltiedig ag arferion rheoli fferm amrywiol gan ei fod yn dibynnu ar ffactorau megis lleoliad, y math o bridd a glawiad. O ganlyniad, byddai angen casglu tystiolaeth fesul achos unigol mewn strategaeth lliniaru. Gallai chwistrellu nitrogen ar ddail cnydau, yn hytrach na gwasgaru pelenni yn uniongyrchol ar y ddaear, roi'r un buddion ond arwain at golli llawer llai o faethynnau i'r pridd / cyrsiau dŵr cyfagos⁵⁸.
Buddion ehangach	Gall mabwysiadu arferion rheoli amaethyddol fel strategaeth lliniaru ar gyfer DIN sicrhau nifer o gyd-fuddion ar wahân i leihau maethynnau, gan gynnwys: • Gwella bioamrywiaeth: Mae mesurau megis tyfu cnydau gorchudd, llai o drin tir, a llai o wrtaith yn creu cynefinoedd mwy amrywiol mewn tirweddau amaethyddol, gan gefnogi peillwyr, adar tir amaeth, a biota pridd, a chryfhau gwydnwch cyffredinol ecosystemau. • Gwaredu llygryddion ychwanegol: Gall gwell arferion rheoli tir leihau symudedd a chlodiant gwaddodion mewn daliant, agrocemegion, a llygryddion gwasgaredig eraill, gan wella ansawdd dŵr trwy well hidliad, dal gwaddodion, a llai o ddŵr ffo. • Gwelliannau i'r pridd a chnydau mwy cynhyrchiol: Mae arferion sy'n gwella strwythur pridd a chynnwys deunydd organig, megis tyfu cnydau gorchudd, llai o gywasgu, a rheoli maethynnau yn well, yn helpu i storio mwy o ddŵr a gwella iechyd pridd, sy'n gallu cefnogi systemau tyfu cnydau mwy gwydn a chyfrannu tuag at gynnyrch cnydau parhaus neu well dros gyfnod.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Yn amrywio, gan ddibynnu ar yr ymyriad. Yn achos cnydau gorchudd, er enghraifft, mae gwaith cynnal a chadw blynyddol yn cynnwys paratoi, plannu a thrin y cnydau, yn ogystal â'r gwaith bwriadol o waredu'r cnwd gorchudd ar ôl iddo gyflawni ei bwrpas⁵⁰.

⁵⁶ Newell Price, J., Harris, D., Taylor, M., Williams, J., Anthony, S., Deuthmann, D., Gooday, R., Lord, E., Cambers B., Chadwick, D., Misslebrook, T. (2011). An Inventory of Mitigation Methods and Guide to their Effects on Diffuse Water Pollution, Greenhouse Gas Emissions and Ammonia Emissions from Agriculture. Prosiect Defra WQ0106.

⁵⁷ Kaspar, T. C., a J. W. Singer. (2011). "The Use of Cover Crops to Manage Soil." Soil Management: Building a Stable Base for Agriculture, golygwyd gan J. L. Hatfield a T. J. Sauer, American Society of Agronomy & Soil Science Society of America, tt. 321–337.

⁵⁸ Cutress, D. (2022). Bwydo trwy'r dail nid y pridd: llwybr gwahanol i'r gwreiddiau. Cyswllt Ffermio. Busnes Cymru. <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/newyddion-digwyddiadau/erthyglau-technegol/bwydo-trwy'r-dail-nid-y-pridd-llwybr-gwahanol-i'r-gwreiddiau>

Cyfyngiadau/Pryderon	Byddai'r dull hwn yn cael effaith arwyddocaol ar gynnyrch cnydau ⁵⁶ . Mae'n bosibl hefyd y bydd pryderon yn ymwneud ag anhawster i gynnal yr arfer yn yr hirdymor.
Costau	Bydd costau sy'n gysylltiedig â lleihau gwrteithiau ar dir amaethyddol yn dibynnu ar gyfanswm y gwrtaith a ddefnyddir. Ar gyfer rhoi'r gorau i ddefnyddio gwrtaith yn gyfan gwbl, gellid disgwyl y costau a ganlyn: - Ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i ddefnyddio gwrteithiau mewn ffermio tir â, amcangyfrifir y bydd y gost o gwmpas £1,274.39/ha y flwyddyn⁵⁰. Mae hyn yn cynnwys arbedion mewn gwrtaith a llai o ddefnydd o beiriannau gwasgaru gwrtaith, ond costau uwch yn gysylltiedig â llai o gynnyrch/porthiant arall a phrofi pridd. O safbwynt incwm fferm, gallai rhoi'r gorau i ddefnyddio gwrtaith neu leihau defnydd o wrtaith yn sylweddol, fod yn fwy costeffeithiol na rhoi'r gorau i ddefnyddio tir at ddibenion cynhyrchu, gan ei fod yn osgoi costau gwrtaith ac yn cadw rhywfaint o incwm cnydau. Fodd bynnag, gallai'r gostyngiad mewn colledion nitrogen a fyddai'n digwydd o ganlyniad i hyn fod yn gyfyngedig, sy'n golygu y gallai newid defnydd tir gynnig mwy o gosteffeithiolrwydd pan fydd yn cael ei asesu ar sail lliniaru nitrogen fesul cilogram. - Disgwylir y bydd rhoi'r gorau i wasgaru gwrtaith/tail yn arwain at ostyngiad o tua 50%, mewn cynhyrchion tir â, a thua 30%, mewn cynhyrchion glaswelltir, ar sail cynnyrch glaswellt cyfartalog o 8 t/ha⁵⁰. Fodd bynnag, bydd yr effaith go iawn yn amrywio o'r naill fferm i'r llall gan ddibynnu ar ffactorau megis y mewnbynnau gwrtaith presennol, y math o bridd a'r cnydau a dyfir.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Byddai angen i gytundebau cyfreithiol nodi ym mhle y rhoddir y gorau i ddefnyddio gwrtaith ac am faint, a byddai gwiriadau monitro achlysurol yn ofynnol er mwyn gwirhau arferion ffermio a monitro lefelau maethynnau mewn dŵr ffo. Mae hyn yn debygol o olygu tri i bedwar ymweliad y flwyddyn, gan gynnwys rownd gychwynnol o gasglu samplau (gan ystyried newidiadau tymhorol) er mwyn sefydlu'r amodau sylfaenol ⁵⁰ .
Ystyriaethau ychwanegol	Dylai mesurau lliniaru roi blaenoriaeth i'r mathau o ffermydd sydd â'r cyfernodau allforio maethynnau uchaf, gan ddefnyddio offer asesu llwyth maethynnau cydnabyddedig i helpu i ddewis safleoedd. Dylai cyfrifiadau lleihau maethynnau hefyd ystyried nitrogen etifeddol o weithgarwch gwasgaru gwrtaith a thail blaenorol⁵⁰, a allai fod yn anodd i ddatblygwyr eu cael. Gall effeithiolrwydd arferion rheoli amaethyddol wrth geisio lleihau DIN amrywio o ganlyniad i ffactorau sy'n benodol i safleoedd, megis y math o bridd, hydroleg, amodau tywydd, a systemau cnydio, gan arwain at ansicrwydd ynglŷn â'r canlyniadau a ragwelir. Nid yw'r mesurau hyn yn barhaol yn eu hanfod ac maent yn dibynnu ar weithredu a chydymffurfio rheolaidd, ac mae angen contractau, cyllid a mecanweithiau llywodraethu er mwyn sicrhau mesurau lliniaru gydol oes datblygiad. Gall dangos tystiolaeth o sicrwydd effaith fod yn anodd hefyd gan fod gostyngiadau yn aml yn wasgaredig, yn anodd eu mesur yn uniongyrchol, ac yn gallu cymryd amser. Gallai pwysau allanol yn gysylltiedig â'r economi, polisïau a rheoli fferm hefyd effeithio ar gyflawniad hirdymor, ac mae posibilrwydd o ddadleoli neu ollwng os yw gostyngiadau'n cael eu gwrthbwysu yn rhywle arall.
Perfformiad yn yr hirdymor	Mae rhoi'r gorau i ddefnyddio gwrtaith yn cael ei ystyried yn fesur dros dro i'w ddefnyddio tra bydd atebion mwy hirdymor yn cael eu datblygu a'u gweithredu. Byddai rhoi'r gorau i ddefnyddio gwrtaith am gyfnod estynedig yn cael effeithiau tebyg i roi'r gorau i ffermio tir yn gyfan gwbl. Byddai plannu cnydau gorchudd hefyd yn cael ei ystyried yn fesur dros dro i'w ddefnyddio pan fyddai tir yn cael ei adael yn foel fel arall yn ystod y broses cylchdroi cnydau, gan eu bod yn cael eu defnyddio fel arfer naill ai cyn y prif

	gylch cynhyrchu neu ar ôl cynaeafu. Gellid sicrhau bod plannu crydau gorchudd yn digwydd am byth trwy gytundebau rheoli, yn enwedig lle mae tir ar les⁵⁰. Gan nad oes llawer o fecanweithiau i greu cytundebau rhwymol gyda pherchnogion tir, caiff y dull gweithredu hwn ei ystyried fel dull dros dro.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Nid yw canllawiau niwtraliaeth maethynnau CNC yn cymeradwyo defnyddio mesurau amaethyddol yn benodol er mwyn gwrthbwysu datblygiad dan Erthygl 6(3). O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen eglurhad pellach fesul achos unigol gyda CNC ynglŷn â sut y mae hyn yn golygu osgoi effaith ar gyfer datblygiad penodol yn hytrach na digolledu ar lefel dalgylch (Erthygl 6(2)). Er mwyn bod yn addas dan Erthygl 6(3) byddai angen dangos y byddai'r lliniaru yn cynyddu graddfa, maint, neu gwmpas mesurau adfer 6(2) posibl sydd wedi'u cynllunio (yn ychwanegol at yr hyn a fyddai wedi'i gyflawni fel arall).

A.3 Gwlyptiroedd trin



Ffigur A-3 Gwlyptir trin integredig Cromhall⁵⁹.

Disgrifiad


Mae gwlyptiroedd trin, a elwir hefyd yn wlyptiroedd adeiledig, yn systemau artiffisial sydd wedi'u dylunio er mwyn ail-greu'r prosesau ffisegol, cemegol, a biolegol sy'n digwydd mewn gwlyptiroedd naturiol. Maent wedi'u dylunio a'u rheoli mewn ffordd benodol i drin ffynhonnell dŵr sy'n cynnwys sylweddau annymunol⁶⁰. Gellir integreiddio'r systemau i'r dirwedd i ymdebygu i ecosystemau naturiol neu gellir eu hadeiladu fel seilwaith rheoli dŵr annibynnol.

Cyflwynir y prif fathau o wlyptiroedd trin yn Ffigur A-4, ac maent yn cynnwys:

- **Arwyneb dŵr rhydd (llif ar yr wyneb):** Mae dŵr yn llifo'n llorweddol uwchben yr is-haen.
- **Llif llorweddol o dan yr wyneb:** Mae dŵr yn symud trwy gyfrwng megis tywod neu raeon o dan yr wyneb.
- **Llif fertigol:** Mae dŵr yn teithio'n fertigol i lawr trwy'r gwlyptir a'i is-haen.
- **Llif fertigol Ffrengig:** Yn cynnwys dau gam, â phob cam yn cynnwys celloedd yn cael eu gweithredu bob yn ail.
- **Gwlyptiroedd arnofiol:** Gwlyptir adeiledig, lle mae dŵr yn llifo dros yr wyneb, a lle gwelir llystyfiant arnofiol dros y golofn ddŵr.
- **Gwlyptiroedd hybrid:** Yn cyfuno elfennau o nifer o wahanol fathau.

⁵⁹ Davey, A. (2022) 'Wessex Water research reveals environmental benefits of wetlands', *H2O Global News*, 8 Mehefin. Ar gael yma: <https://h2oglobalnews.com/wessex-water-research-reveals-environmental-benefits-of-wetlands/> (Cychwyd: 27 Tachwedd 2025).

⁶⁰ Natural England, 2022. Framework Approach for Responding to Wetland Mitigation Proposals.

	 Ffigur A-4 Mathau sylfaenol o wlyptiroedd trin. Yn bwysig iawn, mae dosbarthiad gwlyptir “trin” yn seiliedig ar y canlynol: • Ffynhonnell dŵr sefydlog neu gaeedig. • Mae ganddo risg isel o lefelau dŵr heb eu rheoli. • Mae wedi'i gynllunio i allu gwrthsefyll amodau sychder/llifogydd. • Mae ganddo ystod debygol hysbys o gyfraddau mewnllif, amser aros hydrologig ac ansawdd dŵr. O ganlyniad, nid yw gwlyptiroedd adeiledig ar gyfer y diben o drin dŵr o ddalgylch amaethyddol a fydd yn cael eu gyrru gan lawiad a'u dylanwadu gan ddefnydd tir er enghraifft, yn cael eu dosbarthu fel gwlyptir trin, ac mae manylion am y rhain fel ffordd o reoli maethynnau i'w gweld yn Adran 4.3. Yng Nghymru, mae gwlyptiroedd adeiledig yn dechrau cael eu hystyried fel opsiwn lliniaru, ac er eu bod yn gallu darparu buddion sylweddol o ran ansawdd dŵr, mae eu derbyniad mewn asesiadau niwtraliaeth maethynnau yn cael ei bennu ar hyn o bryd fesul achos unigol. Mae cynigion yn fwyaf tebygol o gael eu cefnogi lle maent yn trin ffynhonnell wedi'i diffinio'n glir, yn darparu gostyngiadau maethynnau mesuradwy ac yn cael eu cefnogi gan drefniadau monitro cadarn y cytunwyd arnynt gyda CNC. Yn Lloegr, mae dull fframwaith Natural England ar gyfer lliniaru gwlyptiroedd yn canolbwyntio ar fath “arwyneb dŵr rhydd” o wlyptir adeiledig⁶⁰. Mae'r wybodaeth a ganlyn wedi'i theilwra i'r math hwn o wlyptir adeiledig, tra mae Adran A.4 yn canolbwyntio ar fathau eraill o wlyptiroedd. Fodd bynnag, dylid nodi y cyfeirir at y dull hwn gan Natural England ar gyfer cyd-destun technegol yn unig, ac yng Nghymru nid yw CNC wedi cyhoeddi fframwaith cyfunol cyfatebol eto ac ar hyn o bryd mae cynigion yn cael eu hasesu fesul achos unigol. Mae canllawiau CNC i'w gweld yn Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwlyptiroedd a adeiladwyd ar gyfer gwella ansawdd dŵr
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer	Dylai datblygwyr gyfeirio at ganllawiau diweddaraf CNC ar gyfer gwlyptiroedd adeiledig: Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwlyptiroedd a adeiladwyd ar gyfer gwella ansawdd dŵr

niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Mae'r canllawiau'n nodi bod angen i wlyptiroedd trin, sydd wedi'u dylunio'n bennaf ar gyfer trin dŵr gael Trwydded Amgylcheddol, a allai ymwneud â gollwng dŵr gwastraff (i ddŵr wyneb neu ddŵr daear), neu'r ddau, gan ddibynnu ar amgylchiadau safleoedd penodol⁴⁹. Mae angen trwydded ar gyfer gwlyptiroedd adeiledig sy'n trin: • Elifion carthion wedi'u trin. • Elifion carthion heb eu trin (e.e. gorlif a ganiateir o garthffos gyhoeddus). • Dŵr halogedig o fwyngloddiau/gweithgareddau mwynol. • Elifion gwastraff wedi'u trin o waith gwastraff (e.e. triniaeth drydyddol elifion amaethyddol wedi'u trin). • Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio trwy'r Awdurdod Lleol.⁴⁹ Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i wneud cais am Drwydded Amgylcheddol yma: Gwneud cais am drwydded gollwng dŵr neu drwydded gweithgaredd dŵr daear O ran gwlyptiroedd adeiledig ar gyfer gweithgareddau amaethyddol, ni ellir trin elifion, hylifau a golchion a reoleiddir dan y ddeddfwriaeth berthnasol mewn gwlyptir adeiledig. Mae hyn yn cynnwys elifion silwair, slyri, ferandas unedau dofednod, iardiau casglu, mannau bwydo a golchion parlwr, plaladdwyr, bioladdwyr, gan gynnwys ardaloedd, offer a golchion sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r cynhyrchion hyn⁶⁸. Ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â gweithfeydd trin dŵr gwastraff, fel y rhai sy'n cael eu gweithredu gan Dŵr Cymru, rhaid i wlyptiroedd fodloni meini praww penodol, gan gynnwys cyfatebiaeth poblogaeth (PE) o lai na 2,000 er mwyn lleihau ôl troed, cydymffurfio â chyfyngiadau trwyddedau, ac ystyriaeth o gyfansoddiad elifion masnach⁶¹. Mae'n hanfodol adolygu sefyllfaoedd diweddaraf CNC a Dŵr Cymru wrth asesu addasrwydd gwlyptiroedd fel mesur lliniaru DIN. Ni ddylid lleoli gwlyptir adeiledig er mwyn gwella ansawdd dŵr mewn⁶²: • Parth Llifogydd 3. • Parth Gwarchod Ffynhonnell cyflenwad dŵr os yw'r elifion sydd wedi'u trin yn cael eu gollwng i'r ddaear ar ôl hynny. • Safle wedi'i ddynodi ar gyfer gwarchod natur neu oherwydd pwysigrwydd daearegol oni bai nad oes effaith niweidiol ar nodweddion dynodedig neu y gellir dangos ei fod yn achosi budd net arwyddocaol i nodweddion y safle. Hefyd, ni ddylid lleoli gwlyptir adeiledig ar y cynefinoedd blaenoriaeth presennol sydd wedi'u rhestru dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd⁶³. Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar ACA neu ardal warchodedig (fel yn achos y dalgylchoedd sy'n sensitif i faethynnau DIN) bydd angen HRA⁶⁴: • Darganfod a fydd eich gwlyptir ger ardal warchodedig • Darllen am HRA ar wefan Llywodraeth Cymru I grynhoi, mae'r gofynion rheoliadol ar gyfer gwlyptir trin y gallech fod eu hangen yn cynnwys:
--	---

⁶¹ Arcadis, 2024: <https://www.sirgar.llyw.cymru/media/stqdfxoe/carmarthenshire-nutrient-management-strategy-cymraeg.pdf>

⁶² Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwlyptiroedd a adeiladwyd ar gyfer gwella ansawdd dŵr (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/constructed-wetlands/constructed-wetlands-for-improving-water-quality/?lang=cy> (Cyrchwyd: 26 Tachwedd 2025).

⁶³ Llywodraeth y DU. (2016). Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ar gael yma: [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#). Mae cynefinoedd â blaenoriaeth sy'n cael eu hadolygu'n barhaus ar gael yma: [Adran 7 Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) Cynefinoedd daearol pwysig iawn | MapDataCymru](#)

⁶⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru / Beth i'w ystyried wrth gynllunio eich gwlyptir a adeiladwyd (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/constructed-wetlands/what-to-think-about-when-planning-your-constructed-wetland/?lang=cy> (Cyrchwyd: 26 Tachwedd 2025).

	• Gwneud cais am drwydded gollwng dŵr neu drwydded gweithgaredd dŵr daear • Caniatâd cynllunio gan eich awdurdod cynllunio lleol • Caniatâd rheoliadau adeiladu • Trwydded gweithgarwch perygl llifogydd • Trwydded tynnu dŵr neu gronni dŵr Yn ymarferol, gyda chynigion ar gyfer gwlyptiroedd adeiledig yng Nghymru yn aml iawn mae angen cydlynw ar draws nifer o systemau rheoleiddiol gan gynnwys cynllunio, trwyddedau amgylcheddol a HRA, a dylai datblygwyr fod yn ymwybodol y gall absenoldeb un llwybr caniatâd wedi'i symleiddio (o fis Mawrth 2026 ymlaen) effeithio ar amserlenni rhaglenni a chyflawni.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Cyn y gall lliniaru maethynnau ddigwydd, amcangyfrifir y bydd yn cymryd 1-2 flynedd i gwblhau cynllun gwlyptir trin ar gyfer gwaredu maethynnau oherwydd gofynion amrywiol yn ymwneud â dylunio, cynllunio, trwyddedu, ac adeiladu⁶⁵. Ar ôl comisiynu'r gwaith, er mwyn gwaredu maethynnau mae angen i llystyfiant a bioffilmiau (cymunedau o ficro-organebau, gan gynnwys bacteria a ffyngau, sy'n ymlynu wrth arwynebau) sefydlu eu hunain⁴⁹. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd angen ystyried cyflwyno datblygiad fesul cam, cael mesurau interim neu dybiaethau ceidwadol er mwyn sicrhau bod lliniaru'n effeithiol ar yr adeg pan fydd y datblygiad yn dechrau.
Cyfraddau gwaredu maethynnau	Mae gwaredu nitrogen mewn gwlyptiroedd yn broses fioddaearegemogol gan mwyaf, sy'n cynnwys gweithgarwch microbaidd ac amsugniad gan blanhigion. Mae Natural England yn credu bod gwlyptiroedd trin yn cynnig un o'r canlyniadau gorau fesul hectar o dir ar gyfer gwaredu maethynnau er bod hyn yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar ddyluniad y safle. Yn gyffredinol, mae mewnbynnau â llwyth maethynnau uwch i wlyptir yn darparu mwy o botensial ar gyfer lleihau maethynnau⁶⁵. Bydd amcanion dylunio gwlyptiroedd trin yng nghyd-destun niwtraliaeth maethynnau yn ymwneud â lleihad mewn crynodiad DIN, a fydd yn cael ei fynegi fel gostyngiad yn y llwyth cyffredinol (o fewnlif i all-lif) megis cilogramau o gyfanswm nitrogen yn cael eu gwaredu gan y gwlyptir bob blwyddyn⁶⁶. Gall gwlyptiroedd trin llif ar yr wyneb sicrhau cyfradd waredu o hyd at 80% ar gyfer TN⁴⁹ â dyluniad priodol. Mae gwlyptir integredig adeiledig Cromhall yn ardal wledig De Swydd Gaerloyw, safle treialu, wedi dangos gwarediad o >60% ar gyfer nitrogen a 62% ar gyfer amonia⁶⁷. Gall cyfradd gwaredu maethynnau gwlyptiroedd trin fod yn amrywiol iawn oherwydd ystod o baramedrau; maent yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: • Cemeg dŵr mewnlif (e.e. faint o faethynnau, carbon organig sydd yn y dŵr). • Faint o ddŵr sy'n llifo i'r gwlyptir dros gyfnod, y cyfeirir ato fel y gyfradd llwytho hydrolog. • Cynllun ffisegol y gwlyptir a geometreg y pwll (e.e. maint, cymhareb agwedd, siâp).

⁶⁵ Natural England (dim dyddiad) *Nutrient Neutrality and Mitigation: A summary guide and frequently asked questions - NE776, Natural England - Access to Evidence*. Ar gael yma: <https://publications.naturalengland.org.uk/publication/6248597523005440> (Cychwyd: 27 Tachwedd 2025).

⁶⁶ T.R.T. a Chymdeithas Gwlyptiroedd Adeiledig (2022) *Constructed Wetland Hub, ArcGIS StoryMaps*. Ar gael yma: <https://storymaps.arcgis.com/collections/6543a2f8de0348f683187ff268a79687> (Cychwyd: 26 Tachwedd 2025).

⁶⁷ Water Industry Journal (dim dyddiad). Mae Wessex Water wedi profi bod dewis arall sy'n seiliedig ar natur yn lle dosio â chemegion yn lleihau ffosfforws mewn dŵr gwastraff wedi'i drin. Ar gael yma: <https://www.waterindustryjournal.co.uk/wessex-water-has-proven-that-a-nature-based-alternative-to-chemical-dosing-reduces-phosphorus-in-treated-wastewater>

	- Sut mae'r dŵr yn symud trwy'r gwlyptir (h.y. amser aros⁶⁸, effeithlonrwydd hydrolig⁶⁹, mynd yn syth trwodd⁷⁰, cymysgu⁷¹, gwasgaru⁷², graddiannau cyflymder fertigol⁷³). - Dyluniad strwythurau hydrolig artiffisial (e.e. cyfluniad mewnf-a-llfa a'u nifer). - Oed/aeddfedrwydd y gwlyptir. - Math o waddod/pridd. - Rhywogaethau llystyfiant, gorchudd ffisegol, a dwysedd plannu. - Anifeiliaid yn byw yn y gwlyptir neu o'i amgylch. - Trefniadau rheoli a chynnal a chadw. - Yr hinsawdd a'r tymor. Yng nghyd-destun rheoleiddiol Cymru, mae'n debygol y bydd angen tybiaethau rhagofalus a thybiaethau ar gyfer safleoedd penodol, yn cael eu cefnogi gan gynigion monitro i ddangos perfformiad parhaus.
Buddion ehangach	Yn ogystal â chynnig dull o reoli DIN, gellir dylunio gwlyptiroedd trin i ddarparu'r buddion ehangach a ganlyn: - Aildddefnyddio dŵr. - Gwerth esthetig. - Lliniaru llifogydd. - Gwella bioamrywiaeth (cynnydd o hyd at 183% yn y gwerth o ran bioamrywiaeth o'i gymharu â chae amaethyddol â gwerth ecolegol isel⁷⁴). - Atafaelu carbon. - Cynhyrchu biomas. - Rheoli'r tymheredd. - Hamdden.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Rhaid i'r datblygwr allu dangos y capasiti i reoli, monitro a chynnal a chadw'r gwlyptir trin trwy ei oes⁶⁴. Mae angen rheoli gwlyptiroedd trin a ddefnyddir i liniaru DIN yn barhaus er mwyn cynnal perfformiad y dyluniad ac effeithlonrwydd gwaredu. Mae rheoli llystyfiant tymhorol (e.e. cynaeafu, clirio sbwriel) yn hanfodol, a dylai cynigion gynnwys cynlluniau cynnal a chadw sy'n rhoi sylw i'r anghenion hyn⁵¹. Mae ymyriadau cyfnodol, megis gwaredu gwaddod (efallai bob 5 i 10 mlynedd) a rheoli llystyfiant yn ôl eu cyfnodau twf tymhorol, yn helpu i atal gwlyptiroedd rhag newid o ddalfeydd maethynnau i ffynonellau maethynnau.⁵⁰ Dylai cynlluniau cynnal a chadw hefyd gynnwys cynnal a chadw strwythurau hydrolig a sefydlogrwydd gwelyau a glannau⁵⁰. Mae monitro parhaus yn hollbwysig er mwyn asesu effeithlonrwydd gwaredu maethynnau ac addasu systemau cynnal a chadw dros gyfnod, yn enwedig gan fod gwlyptiroedd yn ddarostyngedig i newidiadau tymhorol o ran amsugno a gwaredu maethynnau^{50,51}.

⁶⁸ Yr amser cyfartalog y mae parsel o ddŵr a DIN yn ei dreulio yn y gwlyptir.

⁶⁹ Mesur o allu gwlyptir i ddosbarthu llif yn gyfartal trwy'r cyfaint.

⁷⁰ Dŵr yn gadael cyn pryd oherwydd bod llwybrau cludiant feloseg uchel ffafriol wedi ffurfio.

⁷¹ Mae parseli dŵr mewn gwlyptir yn cyfnwedd ac yn homogoneiddio eu priodweddau ffisegol a chemegol.

⁷² Lledaeniad dŵr wrth iddo lifo trwy'r gwlyptir.

⁷³ Gwahaniaethau mewn felosedd dŵr ar wahanol ddyfnderoedd.

⁷⁴ Davies-Smith, A. (dim dyddiad) *Luton Integrated Constructed Wetland (ICW)*, Cyngor Sir Henffordd. Ar gael yma: <https://www.herefordshire.gov.uk/community/reducing-river-nutrients/luton-integrated-constructed-wetland-icw/>

Cyfngiadau/Pryderon	Mae cyfyngiadau mabwysiadu gwlyptiroedd trin fel dull o liniaru DIN yn cynnwys⁴⁹: - Mae angen llawer o dir ac mae hynny'n cynyddu'r gost. - Angen prif driniaeth/triniaeth eilaidd os bydd dŵr gwastraff brwnt yn cael ei drin. - Mae'r gwaith o ddylunio, adeiladu a chynnal a chadw gwlyptir adeiledig yn gymhleth. - Ni ddylai'r lefel trwythiad gyfagos gyrraedd yr arwyneb, a chynyddu cymhlethdod y broses o ddewis safle. Mae pryderon sy'n gysylltiedig â mabwysiadu gwlyptiroedd trin yn cynnwys^{49,50}: - Pryderon iechyd a diogelwch yn ymwneud â gordyfiant algâu, a'r posibilrwydd y bydd angen cyfyngu ar fynediad y cyhoedd o ganlyniad i hynny. - Cynefin posibl i fosgitos. - Perygl llifogydd ar y gwlyptir a'r tir cyfagos yn ystod glawiad eithafol neu oherwydd methiant strwythurol y gwlyptir⁷⁵. - Gall llystyfiant wedi gordyfu nad yw'n cael ei reoli, a phlanhigion yn pydru yn ystod tymhorau gwywo, ryddhau maethynnau yn ôl i'r dŵr, gan achosi llygredd eilaidd. Mae cynaeafu planhigion yn flynyddol yn un dull a ddefnyddir er mwyn atal ailryddhau maethynnau a chynnal effeithlonrwydd gwaredu dros gyfnod.																														
Ystyriaethau ymarferol	Manylir ynglŷn â'r ystodau nodweddiadol ar gyfer gwerthoedd paramedr wrth ddylunio gwlyptir trin ar gyfer gwaredu maethynnau yn fframwaith Natural England, ac maent wedi'u hailgrynhoi isod yn Nhabl 6-1. Tabl 6-1 Ystodau nodweddiadol Natural England i baramedrau dylunio gwlyptir trin ar gyfer gwaredu maethynnau⁶⁰. <table><tr><th>Paramedr</th><th>Lleiaf</th><th>Mwyaf</th><th>Nodweddiadol</th><th>Nodiadau</th></tr><tr><td>Dyfnlder (m)</td><td>0.1</td><td>0.3</td><td>0.15</td><td>Dylai dyfnlder y dŵr fod yn sefydlog trwy gydol y flwyddyn</td></tr><tr><td>Lled:Hyd</td><td>-</td><td>-</td><td>1:2 neu 1:3</td><td>Yr amrediad delfrydol yw 1:2 i 1:3</td></tr><tr><td>Nifer y celloedd</td><td>2</td><td>-</td><td>2-5</td><td>Dylid osgoi systemau un gell</td></tr><tr><td>Amser aros hydrologig (oriau)</td><td>8</td><td>-</td><td>12-24</td><td>Os <12 awr gallai'r dyluniad fod yn ddiffygiol</td></tr><tr><td>N yn yr is-haen (mg/kg)</td><td>-</td><td>1000</td><td></td><td>Os yw'r samplau pridd cynrychioladol yn fwy na hyn efallai y bydd angen mesurau lliniaru er mwyn atal llygredd.</td></tr></table> Mae'r gwaith o ddylunio gwlyptir yn cael ei wneud yn bennaf gan ddylunwyr arbenigol, ond mae canllaw dylunio manwl ar gael sydd wedi cael ei adolygu gan y Gymdeithas Gwlyptiroedd Adeiledig a'i ariannu'n rhannol gan Natural England⁶⁶. Mae CNC yn argymhell y dylid defnyddio ymgynghorydd achrededig, ond mae'n nodi y dylid bodloni safonau dylunio priodol sy'n ymwneud â'r canlynol: - Gallu i ddiwallu'r anghenion trin dŵr a/neu storio dŵr. - Arafu a storio dŵr er mwyn sicrhau'r amseroedd aros hydrologig gofynnol.	Paramedr	Lleiaf	Mwyaf	Nodweddiadol	Nodiadau	Dyfnlder (m)	0.1	0.3	0.15	Dylai dyfnlder y dŵr fod yn sefydlog trwy gydol y flwyddyn	Lled:Hyd	-	-	1:2 neu 1:3	Yr amrediad delfrydol yw 1:2 i 1:3	Nifer y celloedd	2	-	2-5	Dylid osgoi systemau un gell	Amser aros hydrologig (oriau)	8	-	12-24	Os <12 awr gallai'r dyluniad fod yn ddiffygiol	N yn yr is-haen (mg/kg)	-	1000		Os yw'r samplau pridd cynrychioladol yn fwy na hyn efallai y bydd angen mesurau lliniaru er mwyn atal llygredd.
Paramedr	Lleiaf	Mwyaf	Nodweddiadol	Nodiadau																											
Dyfnlder (m)	0.1	0.3	0.15	Dylai dyfnlder y dŵr fod yn sefydlog trwy gydol y flwyddyn																											
Lled:Hyd	-	-	1:2 neu 1:3	Yr amrediad delfrydol yw 1:2 i 1:3																											
Nifer y celloedd	2	-	2-5	Dylid osgoi systemau un gell																											
Amser aros hydrologig (oriau)	8	-	12-24	Os <12 awr gallai'r dyluniad fod yn ddiffygiol																											
N yn yr is-haen (mg/kg)	-	1000		Os yw'r samplau pridd cynrychioladol yn fwy na hyn efallai y bydd angen mesurau lliniaru er mwyn atal llygredd.																											

⁷⁵ Rural sustainable drainage systems (RSuDS) (2012). Bryste: Asiantaeth yr Amgylchedd.


	• Maint. • Effeithiau tymhorol. • Perygl o ollwng i'r ddaear o'r gwlyptir, neu yn ystod y gwaith o'i adeiladu. Dylid osgoi hyn. • Angen gwaith cynnal a chadw. • Creu cynefinoedd. • Gofynion deddfwriaeth neu ganiatâd arall. Lle bo hynny'n bosibl, bydd datblygwyr yn blaenoriaethu mesurau ar y safle i leihau DIN cyn ystyried y defnydd o wlyptir adeiledig.
Costau	Ystyrir bod gan wlyptiroedd trin gostau sefydlu uchel ond perfformiad effeithiol⁷⁵. 44.82 i £72.24 fesul m³ o bosib o gyfaint wedi'i drin (costau o 2015)⁶¹.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Yn ôl Natural England, ni all gwlyptiroedd trin gynhyrchu credydau maethynnau (yn Lloegr) oni bai fod eu dyluniad yn seiliedig ar ddull cymeradwyedig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o gyfrifo faint o faethynnau sydd wedi'u gwaredu. Ar hyn o bryd, nid yw Cymru yn gweithredu system fasnachu credyd maethynnau ffurfiol, ac mae gwlyptiroedd adeiledig felly yn fwy tebygol o gael eu hystyried fel mesur lliniaru pwrpasol/fesul achos unigol sy'n gysylltiedig â gollyngiadau penodol yn hytrach na chynlluniau cynhyrchu credyd. Er hyn, byddai'r dull seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyfrifo faint o faethynnau sydd wedi'u gwaredu yn gymwys o hyd. Mae'n hanfodol ystyried mewnlifau a llwythi maethynnau yn ystod y cam dylunio a hefyd trwy gydol oes weithredol y gwlyptir. Mae hyn yn cynnwys ystyried cyfnodau o berfformiad is, megis amrywiadau tymhorol neu golli effeithlonrwydd gwaredu dros dro. Gan fod y gwaith o bennu nodweddion llifau a llwythi yn gywir yn gymhleth iawn, mae monitro ôl-weithredol yn hanfodol. Gallai dangos potensial gwaredu maethynnau llawn gwlyptir gymryd mwy nag 1 i 3 blynedd, gan fod perfformiad yn sefydlogi dros gyfnod⁷⁶.
Perfformiad yn yr hirdymor	Nid yw effeithlonrwydd gwaredu maethynnau gwlyptir adeiledig yn gyson ac fel arfer mae'n mynd i fyny ag i lawr gyda newidiadau tymhorol. At ei gilydd mae cyfraddau gwaredu yn is yn yr hydref a'r gaeaf gan fod llai o weithgarwch biolegol ac yn uwch yn y gwanwyn a'r haf pan fydd yr amodau'n ffafriol i dwf planhigion a phrosesau microbaidd. Mae'r corff o dystiolaeth ar berfformiad hirdymor yn gyfyngedig o hyd, gydag ychydig o astudiaethau'n asesu effeithlonrwydd gwaredu maethynnau y tu hwnt i gyfnod gweithredol o 10 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r ymchwil sydd ar gael yn awgrymu y gellir cynnal perfformiad ar lefel optimaidd ag amserlen gynnal a chadw gadarn a chyson⁷⁴. Mae astudiaethau blaenorol yn awgrymu y gall effeithlonrwydd triniaeth ddirywio'n sylweddol heb waith cynnal a chadw. Dros bum mlynedd, disgynnodd effeithlonrwydd gwaredu maethynnau 80.5% mewn gwlyptir integredig adeiledig yn Norfolk yn y DU⁷⁷. Mae CNC yn argymhell y dylai dyluniadau gwlyptiroedd adeiledig fod yn rhagofalus wrth gyfrifo'r gyfradd gwaredu maethynnau ac wrth fesur y gwlyptir. Bydd yn bwysig dangos sut mae ffynhonnell mewnlif y gwlyptir adeiledig yn gysylltiedig â'r datblygiad, cyfrifo llwyth maethynnau sy'n cyrraedd ac yn gadael gwlyptir, bod yn geidwadol â thybiaethau am berfformiad, a datblygu cynllun

⁷⁶ [MSRFIN~1.PDF](#)

⁷⁷ Dykes, C., Pearson, J., Bending, G., Abolfathi, S., 2025. Impact of seasonal climate variability on constructed wetland treatment efficiency. Journal of Water Process Engineering 72, 107350. <https://doi.org/10.1016/j.jwpe.2025.107350>

	rheoli gwaith monitro a chynnal a chadw y gellir ei addasu. Gallai meysydd lle mae ansicrwydd ddylanwadu ar y ffordd y caiff gwlyptiroedd eu trin mewn HRA, gan atgyfnerthu'r angen am brosesau monitro ac adolygu cadarn. Dylai gwaith monitro parhaus nodi unrhyw berfformiad gwael yn gynnar fel bod modd rhoi cynllun rheoli y gellir ei addasu ar waith.⁶² Dylai'r cynigion cynnal a chadw amlinellu rolau a chyfrifoldebau yn glir, a dylid sicrhau proses fonitro ac adolygu gadarn trwy gydol oes y gwlyptir adeiledig.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Gellid defnyddio gwlyptiroedd adeiledig fel dull lliniaru dan Erthygl 6(3), â chynsail yn Lloegr. Fodd bynnag, nid oes llwybr cydsynio rheolaidd wedi'i sefydlu yng Nghymru fel bod modd dibynnu ar wlyptir adeiledig fel mesur lliniaru niwtraliaeth maethynnau dan Erthygl 6(3), felly bydd addasrwydd gwlyptiroedd yn cael ei ystyried gan awdurdodau lleol a CNC fesul achos unigol. Anogir datblygwyr i adolygu canllawiau CNC ar gyfer Gwlyptir a Adeiladwyd a gofyn am gyngor cyn cais yn gynnar: Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwlyptiroedd a adeiladwyd ar gyfer gwella ansawdd dŵr

A.4 Gwlyptiroedd eraill



Ffigur A-5 Mathau sylfaenol o greu gwlyptir arall.

Disgrifiad	Mae gwlyptiroedd nad ydynt yn wlyptiroedd trin, neu wlyptiroedd “ffynhonnell agored”, yn nodweddion gwlyptir adeiledig sy’n gwella ansawdd dŵr heb fewnlif sy’n cael ei reoli neu ei fesur. Mae’r gwlyptiroedd hyn fel arfer yn rhyng-gipio dŵr ffo gwasgaredig o dir amaethyddol neu ardaloedd trefol, ac yn aml iawn, o ganlyniad, maent yn cael eu hintegreiddio i gynlluniau SuDS neu gynlluniau adfer cynefin, gan gynnwys nodweddion megis: • Pantiau. • Gwlyptiroedd mewn ffosydd. • Pyllau dŵr. • Ailgysylltu gorlifdir. Er bod y gwlyptiroedd hyn yn gallu cyfrannu tuag at ddargadw maethynnau, mae eu diffyg mewnlif dŵr a reolir ac ansicrwydd ynglŷn â phrosesau gwaredu maethynnau yn cyfyngu ar eu haddasrwydd ar gyfer cyfrifiadau niwtraliaeth maethynnau ffurfiol⁶⁰. Os yw’r gwlyptir wedi’i ddylunio gan ystyried y llif a’r llwythi, ac y bydd yn derbyn dŵr mewn ffordd a reolir (ac y gellir ei mesur), gellir ei ystyried yn wlyptir trin. Gweler Adran 5.2.3. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn gynnwys gwlyptiroedd SuDS os ydynt wedi’u dylunio’n briodol ac os gellir mesur faint o faethynnau sy’n cael eu hamsugno. Mae gwlyptiroedd nad ydynt yn wlyptiroedd trin yn wahanol gan fod eu hydroleg yn fwy amrywiol ac ansicr ac mae’r gallu i reoli mewnlif dŵr a lefelau dŵr yn llawer mwy heriol. Fodd bynnag, gellir dylunio, creu, neu adfer y gwlyptiroedd hyn fel rhan o strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli maethynnau yn yr amgylchedd dyfrol, ac o ganlyniad maent yn werth eu cynnwys a’u hystyried er mwyn darparu rhagor o fudd o safbwynt maethynnau (a’r amgylchedd ehangach) i safleoedd datblygu mwy.
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i’r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer	Ar gyfer gwlyptiroedd a ddefnyddir i drin dŵr glaw sy’n llifo oddi ar adeiladau lle cedwir da byw dan do, â fentiau to a/neu draciau a ddefnyddir gan dda byw, bydd angen gwneud cais am Drwydded Amgylcheddol: Gwneud cais am drwydded gollwng dŵr neu drwydded gweithgaredd dŵr daear

niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Os yw'r gwlyptir yn nodwedd rheoli llifogydd naturiol, dylai'r datblygwr fabwysiadu arferion gorau gan CIRIA⁷⁸. Mae'n bosibl y bydd angen caniatadau eraill, megis: Trwydded gweithgarwch perygl llifogydd Os yw'r gwlyptir yn rhan o drên rheoli SuDS, rhaid iddo gydymffurfio â'r safonau cenedlaethol statudol (gweler hefyd yr adrannau yn nes ymlaen ar SuDS): Cyngor Llywodraeth Cymru ar SuDS Ni ddylid lleoli gwlyptiroedd ar y cynefinoedd blaenoriaeth presennol sydd wedi'u rhestru dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd ⁷⁹. Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar ACA neu ardal warchodedig bydd angen HRA⁸⁴: • Darganfod a fydd eich gwlyptir ger ardal warchodedig • Darllen am HRA ar wefan Llywodraeth Cymru
Amser nes bydd yn Effeithiol	Ar gyfer gwlyptiroedd sy'n trin dŵr ffo amaethyddol, dyma'r rhai sy'n debygol o fod y lleiaf cymhleth o ran dyluniad, cynllunio, a thrwyddedu, sy'n eu gwneud yn gymharol gyflym i'w gweithredu⁸⁰, yn enwedig mewn cymhariaeth â gwlyptiroedd trin. Mae gwaredu maethynnau yn dechrau ar ôl i llystyfiant sefydlu, sef y prif fecanwaith ar gyfer amsugno maethynnau.
Cyfraddau gwaredu maethynnau	Newidiol iawn gan ei bod yn dibynnu ar ddyluniad, nodweddion mewnllif, a chynnal a chadw. Ar hyn o bryd nid oes cyfradd waredu safonol y gellir ei rhagdybio heb fonitro.
Buddion ehangach	Yn debyg i wlyptiroedd trin, gellir dylunio'r gwlyptiroedd hyn i ddarparu'r buddion ehangach a ganlyn: • Ailddefnyddio dŵr. • Gwerth esthetig. • Lliniaru llifogydd. • Gwella bioamrywiaeth (cynnydd o hyd at 183% yn y gwerth o ran bioamrywiaeth⁷⁴). • Atafaelu carbon. • Cynhyrchu biomas. • Rheoli'r tymheredd. • Hamdden.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Mae'r gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli yn debygol o gynnwys: • Gosod a chynnal a chadw basn waddodi neu ddyfais gwaredu yn uwch i fyny'r afon er mwyn atal gwaddodion rhag crynhoi⁸⁰. • Gwagu trapiau gwaddodion bob 1–2 flynedd. • Rheoli a chynaeafu llystyfiant o bosibl er mwyn cynnal amsugniad maethynnau a pherfformiad hydrolog⁸⁰.
Cyfyngiadau/Pryderon	Mae'r cyfyngiadau a'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r ystod hon o wlyptiroedd yn cynnwys y canlynol: • Diffyg mewnllif a reolir yn gwneud gwaredu maethynnau yn anrhagweladwy.

⁷⁸ Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwlyptiroedd a adeiladwyd ar gyfer arafu a storio dŵr (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://naturalresourceswales.gov.uk/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/constructed-wetlands/constructed-wetlands-for-slowing-and-storing-water/?lang=cy> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).


⁷⁹ Llywodraeth y DU. (2016). Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ar gael yma: [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#). Mae cynefinoedd â blaenoriaeth sy'n cael eu hadolygu'n barhaus ar gael yma: [Adran 7 Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) Cynefinoedd daearol pwysig iawn | MapDataCymru](#)

⁸⁰ Bradley, J, Haygarth, P, Stachyra, K a Williams, P (2022) Using SuDS to reduce phosphorus in surface water runoff. C808, CIRIA, Llundain, y DU.

	• Perfformiad yn sensitif i amrywiad tymhorol a stormydd. • Risg y bydd gwaddodion yn crynhoi yn lleihau cyfaint a gweithrediad gwlyptir.
Costau	Costau cyfalaf is na gwlyptiroedd trin ond yn newidiol, gan ddibynnu ar faint, cloddio, plannu, a chaffael tir. Costau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer gwaredu gwaddodion a rheoli llystyfiant.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Yn wahanol i wlyptiroedd trin (gweler Adran A.3), ni ellir hawlio buddion o ran maethynnau ar sail dyluniad yn unig. Mae lleihau maethynnau yn bosibl drwy berfformiad wedi'i fonitro neu ddealltwriaeth o lwyth maethynnau gan y defnydd tir yn yr ardal dan sylw ⁶⁰ . Mae gwlyptiroedd trin yn cynnig mwy o sicrwydd am byth.
Ystyriaethau ychwanegol	Ymgysylltu cynnar â rheoleiddwyr ar gyfer cydymffurfiaid â HRA a SuDS. Ystyried integreiddio ag enillion net bioamrywiaeth ac amcanion adfer natur.
Perfformiad yn yr hirdymor	Mae perfformiad yn mynd i fyny ac i lawr gyda newidiadau tymhorol, ag effeithlonrwydd gwaredu is yn yr hydref/gaeaf ac uwch yn y gwanwyn/haf.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Ar hyn o bryd nid oes llwybr cydsynio rheolaidd wedi'i sefydlu yng Nghymru ar gyfer gwlyptir adeiledig y gellir dibynnu arno fel mesur lliniaru niwtraliaeth maethynnau dan Erthygl 6(3). Caiff addasrwydd gwlyptiroedd ei ystyried gan awdurdodau lleol fesul achos unigol.

A.5 SuDS trefol

Mae hyn yn cynnwys ôl-osod SuDS mewn datblygiadau sy'n bodoli'n barod.



Ffigur A-6 Diagram o rai SuDS trefol.

Disgrifiad

Er mis Ionawr 2019, rhaid i bob datblygiad newydd yng Nghymru sy'n cynnwys mwy nag un adeilad neu sydd ag arwynebedd adeiladu o 100 m² neu fwy, gynnwys SuDS ar gyfer dŵr wyneb⁸¹. Dyma ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ac mae'r manylion i'w gweld yn Atodlen 3 o [Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#).

Mae SuDS yn derm ambarél ar gyfer ystod o fesurau lliniaru a ddyluniwyd er mwyn rheoli dŵr ffo trefol sy'n llifo dros yr wyneb mewn safle datblygu trwy efelychu prosesau draenio naturiol. O ganlyniad, maent yn fesur lliniaru ar safle. Mae SuDS yn ceisio lleihau cyfaint a chyflymder dŵr ffo sy'n ymuno â chyrsiau dŵr, a thrwy hynny leihau perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr. Maent yn cyflawni hyn drwy arafu llif, hybu gwaddodi, ac annog ymdreiddiad, gan ganiatáu i ddŵr glaw dreiddio i'r ddaear yn agos at y man lle mae'n disgyn⁵⁰.

Mae llawer o SuDS yn cynnig budd o ran ansawdd dŵr a gallant drin a gwaredu maethynnau drwy waddodiad, hidliad, arsugniad, cymathiad a phrosesau microbaidd (gan hybu nitreiddiad/dadnitreiddiad). Mae'r prif enghreifftiau o SuDS trefol yn cynnwys:

- **Gwlyptiroedd** (gweler Adrannau A.3 ac A.4).
- **Basnau a phyllau dŵr**: pantiau agored yn y dirwedd sy'n storio ac yn trin dŵr yn naturiol⁸².
- **Lleiniau hidlo, pantiau a ffosydd**: defnyddio llystyfiant i hidlo a rheoli llif⁸⁷.
- **Suddfannau dŵr a basnau ymdreiddio**: Nodweddion dylunio sy'n caniatáu i ddŵr ymdreiddio i'r ddaear⁸⁷.
- **Draeniau hidlo, arwynebau hydraid, toeau gwyrdd, ardaloedd bioddargadw**: Yn gadael i ddŵr dreiddio trwy arwyneb hydraid i strwythur gwag oddi tano er mwyn caniatáu glanhau, storio a rhyddhau dan reolaeth⁸⁷.

⁸¹ Dŵr Cymru. (dim dyddiad) Systemau Draenio Cynaliadwy, Dŵr Cymru. Ar gael yma: <https://developers.dwrcymru.com/cy-gb/help-advice/regulation-to-be-aware-of/sustainable-drainage-systems> (Cyrchwyd: 16 Rhagfyr 2025).

⁸² Sustainable surface water drainage (dim dyddiad) Anglian Water Services. Ar gael yma: <https://www.anglianwater.co.uk/developing/drainage-services/sustainable-drainage-systems/> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

	Gellir gwella SuDS ymhellach drwy hidlyddion cyfryngau cyfradd uchel neu eu gweithredu ar y cyd â mesurau perchnogol fel gwahanwyr fortects hydrodynameg. • Hidlyddion cyfryngau cyfradd uchel: Deunyddiau a ddefnyddir mewn systemau hidlo i waredu nitrogen gormodol o ddŵr ffo storm trwy brosesau megis amsugniad ac arsugniad. • Gwahanwyr fortects hydrodynameg a gwahanwyr olew/dŵr: Mae Llawlyfr SuDS CIRIA C753 yn nodi y dylid cynnwys dyfais gwaredu gwaddodion fel y rhain yn uwch i fyny na phwll dŵr neu fasn dargadw.
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Mae angen i'r rhai sy'n bwriadu datblygu cynlluniau SuDS ystyried ystod o ddeddfwriaethau, polisïau a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys y canlynol: • Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio defnydd tir ac mae'n cael ei gefnogi gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Dan Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006)⁸³, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ei chyfrifoldebau⁸⁴. • Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn amlinellu cynigion a pholisïau ar gyfer defnyddio tir yn ardaloedd ACLI Gorllewin Cymru yn y dyfodol. • Rhaid i ddatblygwyr gael cymeradwyaeth ar gyfer eu systemau draenio gan Gorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) yn annibynnol ar gymeradwyaeth cynllunio cyn y gall gwaith adeiladu ddechrau⁸⁵. • Rhaid dylunio ac adeiladu SuDS yn unol â safonau cenedlaethol statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer SuDS⁸⁶. Gallai rhai SuDS gyflwyno risg amgylcheddol. Er mwyn lliniaru hyn mae'n bosibl y bydd angen i'r datblygwr gael trwyddedau a chydysyniadau gan CNC⁸⁶. Gall y rhain gynnwys: • Cydsyniad draenio tir • Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd Gweler sut i gydymffurfio â'r safonau draenio cynaliadwy i gael rhagor o wybodaeth. Dylai pob trwydded a chydysyniad fod yn ei le cyn gofyn am gymeradwyaeth gan y SAB⁸⁶.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Mae amser nes bydd yn effeithiol yn amrywio yn ôl y math o SuDS. Mae ar systemau sy'n dibynnu ar lystyfiant angen amser i blanhigion sefydlu cyn y byddant yn gallu gwaredu maethynnau yn llawn, tra bydd mesurau â strwythurau solet megis arwynebau hydraiddd yn effeithiol ar unwaith.
Cyfraddau gwaredu maethynnau	Mae canllawiau CNC yn nodi bod rhagdybiaeth ar gyfer pob datblygiad bod dŵr glaw yn cael ei gadw ar wahân i ddŵr gwastraff brwnt a'i ollwng yn unol â chanllawiau cynllunio ar waredu dŵr glaw. Felly, ni ddylid halogi gollyngiadau dŵr wyneb newydd â dŵr brwnt neu lygryddion. At ddibenion cyfrifo cydbwysedd maethynnau, ni fyddai angen felly ystyried gollyngiadau dŵr wyneb fel ffynhonnell maethynnau (gweler Adran 2.6). Fodd bynnag, gellir eu hystyried er enghraifft wrth ystyried y manteision posibl y gellid eu cyflawni trwy ddefnyddio SuDS fel rhan o gynnig datblygu.

⁸³ Llywodraeth y DU (2006). Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/79>

⁸⁴ England and Wales (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://www.susdrain.org/delivering-suds/using-suds/legislation-and-regulation/england-and-wales.html> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

⁸⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru / Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) (dim dyddiad). Ar gael yma:

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-developers/sustainable-drainage-systems-suds/?lang=cy> (Cyrchwyd: 26 Tachwedd 2025).

⁸⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru / Sut i gydymffurfio â'r Safonau Draenio Trefol Cynaliadwy (dim dyddiad). Ar gael yma:

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/advice-for-developers/how-to-comply-with-sustainable-drainage-systems-standards/?lang=cy> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

	Pan fo datblygwyr yn ceisio defnyddio SuDS fel mesurau lliniaru dan Erthygl 6(3), bydd y drafodaeth ganlynol yn berthnasol. Y prosesau a'r cyfraddau gwaredu maethynnau dangosol ar gyfer cydrannau SuDS cyffredin yn seiliedig ar Ddewislen Mesurau Lliniaru CNC yw:⁸⁷ Basnau dargadw a phyllau dŵr: - Mae'r lliniaru'n digwydd trwy addasu microbaidd ac amsugniad gan blanhigion ar gyfer twf.⁸⁷ - Cyfanswm nitrogen o oddeutu 90% ar gyfer basn gadw. Sianeli gwlyptir a phantiau: - Gall gweithgarwch microbiologol aerobig mewn priddoedd dorri'r amonia i lawr i nitradau, a bydd planhigion yn defnyddio'r nitradau ar gyfer twf.⁸⁷ - Cyfanswm nitrogen o oddeutu 50% ar gyfer pantiau. Parthau bioddargadw a gerddi glaw: - Dal malurion organig yn hybu bioddiraddiad microbaidd ac yn galluogi planhigion i amsugno nitradau.⁸⁷ Arwynebau hydraidd: - Nid yw palmantau athraidd wedi'u gwneud o flociau concrid yn gwaredu nitrogen yn ddibynadwy o ddŵr storm. Mae arwynebau athraidd wedi'u gorchuddio â glaswellt yn darparu gwell triniaeth.⁸⁷ - Cyfanswm nitrogen o oddeutu 70-80% ar gyfer arwynebau hydraidd. Lleiniau hidlo: - Oddeutu 10% (ar ffurf nitradau). Hidlyddion cyfryngau cyfradd uchel: - Rhaid profi eu perfformiad, a rhaid cyflwyno canlyniadau'r profion i gael eu harchwilio cyn y gellir pennu'r effeithlonrwydd gwaredu sy'n cael ei ddatgan ar eu cyfer i'r ddyfais a'u cynnwys yn y cyfrifiadau niwtraliaeth maethynnau.⁸⁷ Mae cyngor CIRIA C815 ar ddefnyddio SuDS i leihau nitrogen mewn dŵr wyneb ffo yn nodi y gall trenau trin cyfunol sicrhau gostyngiadau mesuradwy mewn nitrogen, ag enghreifftiau'n dangos canran waredu TN o tua 30% pan ddefnyddir nifer o gydrannau SuDS mewn dilyniant⁸⁷. Mae'r trenau trin a gynghorir yn cynnwys⁸⁷: - Pyllau dŵr → Dyfeisiau bioadfer. - Dyfeisiau ymdreiddiad wedi'u leinio → pwll dŵr. - Dyfeisiau gwaddodion wedi'u gweithgynhyrchu a/neu bwl dŵr → hidliad cyfryngau. Dylai gwerthoedd sy'n cael eu mabwysiadu gan ddatblygwyr fod yn rhagofalus a chynnwys tystiolaeth briodol, ac felly ystyrir bod dilyn y canllawiau a amlinellir yn CIRIA C815 yn arfer da.
Buddion ehangach	Mae'r diffiniad o ddraenio cynaliadwy sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth a'r safonau statudol ill dau'n nodi bod angen i SuDS gyflawni mwy na dim ond rheoli cyfaint dŵr wyneb.⁸⁸ O ganlyniad, rhaid i'r gwaith dylunio a chyflawni nodi sut ac os bydd cynnig SuDS yn darparu nifer o fuddion⁸⁹.

⁸⁷ Using SuDS to reduce nitrogen in surface water runoff C815F (dim dyddiad). Ar gael yma: https://www.ciria.org/CIRIA/Books/Free_publications/C815F.aspx (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

⁸⁸ Canllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy. Ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/canllawiau-statudol.pdf>

⁸⁹ Gweler paragraff 2 o Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

	Mae buddion ychwanegol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu SuDS fel dull o liniaru DIN yn cynnwys⁹⁰: • Llai o erydiad i gyrsiau dŵr sy'n derbyn. • Cyfrannu tuag at gydymffurfiaid â'r WFD ar gyfer ansawdd dŵr mewn cyrsiau dŵr sy'n derbyn. • Gwella gwerth amwynderol datblygiad arfaethedig. • Cyfrannu tuag at amcanion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a datblygu cynaliadwy yn gyson â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. • Cyfrannu tuag at iechyd a lles y rhai sy'n defnyddio datblygiad trwy fynediad at fan gwyrdd. • Rheoli perygl llifogydd lleol sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd. • Llai o effaith ynys gwres trefol trwy gysgodi a sychdarthu, anweddu a thrydarthu⁹¹. • Gall rhai elfennau o SuDS (e.e. coed, pantiau, basnau) gael effaith gadarnhaol ar ansawdd aer lleol.⁹² • Byffro sŵn⁹³. • Cefnogi gwydnwch datblygiad rhag newid hinsawdd trwy ddarparu ar gyfer arafu llif yn y dyfodol trwy ddyluniad priodol.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Mae'r gofynion cynnal a chadw yn dibynnu ar y nodwedd, ond gallant gynnwys: • Dadsiltio. • Tocio tymhorol a chlirio llystyfiant. • Gwaith tymhorol i glirio sbwriel a gweddillion. • Archwiliad gweledol (blynyddol). • Argymhellir monitro ansawdd dŵr yn y fewnfa a'r allfa. Mae angen clirio silt a gweddillion oddi ar balantau athraidd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n athraidd. Y cyngor presennol yw ysgubo'r arwyneb o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Dylid clirio tyfiant chwyn bob 3 mis a dylid cael proses fonitro barhaus ar gyfer gweithrediad gwael⁹⁴. Os caiff cyfryngau hidlo eu cynnwys mewn trenau trin SuDS, sy'n gallu darparu cyfraddau gwaredu nitrogen uchel, mae'n debyg y bydd angen newid y cyfryngau o bryd i'w gilydd. Mae'r graddfeydd amser ar gyfer eu newid yn dibynnu ar y cynnyrch dan sylw.
Cyfyngiadau/Pryderon	Mae'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â SuDS trefol yn cynnwys: • Argaeledd tir. • Diffyg ymchwil i effeithlonrwydd gwaredu maethynnau llawer o ddulliau. • Yr amgylchedd trefol yn cyfyngu ar y maint. • Mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i lefelau uwch o nitrogen, rhaid gosod sianeli gwlyptir a biobantiau mewn llinell er mwyn sicrhau nad yw nitradau'n

⁹⁰ Safonau statudol ar systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb (2018). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

⁹¹ Irfeey, A.M.M. et al. (2023) 'Sustainable Mitigation Strategies for Urban Heat Island Effects in Urban Areas', Sustainability, 15(14). Ar gael yma: <https://doi.org/10.3390/su151410767>.

⁹² Air quality (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://www.susdrain.org/delivering-suds/using-suds/benefits-of-suds/Air-quality> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

⁹³ Ymdrin â dŵr wyneb: y safonau newydd ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (systemau SuDS) (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/ymdrin-a-dwr-wyneb-y-safonau-newydd-ar-gyfer-systemau-draenio-cynaliadwy-systemau-suds/> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

⁹⁴ https://apps.eastsussex.gov.uk/environment/planning/applications/register/documents/datawright%20saved%20documents/scannedinfo/planning/lw-3396-cc/sd-07_greenacres%20maintenance%20schedule%20%28drainage%20systems%29%20aug%202018.pdf

	ymdreiddio i ddŵr daear, a chyfeirio llif sydd ar ôl ar i lawr oni bai fod y dŵr ffo wedi'i drin cyn hynny mewn pwll dŵr neu fasn ⁸⁷ .
Costau	Newidiol gan ddibynnu ar faint y datblygiad a'r math o SuDS a ddefnyddir. Er enghraifft, mae'r costau dangosol a nodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd (yn 2015) yn cynnwys:⁹⁵ • Pant: Fel arfer £10-£15 y m² o arwynebedd pant. • Draen hidlo: Oddeutu £120 y m². • Suddfannau dŵr: Fel arfer <£100 y m² o'r cyfaint a storir. Mae tystiolaeth yn dangos bod systemau SuDS sydd wedi'u cynllunio'n dda yn rhatach na phibellau draenio traddodiadol⁹⁰, ond mae SuDS yn darparu mwy o fuddion o ran costau ar safleoedd mawr⁹⁶. Roedd Cynllun Gofodol Cymru yn amcangyfrif costau cynnal a chadw cyfartalog blynyddol o 0.5% o gostau cyfalaf adeiladu system ddraenio⁹⁶.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Rhaid cynnal a chadw SuDS trefol yn unol â Safonau SuDS statudol trwy gydol oes y datblygiad er mwyn sicrhau bod y gyfradd gwaredu maethynnau yn cael ei chynnal⁹⁰. Dylid sicrhau cynllun cynnal a chadw er mwyn darparu sicrwydd ar gyfer asesiad priodol, a dylai nodi'n glir pwy fydd yn gyfrifol am wneud gwaith cynnal a chadw. Byddai hyn yn debygol o fod naill ai⁸⁸: • Y SAB, sydd â dyletswydd i fabwysiadu SuDS cymeradwy sy'n gwasanaethu dau neu fwy o eiddo. Ar ôl ei mabwysiadu, mae'r SAB yn gyfrifol am sicrhau bod y system draenio dŵr wyneb yn cael ei chynnal yn unol â Safonau Cenedlaethol gorfodol. • Gallai perchnogion a deiliaid preifat fod yn gyfrifol am gynnal SuDS sy'n gwasanaethu eu heiddo hwy yn unig, cyn belled bod y systemau'n syml ac yn hawdd i'w rheoli.
Ystyriaethau ychwanegol	Mae SuDS yn orfodol yng Nghymru ac mae'n ofynnol i bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un tŷ neu sydd ag arwynebedd adeiladu o 100m² neu fwy gael SuDS wedi'u mabwysiadu gan y SAB, oni chytunir fel arall. Felly, ymdrinnir â chytundebau o ran cynnal a chadw SuDS trwy broses gymeradwyo'r SAB. Ni all y datblygiad ddechrau nes bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi gan y SAB. Gall mapio cyfleoedd ar gyfer SuDS helpu i nodi'r lleoliad gorau. Gallai hyn gynnwys mapio: • Datblygiad. • Seilwaith. • Topograffi. • Mannau gwyrdd. • Y perygl o lifogydd. • Ansawdd y dŵr. • Cynefinoedd gwarchodedig. • Problemau penodol yn yr ardal.
Perfformiad yn yr hirdymor	Mae risgiau i berfformiad hirdymor os nad yw'r SuDS yn cael eu cynnal a'u cadw'n gywir. O ganlyniad, rhaid sicrhau'r trefniadau cynnal a chadw hirdymor a

⁹⁵ Environment Agency (2015). *Cost estimation for SUDS - summary of evidence*. [Ar-lein] Ar gael yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6034ee6c8fa8f54334a5a6a9/Cost_estimation_for_SUDS.pdf?utm_source=Cyrchwyd: 14 Ionawr 2026).

⁹⁶ 'SuDS & Understanding the Cost Benefits', GeoSmart Information, 4 Mehefin. Ar gael yma: <https://geosmartinfo.co.uk/2019/06/suds-understanding-the-cost-benefits/> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

	chyfrifoldeb am SuDS (fel arfer drwy'r SAB) a darparu tystiolaeth addas ar eu cyfer yn unrhyw strategaeth liniaru maethynnau sy'n defnyddio SuDS.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Offeryn lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau.

A.6 SuDS gwledig



Ffigur A-7 Pantiau â llystyfiant neu ffosydd hidlo, sy'n gwaredu llygryddion o ddŵr wyneb cyn rhyddhau i gyrsiau dŵr neu ddyfrhaenau⁹⁷.

Disgrifiad	Mae SuDS gwledig yn cynnwys nodweddion sy'n ceisio efelychu prosesau draenio naturiol er mwyn rhyng-gipio/dargyfeirio a/neu wella ymdreiddiad a thrylfiad dŵr wyneb ffo mewn ardaloedd gwledig. Yn wahanol i SuDS trefol (gweler Adran A.5), mae SuDS gwledig fel arfer yn gweithredu ar raddfa fwy, ac yn integreiddio â thirweddau naturiol, ac mae'n bosibl y bydd arnynt angen mwy o waith trwm (gwaith cloddio) oherwydd maint y tir sydd ar gael⁹⁸. Gallant hefyd weithredu fel mesurau lliniaru oddi ar y safle ar gyfer llygryddion sy'n cael eu cario mewn dŵr wyneb ffo dŵr. Mae'r nodweddion yn cynnwys: • Gwlyptiroedd adeiledig: (wedi'u hadeiladu ar gyfer trin dŵr wyneb yn hytrach nag elifion dŵr gwastraff). • Basn cadw/pwll dŵr: Fel arfer, basnau sych wedi'u dylunio er mwyn storio dŵr ffo dros dro a'i ryddhau'n araf⁹⁹: • Pantiau: Sianeli agored llydan a bas â llystyfiant, wedi'u dylunio er mwyn cludo dŵr ffo⁹⁹:
-------------------	--

⁹⁷ Prifysgol Newcastle (2026) [Ar-lein] Ar gael yma: <https://nclurbandesign.org/what-are-the-benefits-of-sustainable-drainage-systems-suds/> (Cyrchwyd: 5 Ionawr 2026).

⁹⁸ Sustainable Drainage in Rural vs Urban Environments, Soakaways Supplies. Ar gael yma: <https://www.soakaways.com/sustainable-drainage/rural-vs-urban-environments/>

	• Trapiau gwaddod: Ardal gyfyngu lle mae dŵr ffo llawn gwaddodion yn cael ei gadw dros dro, fel bod gwaddodion yn gallu gwaddodi cyn rhyddhau dŵr ffo⁹⁹. • Bwnd trap gwaddod: mae bwnd trap gwaddod yn ysgafell bridd wedi'i chloddio yn y cae sy'n rhyng-gipio ac yn dal llif llawn gwaddodion a llygryddion cysylltiedig trwy lenlif cyn ei ollwng i gwrs dŵr. • Cau ffosydd draenio. • Plannu coed. Mae'r math o SuDS gwledig y dylid ei ddewis ar gyfer cynllun yn dibynnu ar y math o ddŵr ffo sy'n cael ei liniaru¹⁰⁰, fel y gwelir yn Nhabl 6-2. Tabl 6-2 Defnydd priodol o SuDS gwledig <table><tr><th>Dŵr ffo sy'n llifo o gaeau</th><th>Dŵr ffo o arwynebau ffermydd (h.y. dŵr ffo glawiad o doeau a buarthau)</th></tr><tr><td>Bwnd trap gwaddod</td><td>Pant</td></tr><tr><td>Pwll dŵr</td><td>Trap gwaddod</td></tr><tr><td>Gwlyptir</td><td>Pwll dŵr</td></tr><tr><td>Pant</td><td>Gwlyptir</td></tr><tr><td></td><td>Gwlyptir adeiledig</td></tr></table> Yn bwysig iawn, ni chaiff datblygwyr ddefnyddio SuDS gwledig ar gyfer trin slyri, elifion silwair, neu ddŵr ffo wedi'i halogi gan bladdwyr.	Dŵr ffo sy'n llifo o gaeau	Dŵr ffo o arwynebau ffermydd (h.y. dŵr ffo glawiad o doeau a buarthau)	Bwnd trap gwaddod	Pant	Pwll dŵr	Trap gwaddod	Gwlyptir	Pwll dŵr	Pant	Gwlyptir		Gwlyptir adeiledig
Dŵr ffo sy'n llifo o gaeau	Dŵr ffo o arwynebau ffermydd (h.y. dŵr ffo glawiad o doeau a buarthau)												
Bwnd trap gwaddod	Pant												
Pwll dŵr	Trap gwaddod												
Gwlyptir	Pwll dŵr												
Pant	Gwlyptir												
	Gwlyptir adeiledig												
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Mae angen i'r rhai sy'n bwriadu datblygu cynlluniau SuDS gwledig ystyried ystod o ddeddfwriaethau, polisiau a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys y canlynol: • Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio defnydd tir ac mae'n cael ei gefnogi gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ei chyfrifoldebau. • Mae Cynllun Datblygu Lleol yr ACLI yn amlinellu cynigion a pholisïau ar gyfer y defnydd o'r holl dir yn y Sir yn y dyfodol. • Mae draenio cynaliadwy a chynllunio yng Nghymru yn cael ei lywio gan Gynllun Gofodol (2008) y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n amlinellu gweledigaeth statudol a strategaeth ar gyfer defnydd tir y mae'n rhaid i bob cynllun haen is ei dilyn. • Rhaid i ddatblygwyr gael cymeradwyaeth ar gyfer eu systemau draenio gan Gorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) yn annibynnol ar gymeradwyaeth cynllunio cyn y gall gwaith adeiladu ddechrau. Mae hyn yn berthnasol i bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un tŷ neu sydd ag arwynebedd adeiladu o 100m² neu fwy. Mae'r gofyniad hwn, dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn sicrhau bod draenio dŵr wyneb yn bodloni safonau cenedlaethol gorfodol. • Rhaid dylunio ac adeiladu SuDS yn unol â safonau cenedlaethol statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer SuDS.												

⁹⁹ Rural sustainable drainage systems (dim dyddiad) GOV.UK. Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/rural-sustainable-drainage-systems> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

¹⁰⁰ Rural Sustainable Drainage Systems: A practical design and build guide for Scotland's farmers and landowners | CREW | Scotland's Centre of Expertise for Waters (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://www.crew.ac.uk/publication/rural-sustainable-drainage-systems-practical-design-and-build-guide-scotlands-farmers> (Cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2025).

	Gallai rhai SuDS gwledig gael effaith ar yr amgylchedd eu hunain. Er mwyn lliniaru hyn mae'n bosibl y bydd angen i'r datblygwr gael trwyddedau a chydysyniadau gan CNC⁸⁶. Gall y rhain gynnwys: • Cydsyniad draenio tir • Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd Gweler sut i gydymffurfio â'r safonau draenio cynaliadwy i gael rhagor o wybodaeth. Dylai pob trwydded a chydysyniad fod yn ei le cyn gofyn am gymeradwyaeth gan y SAB⁸⁶.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Yn syth ar ôl eu gosod ar gyfer SuDS rhyng-gipio neu ddargyfeirio. Ar gyfer nodweddion sy'n defnyddio rhyng-gipiad â llystyfiant ac amsugno maethynnau, mae angen sefydlu'r llystyfiant cyn y gall weithredu.
Cyfradd gwaredu maethynnau	Yn dibynnu ar y math o SuDS gwledig a gall y dystiolaeth fod yn gyfyngedig neu'n brin ar gyfer rhai opsiynau. Darperir rhywfaint o wybodaeth isod: • Pantiau: Annog gwaddodi a gwaredu nitrogen drwy amsugniad gan blanhigion⁸⁹. • Trapiau gwaddod: Rhagdybir bod yr amser aros yn rhy fyr, ond gellid eu defnyddio fel rhag-driniaeth ar gyfer SuDS gwledig eraill⁸⁹.
Buddion ehangach	Mae'r diffiniad o ddraenio cynaliadwy sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth a'r safonau statudol ill dau'n nodi bod angen i SuDS gyflawni mwy na dim ond rheoli cyfaint dŵr wyneb⁸⁸. O ganlyniad, rhaid i'r gwaith dylunio a chyflawni nodi sut ac os bydd cynnig SuDS gwledig yn darparu nifer o fuddion⁸⁹. Mae buddion ychwanegol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu SuDS fel dull o liniaru DIN yn cynnwys: • Llai o erydiad i gyrsiau dŵr sy'n derbyn. • Creu cynefinoedd. • Buddion bioamrywiaeth os caiff llystyfiant brodorol ei blannu. • Gwella gwerth amwynderol y datblygiad arfaethedig. • Lliniaru llifogydd. • Hamdden.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Cynnal a chadw isel i ganolog. Mae'r gofynion cynnal a chadw yn dibynnu ar y nodwedd, ond gallant gynnwys: • Dadsiltio. • Tocio tymhorol a chlirio llystyfiant. • Gwaith tymhorol i glirio sbwriel a gweddillion. • Archwiliad gweledol (blynyddol). • Argymhellir monitro ansawdd dŵr yn y fewnfa a'r allfa.
Cyfyngiadau/Pryderon	Mae'r cyfyngiadau a ganlyn yn gysylltiedig â mabwysiadu SuDS gwledig ar gyfer mesurau lliniaru DIN: • Rhoi'r gorau i ffermio tir amaethyddol. • Gall dewis safleoedd fod yn gymhleth, gan arwain at brinder tir addas. • Posibilrwydd o waith cloddio costus.

Costau	Gwlyptir: Yn amrywio gan ddibynnu ar y maint, ond gall costau fod yn sylweddol. Trapiau silt a chau ffosydd: Opsiwn llawer rhatach ond mae'r potensial i waredu maethynnau yn llwyr yn fach mewn cymhariaeth â gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu. Trapiau gwaddod: Mae'r costau cyfalaf rhwng £1,000 a £4,000, ond yn dibynnu ar ffactorau sy'n benodol i safleoedd, maint ac ati.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Os na chaiff SuDS gwledig eu cynnal a'u cadw yn unol â'u canllawiau sylfaenol, ni fyddant yn trin dŵr ffo mwyach ac ni fyddant yn llwyddo i liniaru DIN.
Ystyriaethau ychwanegol	Gall mapio cyfleoedd ar gyfer SuDS gwledig helpu i nodi'r lleoliad gorau. Gallai hyn gynnwys mapio: • Datblygiad. • Seilwaith. • Topograffi. • Mannau gwyrdd. • Y perygl o lifogydd. • Ansawdd y dŵr. • Cynefinoedd gwarchodedig. • Daeareg, gan gynnwys dyddodion drifft (gan fod creigiau seiliedig ar glai a dyddodion drifft clai yn debygol o fod yn anathraidd). • Problemau penodol yn yr ardal.
Perfformiad yn yr hirdymor	Yr unig risgiau i berfformiad hirdymor yw'r risgiau os nad yw'r SuDS yn cael eu cynnal a'u cadw'n gywir. O ganlyniad, rhaid sicrhau a darparu tystiolaeth addas ar gyfer y trefniadau cynnal a chadw hirdymor a chyfrifoldeb am SuDS yn unrhyw strategaeth liniaru maethynnau sy'n defnyddio SuDS. Gall hefyd fod risg halogiad mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft oherwydd slyri.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Offeryn lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau.

A.7 Uwchraddio tanciau carthion a PTP



Ffigur A-8 Cyfleusterau trin parod¹⁰¹.

Disgrifiad

Priodolir un o achosion gormodedd DIN sy'n arwain at ansawdd dŵr anffafriol neu ansawdd dŵr sy'n methu cyrraedd y safon mewn ACAau morol¹² i danciau carthion. Awgrymir mai nodwedd amlycaf y methiannau morol hyn yw gollyngiadau o danciau carthion mewn parciau gwyliau a pharciau carafanau ger y glannau, fel un o'r sectorau sydd heb ei drwyddedu i raddau helaeth, felly ychydig iawn o waith rheoli a gorfodi y gellir ei wneud yng nghyswllt yr effaith ar yr amgylchedd¹².

Mae gosod modelau mwy effeithlon yn lle tanciau carthion neu PTPau sydd wedi dyddio yn strategaeth effeithiol i leihau gollyngiadau nitrogen o eiddo preswyl. Gall fod yn gam lliniaru ar y safle yn achos safle datblygu, neu gellir cyflawni gwaith uwchraddio oddi ar y safle mewn mannau eraill hefyd er mwyn creu gwarged maethynnau (neu 'hyblygrwydd') trwy wella perfformiad trin dŵr gwastraff o eiddo eraill¹⁰² yn sylweddol. Rhaid i'r systemau newydd gael eu gosod ymhellach i fyny na'r datblygiad a linierir ac yn yr un dalgylch.¹⁰¹ Yn ogystal, rhaid dangos, er boddhad yr Awdurdod Cynllunio, nad yw cysylltu â'r garthffos gyhoeddus yn ymarferol³.

Mae PTPau yn cynnwys siambr gwaddodion sylfaenol i waredu'r solidau, wedi'i dilyn gan ail siambr lle hyrwyddir prosesau bioddiraddio bacterol trwy awyriad parhaus. Mae rhai systemau'n defnyddio cyfryngau sy'n symud, megis disgiau, i ddarparu arwynebau lle gall bioffilmiau ddatblygu. Mae siambr gwaddodi olaf yn gwaredu sylweddau hwmig ac organig, gan gynhyrchu elifion sydd wedi'u trin yn fwy trylwyr na'r elifion o danciau carthion confensiynol⁴⁹.

¹⁰¹ *Package Treatment Plant Upgrade Scheme (2024) Lake District National Park*. Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd: hq@lakedistrict.gov.uk. Ar gael yma: <https://www.lakedistrict.gov.uk/planning/planning-for-nature-recovery/nutrient-neutrality/call-for-sites> (Cyrchwyd: 27 Tachwedd 2025).

¹⁰² NMF Norfolk. Septic Tank Upgrades Case Study: <https://www.nmfnorfolk.co.uk/assets/Website-Documents/Septic-Tank-Upgrades-Case-Study.pdf>

	Mae uwchraddio tanciau carthion yn arbennig o addas mewn ardaloedd lle na fydd atebion lliniaru ar y tir, megis adeiladu gwlyptiroedd, yn ymarferol. Mae'n ddelfrydol ar gyfer dalgylchoedd llai neu leoliadau sydd ymhellach i fyny'r afon na gweithfeydd trin carthion mwy, gan gynnig dull o leihau maethynnau sy'n ymarferol ac yn effeithlon o ran lle¹⁰³. Yn yr un modd gall uwchraddio'r PTP neu'r tanc carthion a gynigiwyd ar gyfer datblygiad i fodel mwy effeithiol helpu i ddileu neu i leihau'r angen i ddefnyddio dulliau lliniaru eraill er sicrhau niwtraliaeth⁶⁵.
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng nghanam yr Asesiad Priodol).	Rhaid i bob system fodloni Safon Brydeinig BS EN 12566 a chael ei gosod gan weithwyr proffesiynol ardstyedig. Mae angen i'r system garthion fodloni'r safonau dylunio a gweithgynhyrchu gofynnol a chael ei lleoli mewn man priodol. Yn ogystal, mae cymeradwyaeth gynllunio a rheoli adeiladu angenrheidiol yn ofynnol ar gyfer y system trin carthion a'r elifion. Mae angen cofrestru pob tanc carthion neu PTP bach fel un a eithriwyd neu gyflwyno cais am Drwydded Amgylcheddol oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bosibl hefyd y bydd gofyn sicrhau caniatâd trwy'r ACLI hefyd. Ni chaniateir gollyngiadau uniongyrchol o danc carthion i ddŵr wyneb. Yn lle hynny, rhaid eu rheoli gan ddefnyddio PTP priodol neu drefn gollwng i'r ddaear (os bydd yn gymwys ar gyfer cofrestru). Nid oes un dyddiad cau statudol ar gyfer gwella'r holl danciau carthion sy'n gollwng i ddŵr wyneb ond mae trefn gofrestru a chaniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu y bydd tanc carthion sy'n gollwng i ddŵr wyneb ar hyn o bryd yn gorfod cael ei newid neu ei uwchraddio i PTP sy'n cydymffurfio â'r rheolau, fel rhan o sicrhau gollyngiadau cyfreithlon ac felly bydd angen cyfrif am hynny wrth gynllunio camau lliniaru¹⁰⁴. Mae sgil-gynhyrchion gwastraff o danciau carthion a PTPau yn debygol o gael eu cyfri'n slwtsh carthion a byddai angen eu gwaredu yn unol â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru¹⁰⁵. Ni chaiff datblygwr osod system breifat lle byddai cysylltu â'r rhwydwaith carthion cyhoeddus i'w weld yn gam "rhesymol" (fel rheol os yw eich eiddo o fewn 30 metr i'r rhwydwaith). Yn ogystal, yn ôl safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru, nid yw cyfyngiadau cysylltu sy'n ymwneud â'r safon ansawdd elifion y gellir ei chyflawni mewn gwaith trin dŵr gwastraff, a/neu allu dalgylch yr ACA i dderbyn mwy o ollyngiadau maethynnau a bodloni'r targedau o ran ansawdd dŵr yn rheswm dilys dros gyfiawnhau defnyddio system trin carthion breifat mewn ardal lle mae carthffos.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Yn gymharol gyflym, unwaith y bydd y bioffilmiau wedi sefydlu⁴⁹.
Cyfradd gwaredu maethynnau	Dangosodd astudiaeth achos yn Norfolk¹⁰², bod modd lliniaru 267.51kg y flwyddyn o nitrogen (gan ryddhau 455 o gartrefi neu oddeutu hynny). Mae cynhyrchion ar y farchnad yn gallu lleihau nitrogen gan fwy nag 80%. Gall uwchraddio tanc carthion greu oddeutu 7kg o hyblygrwydd nitrogen¹⁰⁶.

¹⁰³ 'Your Partner for Nutrient Neutrality Solutions' (dim dyddiad) CSG. Ar gael yma: <https://www.csg.co.uk/nutrient-neutrality> (Cyrchwyd: 24 Tachwedd 2025).

¹⁰⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). *Cofrestru'ch tanc carthion neu uned trin carthion gryo*. [Ar-lein] Ar gael yma: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges-and-septic-tanks/septic-tanks-and-private-sewage-systems/register-your-septic-tank-or-small-sewage-treatment-plant/?lang=cy&utm_source=chatgpt.com (Cyrchwyd: 14 Ionawr 2026)

¹⁰⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) *Rhedeg a chynnal tanc carthion neu uned trin carthion gryo*. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges-and-septic-tanks/septic-tanks-and-private-sewage-systems/running-and-maintaining-a-septic-tank-or-small-sewage-plant?lang=cy> (Cyrchwyd: 14 Ionawr 2026)

¹⁰⁶ Nutrient Credits - How to Guide (dim dyddiad). Ar gael yma: https://nutrient-credits.uk/guidance/how_to_guide.html (Cyrchwyd: 19 Rhagfyr 2025).

	Gellir pennu swm yr hyblygrwydd trwy gyfrifo cyllideb y systemau cyn ac ar ôl y newid, gyda'r gwahaniaeth rhyngddynt yn rhoi rhyw amcan o faint o hyblygrwydd y gellir ei sicrhau. Rhaid i'r datblygwr sicrhau bod y system garthion yn bodloni'r safonau gofynnol o ran dylunio a gweithgynhyrchu.
Buddion ehangach	Nid yw'r ateb hwn yn debygol o gyflawni buddion ehangach.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	I gael ei dderbyn, byddai angen i ateb lliniaru ddarparu tystiolaeth y caiff y PTP ei gynnal a'i gadw, a'i fonitro ar hyd oes gyfan y datblygiad, ac y cyflwynir system newydd sydd yr un mor effeithlon neu'n fwy effeithlon yn ei le unwaith y bydd yn cyrraedd diwedd ei oes weithredol¹⁰². Mae angen cynnal a chadw'r PTP gan ddilyn cyngor y gwneuthurwr, ond bydd y gwaith cynnal a chadw blynyddol yn cynnwys¹⁰⁷: • Gwasanaethu (e.e. ymdrin â rhwystrau yn y pibellau). • Clirio slwtsh carthion. • Dosio â chemegion (os bydd hynny'n berthnasol). • Mesur mewnlif ac elifiad er mwyn llunio tybiaethau ynghylch y llwyth maethynnau yn y cae draenio. • Dylai PTPau gael eu gwirio'n fanwl bob 6 mis¹⁰⁸. Mae gofyn i'r datblygwr gadw cofnod o'r gwiriadau a gynhaliwyd ar adeg gwacáu'r tanc, at ei ddiben ei hun a rhag ofn i Gyfoeth Naturiol Cymru neu ddarpar brynwr tŷ ofyn amdano. Rhaid cadw'r cofnodion hyn am 5 mlynedd¹⁰⁵.
Cyfngiadau/Pryderon	Mae'r cyfngiadau canlynol yn gysylltiedig ag uwchraddio tanciau carthion er mwyn lliniaru DIN: • Os bydd y system yn camweithio ac yn mynd i beidio â chydymffurfio, gall y datblygwr wynebu dirwyon a gwaith uwchraddio costus.
Costau	PTPau yw un o'r atebion mwyaf cost-effeithiol ar gyfer lliniaru maethynnau¹⁰⁹. Darperir isod gostau dangosol yr enghraifft o PTPau a grybwyllir yn yr adran ar waredu maethynnau (costau dangosol yn unig yw'r rhain ac ni ddylid dibynnu arnynt). Ar gyfartaledd, amcangyfrifir y bydd PTP sy'n gwasanaethu chwech o bobl yn costio oddeutu £7000 ac amcangyfrifir y bydd y costau gweithredu, ar gyfartaledd, yn £32,000 dros 80 mlynedd⁵⁰. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Royal Haskoning⁵⁰ costau dangosol gosod PTP yw oddeutu £5000 o wariant cyfalaf, ac wedyn rhwng £100 a £200 y flwyddyn fesul PTP o ran costau gweithredu, yn dibynnu ar y cynnyrch a ddewisir.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Bydd gofyn i ddatblygwyr ddangos y bydd y PTP yn ddarostyngedig i gyfrifoldeb a pherchenogaeth a sicrhawyd yn gyfreithiol, gan ofalu bod gweithrediad, gwaith cynnal a chadw a chydymffurfiaeth wedi'u diffinio. Gellir sicrhau hynny trwy amodau cynllunio, cytundebau cyfreithiol, neu ddulliau rhwymo eraill fel y bo'n briodol. Ar ben hynny, rhaid darparu cynllun rheoli a chynllun cynnal a chadw hirdymor, sy'n disgrifio'r trefniadau archwilio, gwasanaethu a chlirio slwtsh er mwyn sicrhau bod y driniaeth yn perfformio fel y dylai.

¹⁰⁷ Ricardo, 2024. Cumbria Nutrient Mitigation Solutions: [MSRFIN~1.PDF](#)


¹⁰⁸ Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) / Rhedeg a chynnal tanc carthion neu uned trin carthion gryo (dim dyddiad). Ar gael yma: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges-and-septic-tanks/septic-tanks-and-private-sewage-systems/running-and-maintaining-a-septic-tank-or-small-sewage-plant/?lang=cy&utm_source=chatgpt.com (Cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2025).

¹⁰⁹ https://www.lakedistrict.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0018/62226/Guidance-note-on-the-Use-of-Package-Treatment-Plants-April-24-Final.pdf

	Os bydd gofyn amnewid neu uwchraddio'r PTP yn ystod oes y datblygiad, rhaid gwneud hynny mewn modd sydd o leiaf yn cyflawni'r un lefel o berfformiad o ran gwaredu nitrogen â'r hyn a ragdybiwyd yn yr asesiad. Dylai'r dull o sicrhau'r gofynion perfformiad parhaus hyn gael ei ddiffinio'n glir a dylai fod modd ei orfodi'n gyfreithiol, er mwyn sicrhau na chaiff niwtraliaeth maethynnau ei thanseilio dros amser.
Ystyriaethau ychwanegol	O ran cyfnwidd PTPau neu danciau carthion sy'n gollwng i'r ddaear, dim ond unedau sydd hefyd yn gollwng i'r ddaear ddylai gymryd eu lle, os bydd yr amodau draenio'n briodol¹¹⁰. Yn achos PTPau sy'n gollwng i'r ddaear, dylai datblygwyr ddarparu canlyniadau profion ymdreiddiad ynghyd â chyfrifiadau sy'n dangos bod maint a dyluniad y cae draenio yn briodol ar gyfer cyfaint y gollyngiadau y cynllunnir ar eu cyfer a'i fod yn unol â'r Safon Brydeinig berthnasol. Ni ddylai systemau sy'n methu gael hawlio buddion neu hyblygrwydd o ran maethynnau uwchlaw llinell sylfaenol ragosodedig y perfformiad disgwylidig, h.y. ni ddylid gwobrwyo systemau sy'n perfformio'n wael. Mae pob tanc carthion a PTP yn destun profion annibynnol gan drydydd parti sy'n bodloni'r Safonau Prydeinig (BS EN 12566) ac mae'r ardystiad yn nodi crynodiad cymedrig yr elifion o'r system honno. Ni fydd pob uned wedi cael prawf nitrogen gan nad yw hynny'n un o ofynion gorfodol y Safon Brydeinig, ond os oes modd, bydd darparu'r dystysgrif (neu ganlyniadau'r prawf annibynnol os cynhaliwyd un heb ei gynnwys yn y dystysgrif), yn dystiolaeth ddigonol o grynodiadau'r elifion. Gall datblygwyr ar raddfa fwy gynhyrchu hyblygrwydd o ran maethynnau (tebyg i gysyniad 'credyd') trwy uwchraddio unedau PTP a thanciau carthion sydd eisoes yn bodoli mewn eiddo oddi ar y safle. Gallai hynny ddigwydd lle byddai datblygwr sy'n cynnig codi tai newydd yn gallu gosod unedau newydd yn lle'r hen danciau carthion mewn eiddo cyfagos sydd eisoes yn bodoli, neu yn rhywle arall, cyn belled â bod yr unedau newydd mewn lleoliad priodol ac y byddai'n rhesymol cysylltu â'r garthffos gyhoeddus¹¹⁰. Gellir cyfrifo'r hyblygrwydd ymlaen llaw, ond bydd gofyn cyflawni gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau effeithlonrwydd parhaus y system¹⁰⁷. Ni chaiff systemau sy'n methu neu sy'n perfformio'n wael hawlio hyblygrwydd o ran maethynnau y tu hwnt i linell sylfaen ragosodedig y perfformiad disgwylidig¹¹⁰.
Perfformiad yn yr hirdymor	Bydd gofyn cyflawni gwaith cynnal a chadw a gwacáu'r tanciau slwtsh bob blwyddyn, ond o wneud hynny, ni ddylai'r perfformiad ddirywio dros amser⁴⁹.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Offeryn lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau.

¹¹⁰Cyngor Dorset: <https://www.dorsetcouncil.gov.uk/documents/35024/2469021/20230623+-+PTP+and+septic+tanks+-+DC+EA+and+NE+Guidance+note.pdf/4a910a5b-aae1-e7bd-ce0c-0bacf781a26b>

A.8 Rheoli ffiniau caeau



Ffigur A-9 Diagram o lain glustogi goediog ar lannau afon

Disgrifiad

Mae modd i ddatblygiadau amaethyddol newydd sy'n cwmpasu cynhyrchu, cadw, rheoli a thaenu tail organig, gwrtaith anorganig a slyri yn nalgylch afon mewn ACA gyfrannu at swm y maethynnau sy'n mynd i mewn i safle dynodedig⁵.

Atebion seiliedig ar natur yw ymyriadau rheoli ffiniau caeau, sy'n lleihau'r maethynnau a gollir o dir amaethyddol heb fod angen creu strwythurau artiffisial. Yn gyffredinol, mae'n ddull lliniaru oddi ar y safle ar gyfer datblygiadau newydd.

Mae ymyriadau cyffredin yn cynnwys:

- **Lleiniau clustogi ar lannau afon:** Lleiniau canolig eu lled o llystyfiant neu goetir ar bwys cyrff dŵr⁹⁹.
- **Ailsefydlu gwrychoedd**
- **Caeau clustogi**

Nid yw'r dewis lliniaru hwn yn cynnwys codi unrhyw strwythurau artiffisial er mwyn cronni/cadw neu ddargyfeirio dŵr. Yn lle hynny, mae'r DIN yn gostwng wrth i'r llystyfiant etc ei amsugno.⁴⁹

Mae rheoli ffiniau caeau yn canolbwyntio ar leiniau clustogi ar lannau afonydd fel ateb lliniaru y gellir ei leoli mewn cae, ar ymylon cae, neu ar hyd coridor glannau afon. Mae lleiniau clustogi glas hefyd yn gallu lleihau'r maethynnau a gollir ond at ddibenion niwtraliaeth maethynnau, dylai unrhyw lain glustogi gynnwys coed yn bennaf, gan fod angen sicrwydd y bydd y maethynnau'n lleihau ac yn parhau i leihau am byth ac mae presenoldeb coed yn sicrhau bod modd monitro'r sefyllfa'n hwylus a sicrhau na fydd maethynnau'n cael eu hychwanegu¹¹¹.

¹¹¹ Natural England (dim dyddiad) NECR541 Information on How to Deliver and Assess Riparian Buffer Strips for Nutrient Mitigation - NECR541, Natural England - Access to Evidence. Ar gael yma: <https://publications.naturalengland.org.uk/publication/4612285902094336> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2026).

Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng nghanam yr Asesiad Priodol).	Mae Rheoliadau Gwrychoedd (2007) yn atal gwaredu gwrychoedd aeddfed yn ddiangen. Yn dibynnu ar raddfa'r gwaith plannu coed a newid defnydd y tir, mae'n bosibl y bydd angen i'r datblygwr gydymffurfio â Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru). Nid oes gofyn cael caniatâd cynllunio nac unrhyw drwyddedau amgylcheddol er mwyn sefydlu lleiniau clustogi yng Nghymru, os cyflwynir nhw ar ffurf lleiniau o llystyfiant ar dir amaethyddol¹¹². Fodd bynnag, dylid gwirio unrhyw waith ffisegol, strwythurau neu newidiadau tirwedd cysylltiedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol gan y gallent fod yn ddatblygiad y mae angen caniatâd ar ei gyfer. Ystyriaethau allweddol ar gyfer mabwysiadu lleiniau clustogi ar lannau afon fel ateb lliniaru DIN, sy'n ymwneud yn benodol â'r gofynion yng Nghymru¹¹³: • Bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi adolygu'r cynnig ac wedi cadarnhau bod modd sicrhau'r camau lliniaru am byth. • Ni chaniateir defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb. • Ni chaniateir porthi atodol o fewn 10 metr i ddŵr wyneb. • Gwiriwch na ddefnyddir plaladdwyr ar y lleiniau clustogi. • Gwiriwch leoliad unrhyw ddŵr wyneb a phob twll turio, pistyll a ffynnon ar y tir cyn mynd ati i wasgaru unrhyw gynhyrchion diogelu planhigion neu wneud unrhyw borthi atodol. • Gofalwch fod y lleiniau clustogi'n ddigon llydan i rwystro llif o'r tir a llygredd (gallai hynny olygu bod angen i'r llain glustogi fod yn lletach na'r gofyn). • Paratowch, diweddarwch a chadwch fap o'r daliad sy'n dangos lleoliad y dŵr wyneb a'r lleiniau clustogi fel y gallwch ymgynghori ag ef cyn defnyddio unrhyw blaladdwyr neu wneud unrhyw borthi atodol. Ystyriaethau cyffredinol i'w hystyried ar gyfer mabwysiadu lleiniau clustogi ar lannau afonydd fel ateb lliniaru DIN¹¹¹. • Datganiad tystiolaeth sy'n dweud na fydd y llain glustogi arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar unrhyw safleoedd neu rywogaethau gwarchodedig nac yn llesteirio gwaith i'w hadfer, nac ychwaith yn effeithio'n negyddol ar gynefinoedd sydd eisoes yn bod na'r gallu i gyflawni amcanion amgylcheddol eraill. • Dylai'r cynnig ddangos na fydd y pridd na'r hydroleg ar y safle gweithredu yn amharu ar effeithlonrwydd y llain glustogi ar lannau'r afon. • Dylai'r cynnig ystyried a sicrhau nad yw'r amodau hydroddaearegol lleol yn golygu bod ffynhonnell y maethynnau'n osgoi'r llain glustogi. • Nid yw'r llain glustogi'n ofynnol o dan ymrwymiad cyfreithiol arall.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Unwaith y sefydlir y llystyfiant.
Cyfradd gwaredu maethynnau	O safbwynt gwaredu maethynnau, mae effeithlonrwydd lleiniau clustogi ar lannau afonydd yn dibynnu'n fawr ar eu lled, ar amodau'r pridd a'r hydroleg. Yn gyffredinol, mae lleiniau clustogi lletach yn cynnig mwy o ostyngiad mewn maethynnau gan fod mwy o ymdreiddiad, gwaddodiad ac amsugno gan blanhigion.

¹¹² Llywodraeth Cymru (2025). *Trawsgydymffurfio: creu lleiniau clustogi (GAEC 1) (2025)* [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-creu-leiniau-cluslogi-gaec-1-2025-html> (Cyrchwyd: 15 Ionawr 2026).

¹¹³ Cyngor Sir Caerfyrddin (2026). *Rheoli Maetholion mewn Cynllunio a Datblygu*. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/cynllunio/rheoli-maetholion-mewn-cynllunio-a-datblygu/cwestiynau-cyffredin/> (Cyrchwyd: 15 Ionawr 2026).

	Llain glustogi ar lannau afon: Gall cyfanswm y nitrogen a waredir amrywio o rhwng 10% a 99% yn dibynnu ar led y llain⁴⁹. Ymylon caeau neu leiniau clustogi coedwigol: Gwaredu nitradau o oddeutu 25%-100%⁴⁹. Mae'r effeithlonrwydd gwaredu nitradau rhwng 10% a 36% yn dibynnu ar led y llain, y math o bridd a'r cnwd¹¹⁴. Canfu adolygiad Sweeney a Newbold¹¹⁵ o'r llenyddiaeth ynghylch lleiniau clustogi coedwigol fod gwaredu nitradau o dan yr wyneb yn codi o 55% ar lain <40m o led i 89% ar lain >40m o led. Er mwyn gwaredu nitrogen mae angen bod y lefel trwythiad gyfuwch o leiaf â pharth gwreiddiau'r coed. Yr un yw'r effeithlonrwydd gwaredu maethynnau beth bynnag fo lleoliad y lleiniau clustogi ar lannau afon (boed mewn cae, ar ymylon cae, yng nghoridor glannau'r afon) a hynny oherwydd y prosesau gwaredu cemegol a ffisegol cyffredinol sydd ar waith yn y systemau hyn.
Buddion ehangach	Mae'r buddion ehangach yn cynnwys y canlynol: • Gwerth esthetig. • Lliniaru llifogydd. • Bioamrywiaeth. • Cysylltedd o ran symudiadau rhywogaethau'r goedwig. • Iechyd y pridd. • Atafaelu carbon. • Sefydlogi'r glannau afon. • Darparu cysgod ar lannau'r afon.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Mae'n debygol y bydd y gofynion cynnal a chadw yn gymedrol ar gyfer mesurau rheoli ffiniau caeau: • Mae gofyn cyflawni gwaith cynnal a chadw tymhorol (e.e. gwaredu llystyfiant) rhag i'r llain glustogi ddod yn ffynhonnell allforio maethynnau. • Bydd arolygon gweledol ac ail-dynnu ffotograffau yn rheolaidd o gymorth i adnabod unrhyw alw am addasu'r drefn reoli yn gynnar, a gallant helpu i amlygu amodau pryd y gallai swm y maethynnau a waredir ddechrau lleihau; er enghraifft, oherwydd problemau sy'n ymwneud â llystyfiant neu erydiad glan yr afon¹¹⁶.
Cyfyngiadau/Pryderon	Mae cyfyngiadau lliniaru DIN trwy fabwysiadu dulliau rheoli ffiniau caeau yn cynnwys: • Cyn cyflwyno llain glustogi ar lan afon mae angen deall y llwyth maethynnau sylfaenol yn yr amgylchedd sy'n derbyn er mwyn darparu'r gwerth llwytho y gellir cymhwyso'r canrannau effeithlonrwydd gwaredu maethynnau iddo i ddangos budd o ran maethynnau¹¹⁶. Mae modd gwneud hynny trwy waith monitro neu fodelu sy'n ymwneud yn benodol â'r cynllun ond gall hyn fod yn dasg sylweddol i'w chyflawni.


¹¹⁴ Lloyd, P., Mant, J., Yellowlees, R., Connor-Streich, G., Jones, C. 2024. Evidence base development for nature-based nutrient mitigation solutions. NECR538. Natural England.

¹¹⁵ Sweeney BW a Newbold JD. 'Streamside Forest Buffer Width Needed to Protect Stream Water Quality, Habitat, and Organisms: A Literature Review' JAWRA Journal of the American Water Resources Association, 2014. 50(3): tudalen 560-584

¹¹⁶ Natural England (2024). *Information on How to Deliver and Assess Riparian Buffer Strips for Nutrient Mitigation*. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://publications.naturalengland.org.uk/file/4552090828144640>. (Cyrchwyd: 15 Ionawr 2025).

	• Mae angen gweithredu ar raddfa fawr, sy'n heriol oherwydd bod angen caniatâd perchnogion tir. • Os yw'r llain mewn cae lle cedwir da byw, yna bydd angen ffensio'r ardal. • Mae'n lleihau maint y cae neu efallai y bydd angen symud anifeiliaid i gae arall. • Mae'n cyfyngu mynediad at gyrsiau dŵr ar gyfer cynnal a chadw argloddiau atal llifogydd, cyflenwad dŵr a mannau croesi. • Gall achosi gormod o gysgod. • Gall y gwaith ddargyfeirio llif cwrs dŵr, gan gynyddu gwlybaniaeth a cholli tir yn lleol. • Mae perygl y gallai newidiadau mewn dulliau rheoli tir, gan gynnwys y math o gnydau a dyfir neu benderfyniad i roi'r gorau i ddefnydd amaethyddol leihau neu nacáu'r budd lliniaru maethynnau a briodolir i'r lleiniau clustogi, yn enwedig lle bo'r rhagdybiaethau ynghylch y llwyth maethynnau yn seiliedig ar arferion ffermio cyfredol. • Ni chaniateir defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb ac ni chaniateir porthi atodol o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.
Costau	Ystyrir bod y gost gyffredinol yn isel ⁴⁹ . Fodd bynnag, gall y costau sefydlu amrywio wrth i gost defnyddiau godi a gostwng ac yn dibynnu ar faint/hyd y llain glustogi. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd costau rheoli hirdymor.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Lle cyflwynir lleiniau clustogi, bydd lliniaru maethynnau yn yr hirdymor yn dibynnu ar gynnal a chadw'r lleiniau mewn modd sy'n atal newidiadau a allai leihau eu heffeithiolrwydd. Mae sefydlu llystyfiant yn gynnar yn darparu tystiolaeth fod y llain glustogi yn gweithio ac yn cael ei chynnal a'i chadw. Bydd cytundebau cyfreithiol neu gynlluniau rheoli sy'n atal troi'r tir, tyfu cnydau ar y tir neu ddefnyddio cynhyrchion diogelu planhigion/porthi atodol yn nes na'r pellteroedd gofynnol, wedi'u cyfuno â gwaith parhaus i fonitro arferion ffermio ac adrodd arnynt, yn ddull ymarferol o ddangos y bydd y llain yn parhau'n effeithiol am byth ac yn sicrhau budd o ran lliniaru maethynnau.
Ystyriaethau Ychwanegol	Mae'n bosibl y gellir darparu hyblygrwydd o ran maethynnau (tebyg i 'gredydau') trwy ostwng yr allbwn maethynnau o dan dargedau'r cwota, lle po isaf yr allbwn maethynnau o'r ffynhonnell, po fwyaf y targedau cwota a gyflawnir a pho fwyaf yr hyblygrwydd a gronnir. O ganlyniad, os bydd perfformiad llain glustogi yn rhagori ar yr hyn a ragwelwyd yn y dyluniad, amlygir hynny yn y broses fonitro a chaiff y maethynnau ychwanegol a waredir eu defnyddio fel hyblygrwydd maethynnau ⁴⁹ .
Perfformiad yn yr hirdymor	Mae modd cynnal y perfformiad gorau posibl â threfn cynnal a chadw dda, megis archwiliadau gweledol a gwaith cynnal a chadw tymhorol. Bydd hyd ac amllder y gwaith archwilio yn dibynnu ar natur y cynllun a'i leoliad a'r tebygolrwydd y cyflwynir cynlluniau eraill.¹¹¹ Mae lleiniau clustogi ar lannau afon yn darparu lefel dda o sicrwydd os ydynt yn cwmparu plannu coed a gosod ffens rhyngddynt â'r caeau sydd eisoes yn bod, sy'n golygu y bydd y defnydd tir yn parhau ac na fydd yn troi'n ôl at ddefnydd amaethyddol. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau bod y trefniadau hyn yn para am byth.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Offeryn lliniaru addas ar gyfer cyflawni niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau, ac os na chaiff ei roi ar waith fel rhan o ofynion sydd eisoes yn bod o dan Erthygl 6(2).

A.9 Mesurau effeithlonrwydd dŵr



Ffigur A-10 Darlun sgematig o rai mesurau effeithlonrwydd dŵr mewn preswylfa sengl.

Disgrifiad

Mae mesurau effeithlonrwydd dŵr yn dibynnu ar ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon mewn cartrefi er mwyn lleihau cyfaint y dŵr gwastraff (sy'n cynnwys llwythi DIN) a gynhyrchir gan aelwydydd sengl¹⁷⁴. Mae hyn yn caniatáu gostwng y gwerthoedd effeithlonrwydd dŵr a ddefnyddir yng Ngham 1 y gyfrifiannell cyllideb maethynnau o'r 120 litr y dydd a ddefnyddir yn gyffredinol fel gwerth rhagofalus rhagosodedig, gan arwain at leihau maethynnau.

Gall datblygwyr newydd sicrhau defnydd dŵr is a mwy effeithlon ar gyfer eu heiddo trwy fesurau effeithlonrwydd dŵr, tra bo rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Lloegr wedi defnyddio'r dull gweithredu hwn ar raddfa fawr (oddi ar y safle) trwy ôl-osod mesurau lliniaru mewn tai o eiddo'r cyngor i greu 'cronfa' o gredydau lliniaru sy'n caniatáu i dai gael eu hadeiladu¹¹⁷.

Cyflawnir hyn yn fwyaf llwyddiannus trwy reoli cyfradd y llif sy'n dod i mewn i'r eiddo, gan ddefnyddio dyfais i reoli'r llif yn ôl cyfradd benodedig, gan fod hyn yn lleihau'r risg o ffitiadau a gosodiadau defnydd dŵr isel yn cael eu gwaredu dros amser.

Mae dulliau gweithredu eraill yn cynnwys defnyddio cyfarpar ailgylchu dŵr llwyd i leihau all-lif carthion. Ystyr dŵr llwyd yw dŵr gwastraff o gawodydd, baddonau, basnau ymolchi, peiriannau golchi dillad a sinciau cegin.

Mae modd casglu dŵr glaw at ddefnydd mewnol (e.e. mewn toiledau a pheiriannau golchi dillad).

¹¹⁷ Ashford Borough Council (2024) Ashford Borough Council partners with Cenergist to help tenants save money and water and help protect the local environment. Ar gael yma: [Ashford Borough Council partners with Cenergist to help tenants save money and water and help protect the local environment](#)

	Gellir ychwanegu gosodion llif isel at nifer o beiriannau'r cartref, gan gynnwys toiledau, pennau cawodydd a thapiau a ddyluniwyd i gynnal perfformiad da ond gan ddefnyddio llai o ddŵr na modelau confensiynol. ¹¹⁸
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Rheoliadau Adeiladu 2010: Dogfen Gymeradwy G Glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac effeithlonrwydd dŵr (gweler G2 Effeithlonrwydd Dŵr)¹¹⁹. O ran casglu dŵr glaw, dylai datblygwyr drafod anghenion a manylebau penodol y prosiect â chyflenwr sy'n aelod o UKWRA (Cymdeithas Ailddefnyddio Dŵr y Deyrnas Unedig). Mae ystod o atebion casglu dŵr glaw sy'n bodloni safon BS EN 16941-1:2024 Systemau dŵr anyfedol – Systemau sy'n defnyddio dŵr glaw gyda thanciau wedi'u gwneud o ddefnyddiau amrywiol sydd naill ai'n sefyll ar eu traed eu hunain neu'n cael eu gosod o dan y ddaear, a'r cyfan yn cydymffurfio â'r safon¹²⁰.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Bydd dŵr glaw yn cael ei gasglu yn syth ar ôl rhoi'r cynllun ar waith. Bydd gosodion llif isel yn dechrau gweithio yn syth ar ôl cael eu gosod.
Cyfradd gwaredu maethynnau	O'u defnyddio i fflysiot toiled, gallai systemau dŵr llwyd â dyluniad da arbed traean o'r dŵr a dynnir o'r prif gyflenwad.¹²¹ Mae sestion toiled dau dyniad yn debygol o ddefnyddio oddeutu 2-27% yn llai o ddŵr.¹²² Wedi'r gwaith gosod, gall mesuryddion clyfar arwain at ostyngiad o oddeutu 12-17% yn y dŵr a ddefnyddir yn y cartref (a'r gwastraff a gynhyrchir)¹²³. Mae'n bosibl defnyddio oddeutu 30% i 50% yn llai o ddŵr trwy ddefnyddio gosodion llif isel¹¹⁸. I roi enghraifft o leihau maethynnau, gan ddefnyddio cyfrifiannell cyllideb maethynnau Cymru Gyfan: byddai tŷ 1 ystafell wely yn ardal Cyngor Sir Penfro sy'n gollwng i PTP (gan ddefnyddio gwerthoedd y terfyn gollwng diofyn a ganiateir) a'r feddiannaeth ddiofyn (2.22 unigolyn y cartref) a chydag effeithlonrwydd dŵr o 120 litr y dydd, yn cynhyrchu 7.09 kg N y flwyddyn. Byddai gwella effeithlonrwydd i 60 litr y dydd yn gostwng defnydd dŵr i 3.55 kg N y flwyddyn gyda'r holl fewnbynau eraill yn aros fel y maent. Er mwyn rhoi sicrwydd digonol i'r awdurdod cymwys, dylai tystiolaeth y gwneuthurwr o'r ystadegau perfformio a nodwyd gael ei darparu mewn asesiad niwtraliaeth maethynnau a strategaeth liniaru.
Buddion ehangach	Mae'r buddion ehangach a gysylltir â mabwysiadu mesurau effeithlonrwydd dŵr yn cynnwys: • Effeithlonrwydd adnoddau dŵr. • Ôl troed carbon is. • Ailgylchu dŵr llwyd sy'n lleihau biliau cyflenwi dŵr a dŵr gwastraff. • Lleihau biliau ynni (e.e. defnyddio a chynhesu llai o ddŵr)¹²³.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Bydd angen archwilio dyfeisiau effeithlonrwydd dŵr a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y safonau effeithlonrwydd a ragwelwyd yn cael

¹¹⁸ Scalpers, S. (2025) 'Low-Flow Fixture Installation: Save Water & Cut Bills', Splash Plumbing, 20 Mehefin. Ar gael yma: <https://www.splashplumbing.com/what-are-low-flow-fixtures-and-should-you-switch-this-summer-5-essential-benefits-for-water-conservation/> (Cyrchwyd: 19 Rhagfyr 2025).

¹¹⁹ Llywodraeth Cymru 2010 Rheoliadau Adeiladu Dogfen Gymeradwy G Glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac effeithlonrwydd dŵr Dogfen gymeradwy rhan G (glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac effeithlonrwydd dŵr) (Saesneg yn unig)

¹²⁰ https://kb.goodhomes.org.uk/wp-content/uploads/2025/07/Water-Guide-GHA-July-2025_FINAL.pdf

¹²¹ (Dim dyddiad) 'Greywater for domestic users: an information guide'.

https://sswm.info/sites/default/files/reference_attachments/ENVIRONMENT%20AGENCY%202011%20Greywater%20for%20Domestic%20Users.pdf

¹²² Gov UK (dim dyddiad). *The Effectiveness of Converting WCs to Dual Flush* [Ar-lein] Ar gael yma:

<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7c369140f0b67d0b11f9f1/sw6-011-ts-e-e.pdf>

¹²³ https://waterwise.org.uk/app/uploads/2024/09/J37880-Waterwise_Water_Efficiency_Strategy_Inners_Landscape_WEB.pdf

	eu cynnal am byth. Mae'n debygol y bydd gofyn cyflwyno tystiolaeth o hynny (e.e. cyflwyno allbynnau cynnal a chadw/monitro) i'r awdurdod cymwys.
Cyfngiadau/Pryderon	Y prif gyfyngiad sy'n gysylltiedig â'r ateb lliniaru hwn yw'r anhawster gorfodi a rheoli (e.e. gall perchnogion tai newid gosodion a ffitiadau) ac felly mae angen tystiolaeth reolaidd o gydymffurfiaeth sydd wedi'i sicrhau yn gyfreithiol, boed perchnogaeth y cartref yn newid neu beidio.
Costau	Y canlynol yw rhai costau dangosol mesurau effeithlonrwydd dŵr: • Dyfaeis rheoli llif: Mae tystiolaeth bod biliau cyfleustodau yn gostwng hyd at £360.¹²⁴ Mae ystod o gynhyrchion ar gael, gyda'r gwneuthurwyr yn darparu dyfynbrisiau ar gyfer offer. • Seston toiled dau dyniad: Mae prisiau'n gallu amrywio, fel arfer rhwng £30 am uned gudd sylfaenol i fwy na £100 am setiau cysylltiad uniongyrchol cyflawn neu geramig safon uwch. • Tanc casglu dŵr glaw (ar gyfer preswylfa sengl): yn dibynnu ar faint y tanc, mae'r gost yn gallu amrywio o lai na £100 am gasgen ddŵr sylfaenol, i systemau casglu mwy o faint sy'n costio rhwng£2,000 a £4,000 (e.e. tanc 1,500-7,500 litr).
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	I roi sicrwydd digonol, bydd yr Awdurdod Cymwys yn gofyn am dystiolaeth bod Cynllun Cynnal a Chadw a Monitro wedi'i sicrhau, ac y bydd yn parhau ar waith trwy gytundeb cyfreithiol pan gaiff unrhyw eiddo yr effeithir arno ei werthu. Mae'n bosib y bydd gofyn cyflwyno data yn rheolaidd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddangos y lefelau dŵr o'r mesurydd a thystiolaeth o wirio peiriannau i ddangos bod perfformiad y ffitiadau effeithlonrwydd dŵr yn cyrraedd y safon ofynnol er mwyn cyflawni'r gostyngiadau a nodwyd mewn maethynnau.
Ystyriaethau ychwanegol	Yn achos casglu dŵr glaw, dylid dewis tanc sy'n gweddu i'r amodau penodol ar y safle, gan ystyried ffactorau megis y llwyth strwythurol, hwylystod cludo, a'r gofynion gosod. Mae'n hanfodol bod manylebau'r tanc, y man casglu, y system hidlo, y pwmp, a'r uned reoli yn cael eu diffinio ar ddechrau'r broses ddylunio er mwyn sicrhau costeffeithlonrwydd a chydweddiad â gofynion y datblygiad. ¹²⁰
Perfformiad yn yr hirdymor	Yn yr hirdymor, bydd y perfformiad yn ddibynnol ar gynnal a chadw'r dyfeisiau effeithlonrwydd dŵr a/neu osod dyfeisiau newydd yn lle'r hen rai. Byddai amserlen briodol ar gyfer gwaith cynnal a chadw a chyfnewid yn sicrhau bod yr arbedion o ran maethynnau yn para am byth.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Offeryn lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau.

¹²⁴ Cenergist (2026). Reducing Energy Bills. [Ar-lein] Ar gael yma: <https://www.cenergist.com/water/reducing-energy-bills/>

0

A.10 Gwell rheolaeth ar ffosydd draenio



Ffigur A-11 Ffos ddraenio.	
Disgrifiad	Mae Gwell Rheolaeth ar Ffosydd Draenio yn ddull o reoli ffosydd draenio amaethyddol a chysiau dŵr bach mewn ardaloedd gwledig er mwyn lleihau maethynnau¹²⁵. Mae'n cyfuno'r canlynol¹²⁶: • Trawstoriadau sianel ddau gam (h.y. creu gorlifdiroedd ochr yn ochr â ffosydd wedi'u sianeileiddio). • Goredau gradd isel. • Caniatáu llystyfiant yn y ffosydd. Y nod wrth gyfuno'r tri dull gweithredu hyn mewn sianel sengl yw cadw dŵr yn y rhwydwaith draenio am fwy o amser, gan hyrwyddo cyfres o brosesau naturiol sy'n lleihau'r maethynnau a drawsgludir ymlaen, gan helpu i gloi maethynnau mewn gwaddodion neu fel rhan o ddeunydd organig (y gellir ei waredu o bryd i'w gilydd yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol). Cafodd dyluniad y dull gweithredu ffosydd draenio uwchraddedig ei ddatblygu gan Greenshank Environmental a'i gymeradwyo gan Natural England¹²⁶. Yng Nghymru, bydd angen cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol fesul achos i edrych ar addasrwydd y cynllun ar gyfer datblygiad.
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Mae'r gofynion rheoliadol yn cynnwys y canlynol ond heb eu cyfyngu i hynny: • Hawlenni amgylcheddol. • Asesu'r perygl o lifogydd. • Cydsyniad amddiffynfa rhag llifogydd. • Trwyddedau bywyd gwyllt. • Caniatâd cynllunio. • Cydsyniad cwrs dŵr arferol.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Yn ystod y tymor tyfu cyntaf fel arfer, unwaith y mae'r llystyfiant wedi sefydlu.

¹²⁵ Natural England. (dim dyddiad) NECR590 Edition 1 Enhanced Drainage Ditch Management: A framework approach for nutrient neutrality - NECR590, Natural England - Access to Evidence. Ar gael yma: <https://publications.naturalengland.org.uk/publication/5530993254203392> (Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2025).

¹²⁶ Enhanced Drainage Ditch Management for Nutrient Transport Reduction (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://www.greenshank-environmental.com/blog/enhanced-drainage-ditch-management-for-nutrient-transport-reduction> (Accessed: 12 Rhagfyr 2025).

Cyfradd gwaredu maethynnau	Mae'r gostyngiad yn y cyfanswm llwyth nitrogen yn amrywio rhwng oddeutu 10% i 77%, yn dibynnu ar yr hinsawdd, y llif a'r dyluniad. Mae dadansoddiadau'n awgrymu bod gwaredu maethynnau yn debygol o fod yn fwyaf effeithlon pan ddefnyddir cyfuniad o Arferion Rheoli Gorau (ARhGion) mewn ffos ddraenio sengl. O ganlyniad, dylai dyluniadau wedi'u hoptimeiddio ymgorffori'r tri arfer rheoli gorau a nodir uchod, oherwydd bydd defnyddio'r tri gyda'i gilydd yn cynnig gwelliannau o ran arafu'r llif, ymestyn amser cadw'r dŵr, a'r hyder cyffredinol yn y perfformiad lliniaru maethynnau¹²⁶. Amcangyfrif rhagofalus: cyfanswm gostyngiad o 28% mewn nitrogen¹²⁶.
Buddion ehangach	Mae buddion ehangach mabwysiadu dull o well rheolaeth ar ffosydd draenio i liniaru DIN yn cynnwys: • Rheoli llifogydd yn naturiol. • Gwella bioamrywiaeth. • Rheoli adnoddau dŵr.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Mae gwell rheolaeth ar ffosydd draenio yn gofyn cyflawni gwaith cynnal a chadw parhaus a allai gynnwys: • Gwaredu gwaddodion o bryd i'w gilydd er mwyn cynnal capasiti'r ffos. • Rheoli'r llystyfiant (lladd gwair, rheoli chwyn neu eu gwaredu pan fyddant wedi gordyfu). • Archwiliadau cadernid strwythurol yn dilyn llif uchel. • Dull ymaddasol o reoli'r llystyfiant er mwyn cydbwysu'r cynefin a'r perfformiad hydrolig.
Cyfyngiadau/Pryderon	Mae'r cyfyngiadau canlynol yn gysylltiedig â mabwysiadu cynllun o well rheolaeth ar ffosydd draenio: • Mae'n gofyn colli tir amaethyddol yn barhaol. • Nid yw'n addas ar gyfer sianeli mawr (>5 m o led) neu sianeli ynni uchel. • Ar lethrau >3% bydd angen gosod coredau a chyfrifo'r pellter rhyngddynt.¹²⁵ • Y perygl o halogi dŵr daear mewn Parth Gwarchod y Ffynhonnell. • Gall glawiad dwys ddifrodi strwythurau (goredau)¹²⁶. • Gall gwella cysylltedd dŵr wyneb a dŵr daear beri i lygryddion eraill ddechrau symud¹²⁶.
Costau	Bydd y costau gosod yn amrywio fesul prosiect, yn dibynnu ar hyd y ffos, y gofynion o ran cloddio, gosod coredau a phlannu, ond disgwylir yn gyffredinol y bydd costau cyfalaf gwell rheolaeth ar ffosydd draenio yn is na dulliau gweithredu dwysach ar y tir, megis newid defnydd tir neu greu gwlyptiroedd, sydd fel arfer yn defnyddio mwy o dir a gwaith cloddio helaethach.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Er mwyn cyfiawnhau'r gost o ddefnyddio cynllun o well rheolaeth ar ffosydd draenio, mae angen cynnal astudiaeth ben desg i amcangyfrif y gostyngiad posibl mewn maethynnau, gan ddilyn methodoleg Strock (2025): • Amlinellu'r dalgylch sy'n draenio i'r ffos. • Amlygu'r defnydd tir yn y dalgylch. • Cysylltu'r defnydd tir â chyfernodau allforio Farmscoper¹²⁷ sy'n disgrifio'r allforio maethynnau yn sgil pob defnydd tir. Offeryn cefnogi penderfyniadau yw Farmscoper i asesu a lleihau llygredd amaethyddol gwasgaredig. Fodd bynnag, mae gan Farmscoper gyfyngiadau yng nghyd-destun Cymru, gan

¹²⁷ ADAS, Farmscoper: Decision support tool to assess and reduce diffuse agricultural pollution. Ar gael yma: <https://adas.co.uk/services/farmscoper/>

	fod y rhan fwyaf o'r rhagdybiaethau a'r data wedi'u teilwra i Loegr. Argymhellir defnyddio'r offeryn ochr yn ochr â dulliau eraill, ac efallai y bydd datblygwyr am ystyried dadansoddi dalgylchoedd tebyg yn Lloegr. • Cyfrifo cyfanswm yr allforio maethynnau yn sgil defnydd tir yn y dalgylch, sef y mewnbwn maethynnau i'r cynllun. • Cymhwyso gostyngiad rhagofalus o 28% er mwyn amcangyfrif y potensial lliniaru.
Ystyriaethau ychwanegol	Er mwyn cynnal lefel uchel o hyder a gallu hawlio'r arbedion maethynnau a amcangyfrifir, bydd rhaid i gynigion sy'n cynnig gwell rheolaeth ar ffosydd draenio ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol am y canlynol: Amcan dylunio: dylai'r cynigion ddiffinio ffynonellau maethynnau'r cynllun, amcangyfrif y mewnbwn llwyth maethynnau sylfaenol (gan ddefnyddio data monitro, y dull modelu a argymhellir, neu waith modelu arall, ynghyd â chyfiawnhad manwl), a dangos sut y cyfrifwyd y credydau maethynnau. Dichonoldeb: rhaid i'r cynnig gynnwys gwybodaeth am y gofynion canlynol: • Topograffi a lefelau. • Daeareg a hydroddaeareg. • Pridd a gwaddodion. • Y perygl o lifogydd. • Safle gwarchodedig, rhywogaethau, a rhywogaethau estron goresgynnol. • Defnydd tir a pherchnogaeth tir. • Hawliau tramwy a mynediad cyhoeddus. • Y perygl o drawiadau adar. • Adfer natur. • Gwasanaethau a seilwaith. • Ystyriaethau rheoliadol. Y broses ddylunio: Argymhellir y dylai cynigion lynu wrth y meini prawf dylunio a restrir gan Natural England¹²⁵. Yng Nghymru fodd bynnag, bydd angen cysylltu'n gynnar â'r Awdurdod Cynllunio Lleol i bennu addasrwydd y dull gweithredu ar gyfer y datblygiad. Cynllun gweithredu: dylai'r cynllun gweithredu roi sylw digonol i'r ffordd y gweithredir y cynllun, gan ddarparu gwybodaeth am y canlynol: • Clirio'r safle a'r gwaith cloddio. • Sefydlu a rheoli llystyfiant. • Cynllun rheoli amlinellol. Monitro ar ôl gweithredu: bydd gofyn monitro cynlluniau rheoli ffosydd draenio er mwyn sicrhau bod y system yn glynu wrth y cynllun gwreiddiol (e.e. archwiliadau gweledol, tynnu ffotograffau o fan sefydlog), ond ni fydd angen i'r cynigion ddefnyddio'r monitro i ddilysu nifer y credydau maethynnau a hawli'r.
Credydau maethynnau	Gellir hawlio credydau ar sail amcangyfrif o'r gostyngiad mewn maethynnau; bydd credydau ychwanegol yn bosibl os bydd gwaith monitro perfformiad yn dangos bod mwy o faethynnau'n cael eu gwaredu¹²⁵.
Perfformiad yn yr hirdymor	Mae'r broses o waredu nitrogen o ddraeniau amaethyddol yn ddibynol ar ddadnitreiddio microbaidd¹²⁷, a bydd cyfraddau newidiol i'w gweld yn dibynnu ar yr hinsawdd dymhorol ac ar amser cadw'r dŵr (h.y. fe'u gwaredir yn well mewn llif isel a thywydd cynhesach). Fodd bynnag, gellir rhagdybio gostyngiad

	cyfartalog o 28% mewn nitrogen, yn amodol ar gyflawni'r gofynion uchod a darparu tystiolaeth ohonynt.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Offeryn lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau. Fodd bynnag, nid yw canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar niwtraliaeth maethynnau yn cymeradwyo'r defnydd o fesurau gwell rheolaeth ar ffosydd draenio yn benodol er mwyn gwrthbwysio datblygiad o dan Erthygl 6(3) ac felly byddai hyn yn cael ei ystyried fesul achos.

A.11 Gwaredu dŵr wyneb/dŵr gwastraff o'r dalgylch yr effeithir arno

Disgrifiad	Mewn rhai achosion, efallai y bydd modd i ddŵr wyneb ollwng neu ymdreiddio i afon neu ddyfrhaen sydd heb gysylltiad hydrolegol â'r safle yr effeithir arno. Gall hyn fod yn briodol i ddatblygiadau ger ffin dalgylch niwtraliaeth maethynnau. Dewis arall fyddai gwaredu dŵr gwastraff trwy ei gludo mewn tancer i waith trin dŵr gwastraff y tu allan i'r dalgylch yr effeithir arno, yn amodol ar sicrhau sêl bendith DCWW a fydd yn adolygu cynigion fesul achos. Serch hynny, dylid ceisio cysylltu â'r prif gyflenwad bob amser, lle bo hynny'n bosibl. Mae'r dewisiadau hyn yn lleihau'r llwyth DIN yn y corff dŵr/yr ardal yr effeithir arnynt.
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng nghanam yr Asesiad Priodol).	Er mwyn gollwng dŵr wyneb i mewn i afon neu ddyfrhaen, bydd gofyn cael: • Trwydded gollwng i ddŵr wyneb a dŵr daear • Asesiad Risg Amgylcheddol H1 Er mwyn cludo dŵr gwastraff mewn tancer, rhaid i ddatblygwyr wneud y canlynol¹²⁸: • Dangos bod y safle'n addas ar gyfer tanceri. • Cadarnhau bod capasiti yn y gwaith trin dŵr gwastraff sy'n derbyn, a'i fod yn bodloni'r safonau trin dŵr. • Cydymffurfio â'r holl reoliadau rheoli gwastraff perthnasol a'r Côd Ymarfer Dyletswydd Gofal Gwastraff¹²⁹.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Yn syth ar ôl dargyfeirio'r dŵr neu ar ôl dechrau ei gludo mewn tancer, gyda'r llwyth DIN yn gostwng cyn gynted ag y gwaredir y llif o'r rhwydwaith hydrolegol yr effeithir arno.
Cyfradd gwaredu maethynnau	I bob pwrpas, mae'n gwaredu 100% o'r DIN o'r cyfaint dŵr a ddargyfeiriwyd, yn ôl mesuriadau llif a chrynodiad.
Buddion ehangach	Mae'r buddion ehangach sy'n gysylltiedig â gwaredu dŵr wyneb/dŵr gwastraff o'r dalgylch yr effeithir arno yn cynnwys: • Cydymffurfio'n gyflym â gofynion niwtraliaeth maethynnau. • Gall fod yn gam lliniaru dros dro tra bydd atebion parhaol yn cael eu cyflwyno. • Gall leihau'r pwysau ar waith trin dŵr gwastraff lleol sydd eisoes wedi'i orlwytho.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	O fabwysiadu'r atebion hyn, mae'r gofynion canlynol o ran cynnal a chadw a rheoli yn debygol: • Archwilio a gwasanaethu'r seilwaith dargyfeirio (pympiâu, falfiau, pibellau) yn rheolaidd. • Cadw cofnodion cywir o'r cyfeintiau a ddargyfeirir neu a gludir mewn tancer, gan gynnwys y dyddiadau a manylion y gwaith trin dŵr gwastraff sy'n derbyn. • Adolygu'r trwyddedau a'r cytundebau cynhwysedd â'r gwaith trin dŵr gwastraff yn gyson.

¹²⁸ <https://www.folkestone-hythe.gov.uk/downloads/file/2025/id-333873-3-mm7>

¹²⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice>

Cyfngiadau/Pryderon	Mae gwaredu dŵr gwastraff trwy ei gludo mewn tancer i waith trin dŵr gwastraff y tu allan i'r dalgylch yr effeithir arno yn broses gymhleth a chostus¹³⁰, gyda'r cyfngiadau canlynol: • Y perygl y bydd dŵr yn gorlifo i'r amgylchedd pan fydd pwmp neu dancer yn methu. • Gall teithiau mynych gan danceri achosi sŵn a tharfu ar eraill. • Atebolrwydd ariannol uchel a chostau gweithredu parhaus. • Gall rhannu pwyntiau tanceri arwain at wrthdaro o ran amserlenni. • Mae'n ddibynol ar gapasiti'r gwaith trin dŵr gwastraff. • Allyriadau carbon ac effaith y cludo ar ansawdd aer, cynllun sydd heb fod yn hunangynhaliol ac sy'n agored i broblemau/ddylanwadau allanol. • Mae gofyn llunio cynlluniau cadarn wrth gefn ar gyfer methiannau neu dywydd eithafol. • Mae perygl bod y dalgylch y mae'r gwaith trin dŵr gwastraff sy'n derbyn wedi'i leoli ynddo hefyd wedi'i ddosbarthu fel un yr effeithir arno gan gyfngiadau niwtraliaeth maethynnau.
Costau	Codir tâl ymgeisio sy'n cwmpasu costau penderfynu ar drwyddedau, yn ogystal â ffi flynyddol¹³¹. Mae costau cludo mewn tancer yn amrywio yn ôl pellter a chyfaint, a chodir tâl fesul llwyth fel arfer. Mae costau'r seilwaith dargyfeirio (pibellau, pypiau) yn dibynnu ar ba mor agos yw'r man gollwng neu'r mynediad i'r tancer. Yn yr hirdymor, mae'r dewis hwn yn debygol o achosi mwy o gostau na system ddraenio gynaliadwy neu uwchraddio PTP. Fel rheol, byddid yn ei ystyried yn ddewis lliniaru canolig i uchel ei gost, gyda'r gost gyffredinol yn dibynnu ar hyd cyfnod gweithredu'r mesur.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Rhaid i ddatblygwyr ddarparu tystiolaeth o waredu parhaol, gan gynnwys data ynghylch llifoedd, y cytundebau â'r gwaith trin carthion sy'n derbyn, a dogfennau cydymffurfiaeth.
Ystyriaethau ychwanegol	Rhaid i ddatblygwyr sicrhau nad ydynt yn dadleoli effeithiau amgylcheddol i ddalgylchoedd cyfagos. Efallai y bydd angen i ddatblygwyr asesu'r effeithiau cronol ar y cyrff dŵr sy'n derbyn. Dylai llwybrau teithio'r tanceri osgoi Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, a lleoliadau eraill a allai fod yn sensitif.
Perfformiad yn yr hirdymor	Bydd hyn yn effeithiol am gyfnod amhenodol tra bo'r seilwaith yn cael ei gynnal a'i gadw a thra bo'r trwyddedau'n dal i fod yn ddilys. Mae'r perfformiad yn dibynnu ar gapasiti'r gwaith trin dŵr gwastraff ac ar gydymffurfiaeth barhaus â'r rheoliadau amgylcheddol perthnasol.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Bydd DCWW yn adolygu priodoldeb y dull gweithredu hwn fesul achos. Offeryn lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau.

¹³⁰ <https://www.watercorporation.com.au/-/media/WaterCorp/Documents/Developing-and-Building/Subdividing/Wastewater-tanking.pdf>

¹³¹ Cyfoeth Naturiol Cymru / Canllawiau ar wneud cais am drwyddedau gollwng dŵr a chydymffurfio â nhw (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges-and-septic-tanks/discharges-to-surface-water-and-groundwater/guidance-on-applying-for-and-complying-with-water-discharge-permits/?lang=cy> (Cyrchwyd: 19 Rhagfyr 2025).

A.12 Systemau helyg



Ffigur A-12 Plannu helyg.

Disgrifiad	Basnau gwlyptir yw systemau helyg, sy'n cynnwys coed helyg yn bennaf, lle mae'r holl ddŵr yn sychdarthu, anweddu a thrydarthu i'r aer yn ystod yr haf ac yn cael ei storio'n llawn yn ystod y gaeaf. Fe'u dyluniwyd i drin yr holl ddŵr mewnllif trwy sychdarthu, anweddu a thrydarthu ac felly nid oes allfeydd yn y system. ⁸
Gofynion rheoliadol eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Rhaid i ddatblygwyr gydymffurfio â'r gofynion allweddol canlynol: • Mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) yn berthnasol i newidiadau parhaol mewn defnydd tir a gall fod gofyn sicrhau "penderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru". • Mae'n bosibl y bydd angen trwydded amgylcheddol ar gyfer y mesur lliniaru hwn. • Efallai y bydd gofyn sicrhau caniatâd cynllunio trwy'r Awdurdod Cynllunio Lleol. • Bydd angen i unrhyw waith cynaeafu gydymffurfio â Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Gallai'r cyfraddau amsugno fod yn wael i ddechrau, ond byddant yn gwella gydag amser wrth i'r helyg dyfu'n fwy ac wrth i'w cyfradd twf gynyddu.
Cyfradd gwaredu maethynnau	Mae modd i systemau helyg arbed a gwaredu cyfanswm uchel o nitrogen, sef oddeutu 85% i 100% yn ôl adroddiadau.
Buddion ehangach	Mae buddion ehangach mabwysiadu systemau helyg i liniaru DIN yn cynnwys: • Atafaelu carbon. • Gwerth esthetig. • Lliniaru llifogydd. • Gwella bioamrywiaeth a pheillio. • Cynhyrchu biomas. • Gwerth o ran hamdden.

Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Cynaeafu biomas: bydd angen cynaeafu rhwng hanner a thraean y system bob dwy neu dair blynedd. Yn rhan o'r dyluniad, bydd angen cyflwyno cynllun cynnal a chadw cynhwysfawr, sy'n cynnwys mesurau i waredu silt.
Cyfngiadau/Pryderon	Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am y rheoliadau. Bydd gwaddodion crog yn cronni a bydd angen eu codi a'u gwaredu o bryd i'w gilydd.
Costau	Mae costau cyffredinol systemau helyg yn isel ar y cyfan.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Lle cyflwynir systemau helyg, bydd lliniaru maethynnau yn yr hirdymor yn dibynnu ar gynnal a chadw'r system mewn ffordd sy'n atal newidiadau a allai leihau ei heffeithiolrwydd. Bydd sefydlu coed helyg yn gynnar yn dystiolaeth fod y system yn gweithio. Mae cytundebau cyfreithiol neu gynlluniau rheoli, wedi'u cyfuno â gwaith monitro parhaus, yn ddull ymarferol o ddangos y bydd y system yn parhau i fod yn effeithiol am byth ac yn sicrhau budd o ran lliniaru maethynnau.
Ystyriaethau ychwanegol	Gan fod systemau helyg yn cynhyrchu llawer o fomas, mae'n bosibl y gallent greu ffrwd ynni/economi newydd.
Perfformiad yn yr hirdymor	Bydd systemau helyg yn gwella gydag amser wrth i gyfradd twf yr helyg gynyddu. Cynigant hirhoedledd (a thybio bod y system helyg wedi'i sicrhau am byth trwy gytundebau Adran 106) a sicrwydd os oes modd sicrhau gwaith monitro i gadarnhau bod y sefyllfa'n parhau.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Offeryn lliniaru priodol ar gyfer niwtraliaeth maethynnau o dan Erthygl 6(3), os oes tystiolaeth briodol wedi'i rhoi a'i sicrhau.

A.13 Credydau maethynnau

Disgrifiad	Mae credydau maethynnau yn caniatáu i ddatblygwyr (neu Awdurdodau Cynllunio Lleol ar lefel strategol) wrthbwysu'r llygredd maethynnau (e.e. DIN) a gynhyrchir gan ddatblygiad trwy ariannu gweithgareddau lliniaru oddi ar y safle, megis creu gwlyptiroedd, coetiroedd neu fathau eraill o newid defnydd tir sy'n lleihau'r llwyth maethynnau. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydbwysu'r mewnbwn maethynnau i ddalgylchoedd sensitif ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion yr ACA. Yng Nghymru, ar hyn o bryd (Mawrth 2026) nid oes system safonedig o gredydau maethynnau ar gyfer niwtraliaeth maethynnau datblygiadau yn y dalgylchoedd ACA forol lle mae niwtraliaeth maethynnau'n ofynnol. Serch hynny, mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yr effeithir arnynt a Llywodraeth Cymru yn edrych ar atebion ar raddfa strategol a rhagwelir felly y bydd systemau credydau ar gael maes o law. Dylai datblygwyr ymweld yn aml â gwefannau'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i gael y newyddion diweddaraf am hyn. Yn Lloegr, mae enghreifftiau blaenorol o gyflwyno cynlluniau credydau yn nalgylchoedd ardaloedd cadwraeth arbennig morol. Mae nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithredu cynlluniau credydau parhaus, sy'n golygu bod modd cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg nes y bydd y credydau a gynigir yn dod i ben. Cyfrifir y credydau ar sail gwrthbwysu fesul blwyddyn wedi'u mesur mewn cilogramau'r flwyddyn. Rhaid i ddatblygwyr yn gyntaf gyfrifo eu cyllideb maethynnau gan ddefnyddio'r Gyfrifiannell Cyllideb Maethynnau berthnasol a phenodol ar gyfer y dalgylch 132 a chyflwyno cais wedyn i'r cynllun credydau perthnasol.
Gofynion Rheoliadol Eraill (ar wahân i'r angen i ddangos cydymffurfedd â phroffion y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer niwtraliaeth yng ngham yr Asesiad Priodol).	Nid oes system credydau yng Nghymru ar hyn o bryd felly nid yw'r gofynion rheoliadol wedi'u pennu eto.
Amser nes bydd yn Effeithiol	Daw'r credydau i rym yn syth ar ôl cael eu dyrannu, gan eu bod yn cynrychioli cam lliniaru sydd eisoes wedi'i sicrhau a'i roi ar waith. ¹³³
Cyfradd Gwaredu Maethynnau	Gall datblygwyr gyfrifo eu cyllideb maethynnau gan ddefnyddio'r Gyfrifiannell Cyllideb Maethynnau ar gyfer y dalgylch perthnasol. Darperir credydau fesul cilogram y flwyddyn, sy'n cyfateb i'r llwyth maethynnau y mae gofyn ei wrthbwysu.
Buddion Ehangach	Mae buddion ehangach cynlluniau strategol i'w gweld yn adrannau blaenorol y canllaw hwn, ond yn gyffredinol, maent yn cynnwys: • Creu cynefinoedd a gwella bioamrywiaeth. • Atafaelu carbon o gynlluniau coetir a gwlyptir • Lleihau'r perygl o lifogydd.
Gofynion o ran cynnal a chadw a rheoli	Ni fydd gan y datblygwr unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol dros gynnal a chadw'r tir lliniaru. Rhwymedigaeth darparwr y credydau fydd hynny, a bydd rhaid sicrhau cydymffurfiaeth ar hyd y cyfnod y cytunwyd arno (80–125 o flynyddoedd).

¹³² Nutrient Neutrality | Greenshank Environmental (dim dyddiad). Ar gael yma: <https://www.greenshank-environmental.com/nutrient-neutrality> (Cyrchwyd: 19 Rhagfyr 2025).

¹³³ Terms and conditions: nutrient mitigation scheme (dim dyddiad) GOV.UK. Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/natural-englands-nutrient-mitigation-scheme-for-developers/terms-and-conditions-nutrient-mitigation-scheme> (Cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2025).

	Rhaid i ddatblygwyr gadw dogfennau sy'n profi bod y credydau wedi'u prynu a'r cysylltiad â'u datblygiad.
Cyfyngiadau/Pryderon	Mae'r cyfyngiadau a'r pryderon sy'n gysylltiedig â lliniaru DIN trwy brynu credydau maethynnau yn cynnwys: • Nifer cyfyngedig o gredydau sydd ar gael mewn dalgylchoedd ACA â galw mawr. • Y gost uchel ymlaen llaw fesul annedd. • Mae effeithiolrwydd gwrthbwysu maethynnau â chynlluniau credydau maethynnau yn ddadleuol¹³⁴. • Nid yw credydau'n esgusodi datblygwyr rhag dangos niwtraliaeth maethynnau yn eu dogfennau cynllunio.
Costau	Yn nodweddiadol, mae cost credydau maethynnau yn Lloegr yn amrywio o £2,500 i £7,000 yr annedd, yn dibynnu ar y dalgylch a'r math o faethyn¹³². Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, nid yw'r costau tebygol ar gyfer cynlluniau yng Nghymru yn y dyfodol yn hysbys. Efallai y bydd ffioedd gweinyddu ychwanegol yn berthnasol.
Sicrhau mesurau lliniaru maethynnau	Unwaith y bydd cynlluniau credydau ar gael, amlygwch gynllun credydau maethynnau sydd ar waith yn yr un dalgylch ACA â'r datblygiad. Nesaf, cadarnhewch fod y cynllun yn darparu gostyngiadau ar gyfer yr un maethyn.
Ystyriaethau ychwanegol	Dylai credydau fod yn ddewis lliniaru olaf, pan na all mesurau ar y safle neu fesurau integredig ymdrin yn llawn ag effaith maethynnau. Mae'r profiad yn Lloegr yn dangos bod credydau'n gallu bod yn ddud ac felly byddai'n well eu defnyddio'n gyffredinol i 'glirio' unrhyw faethynnau gweddilliol sydd dros ben. Mae ymgysylltu'n gynnar â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn hanfodol i osgoi oedi. Mae credydau'n gysylltiedig â dalgylchoedd penodol ac ni ellir eu trosglwyddo ar draws ffiniau ACA.
Perfformiad yn yr hirdymor	Camau lliniaru sydd wedi'u sicrhau am 80–125 o flynyddoedd, gyda monitro cyfnodol gan ddarparwr y credydau o dan oruchwyliaeth y rheoleiddiwr. Mae'r perfformiad yn dibynnu ar reoli'r tir yn effeithiol yn yr hirdymor a chydymffurfio â rhwymedigaethau'r cynllun.
Y Math o Fesur yn nhermau'r HRA	Byddai cynlluniau credyd niwtraliaeth maethynnau yn ymwneud yn benodol â'r broblem maethynnau, ac felly byddai modd iddynt gael eu defnyddio yn fesurau o dan Erthygl 6(3) yng Nghymru, pe cynigid cynllun o'r fath.

¹³⁴ New Scientist (dim dyddiad) River pollution 'offsets' for homes in England and Wales may not work, New Scientist. Ar gael yma: <https://www.newscientist.com/article/2384196-river-pollution-offsets-for-homes-in-england-and-wales-may-not-work/> (Cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2025).

Atodiad B Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Cynigion Dewisiadau Lliniaru

I ddefnyddio unrhyw rai o'r atebion lliniaru y manylir arnynt yn Adran 5 a 6, bydd gofyn cyflwyno cynnig lliniaru ategol a fydd yn darparu gwybodaeth am asesiadau dichonoldeb ac asesiadau technegol ategol a/neu gynlluniau sy'n esbonio sut y pennir faint o DIN a gaiff eu lliniaru. Yn yr adran hon, disgrifir rhai o'r prif feysydd y dylid eu cwmparu mewn cynnig lliniaru. Nid yw'r rhestr isod yn cynnwys popeth, ond dylai roi arweiniad ar y mathau o wybodaeth a gyflwynir gyda chynnig lliniaru da. Dylai'r cynnig geisio cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am bob eitem yn y rhestr, pa bynnag datrysiad lliniaru a weithredir. Mae'r canllawiau'n cyfateb i'r hyn a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ynghylch dewisiadau lliniaru ffosfforws yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.¹³⁵

Amcanion y dyluniad:

- Dylai fod gan gynnig am ddatrysiad lliniaru amcanion wedi'u diffinio'n glir. Dylai'r amcanion anelu at nodi'r gostyngiad realistig mewn DIN y gallai datrysiad lliniaru ei gyflawni, a hynny ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael. Os na all datrysiad lliniaru DIN amcangyfrif gostyngiad mewn llwyth DIN cyn iddo gael ei weithredu, dylai nodi'r gofynion i fonitro er mwyn canfod y gostyngiadau yn y llwyth DIN.
- Dylid diffinio'r ffynhonnell DIN a dargedir ar gyfer gostyngiad yn glir. Dylid amcangyfrif ac ystyried unrhyw amrywiad yn y llwyth DIN i'r datrysiad lliniaru. Dylid amlinellu pob ffynhonnell arall o DIN os ydynt yn hysbys.
- Dylid disgrifio unrhyw fuddion ychwanegol y mae datrysiad yn anelu at eu cyflawni.
- Dylid disgrifio perfformiad hirdymor y datrysiad, yn ogystal ag unrhyw amrywioldeb posibl yn y perfformiad hwn.

Asesiad dichonolrwydd:

- Dylid rhestru'r ffactorau a allai effeithio ar berfformiad gwaredu DIN ac a allai effeithio ar gael cymeradwyaeth i'r cynnig. Mae rhai o'r ffactorau cyffredin sy'n ymwneud â safle cyflwyno mesurau lliniaru a allai effeithio ar ddichonolrwydd yn cynnwys:
 - Topograffi.
 - Nodweddion y pridd (math, maint y gronynnau, dargludedd hydrologig, maethynnau'r pridd).
 - Lleoliadau Parth Gwarchod y Ffynhonnell.
 - Daeareg a Hydroddaeareg.
 - Perygl i ddŵr daear.
 - Agosrwydd i Barth Llifogydd 2 a 3.
 - Agosrwydd i safleoedd dynodedig neu gynefinoedd â blaenoriaeth.
 - Lleoliad henebion a safleoedd archeolegol.
 - Agosrwydd i ardaloedd dyrannu tir strategol.
 - Agosrwydd i isadeiledd allweddol.
 - Defnydd tir blaenorol.

Trosolwg o'r dyluniad:

- Dylai'r trosolwg o'r dyluniad ddarparu cysyniadaeth lefel uchel o'r datrysiad lliniaru.
- Dylai'r trosolwg o'r dyluniad gydnabod y potensial i gael iteriadau pellach o'r dyluniad i ymgorffori adborth gan randdeiliaid a thystiolaeth newydd.
- Dylid nodi'n glir beth yw'r fframwaith ar gyfer cyfrifo llwyth DIN ar gyfer datrysiad a gostyngiadau yn y llwyth DIN.

¹³⁵ Cyngor Sir Gaerfyrddin, 2023. Adolygiad Technegol o Ddewisiadau Lliniaru. Canllawiau ar ddewisiadau lleihau ffosfforws i'w defnyddio yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion [nutrient-mitigation-options-technical-review-west-wales.pdf](#)

- Dylai'r trosolwg o'r dyluniad gyfeirio at unrhyw ofynion ar gyfer rheoli a chynnal a chadw datrysiad lliniaru i gynnal galluedd gwaredu DIN.

Dyluniad manwl y datrysiad:

- Dylai'r dyluniad manwl gynnwys unrhyw nodweddion ac elfennau dylunio sy'n sylfaenol bwysig i sicrhau bod y datrysiad yn gallu gweithredu.
- Dylai'r dyluniad gynnwys yr wybodaeth benodol am ddatrysiad, megis dimensiynau, cynlluniau plannu llystyfiant, cyfraddau llif i mewn ac allan, a manylion eraill sy'n disgrifio sut y bydd y datrysiad yn cael ei adeiladu/ddatblygu.
- Dylai'r dyluniad manwl ddangos cysylltiad amlwg rhwng y ffordd y bydd dyluniad y datrysiad yn hyrwyddo'r prosesau sy'n gwaredu DIN.
- Lle bo modd, dylid defnyddio'r dyluniad manwl i ddangos sut y bydd datrysiad yn achosi gostyngiad wedi ei fesur yn y llwyth DIN.

Gweithredu'r datrysiad:

- Dylid darparu Cynllun Adeiladu/Cyflwyno ar gyfer y datrysiad.
- Dylai'r cynllun hwn ddangos y camau allweddol sy'n ofynnol i ddarparu datrysiad fel ei fod yn cyflawni unrhyw berfformiad gwaredu DIN a nodwyd.
- Dylai'r cynllun hwn hefyd ddangos yn glir os oes yna unrhyw bartneriaid darparu gofynnol a beth yw eu rôl yng ngweithrediad y datrysiad.


Cynllun Monitro:

- Dylid darparu Cynllun Monitro. Dylai hwn gynnwys gwybodaeth am y canlynol:
 - Y grŵp sy'n gyfrifol am fonitro'r datrysiad.
 - Y cyfnod monitro.
 - Y strategaeth samplu.
 - Monitro'r llinell sylfaen (cyn rhoi ateb ar waith).
 - Monitro gweithredol (ar ôl gweithredu).
 - Dulliau monitro.
 - Cynigion adroddiadau, gan gynnwys sut y bydd monitro wedi ei gysylltu â gofynion cynnal a chadw.


Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw:

- Dylai cynllun rheoli a chynnal a chadw gynnwys:
 - Y gofynion cynnal a chadw i sicrhau'r gallu i waredu DIN am oes gyfan y datrysiad.
 - Y camau cynnal a chadw y mae angen eu gweithredu os bydd y gallu hwn i waredu yn lleihau.
 - Y grŵp sy'n gyfrifol am gwblhau'r camau gweithredu hyn.
 - Sut y bydd y gwaith cynnal a chadw'n cael ei ariannu ar hyd oes y datrysiad.
 - Sut y bydd camau cynnal a chadw'n cael eu cofnodi a'u hadrodd i gorff cyfrifol, os bydd angen.


Atodiad B Ffigurau



Ffigur C-1 Lleoliad ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yng Ngorllewin Cymru lle mae pwysau DIN wedi cyfrannu at amodau safle anffafriol (ffynhonnell: data ar-lein Map Data Cymru Llywodraeth Cymru)



Ffigur C-2 Lleoliad ACA Sir Benfro Forol lle mae pwysau DIN wedi cyfrannu at amodau safle anffafriol (ffynhonnell: data ar-lein Map Data Cymru Llywodraeth Cymru)



Ffigur C-3 Lleoliad dalgylchoedd dŵr croyw ACA sy'n sensitif i ffosfforws yng Nghymru.



<https://www.carmarthenshire.gov.wales>